Mae'r Tabl drosodd yn dangos yr ymholiadau sy'n ymwneud â gofal plant, dros y 5 mlynedd diwethaf. Rhoddwyd y Cynnig Gofal Plant ar waith yn y Fro yn 2018, ac roedd hyn yn cyfrif am gynnydd enfawr mewn ymholiadau i'r GGiD ac mae wedi parhau i dderbyn y nifer uchaf o ymholiadau bob blwyddyn.

Yn 2020-21, cynyddodd nifer yr ymholiadau am gymorth gyda chostau gofal plant yn ddramatig o'r flwyddyn flaenorol, ac roedd hyn o ganlyniad i geisiadau am ofal plant a ariannwyd ar gyfer gweithwyr allweddol drwy'r cynllun cymorth gofal plant drwy gyfnod y Coronafeirws. Cynyddodd ymholiadau am gymorth busnes hefyd yn ystod y flwyddyn hon, oherwydd bod darparwyr gofal plant yn cysylltu â'r GGiD am wybodaeth, cymorth a diweddarau eu manylion i nodi a oeddent ar agor neu ar gau.

**GGiD Fig A - Pynciau ymholiadau i'r GGiD o flwyddyn i flwyddyn**


Ffynhonnell: GGiD y Fro 2022



Mae'r GGD yn helpu i ddod o hyd i ofal plant i rieni a gofalwyr, gan deilwra eu chwiliad i ystyried eu hanghenion unigol. Mae hyn yn aml yn cynnwys a oes angen gofal cofleidiol ar blentyn i gyd-fynd ag ysgol benodol. Y rhan fwyaf o'r amser, mae GGiD yn gallu darparu cyfoeth o opsiynau. Fodd bynnag, bu nifer cyfyngedig o weithiau pan na ellid dod o hyd i ofal plant, ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i hadrodd i'r Tîm Gofal Plant i'w hystyried. Mae hyn yn cynnwys gofal cofleidiol i nifer o ysgolion yn y Barri, Penarth, Llandochau, Gwenfô a Llanbedr-y-fro, yn bennaf oherwydd bod clybiau brecwast ac ar ôl ysgol wedi cau yn ystod y pandemig. Y gobaith yw y bydd y rhain yn ailagor yn 2022 a bydd GGiD yn monitro hyn. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan y GGiD.

Mae'r GGiD hefyd yn darparu gwybodaeth reolaidd i ddarparwyr gofal plant am hyfforddiant, grantiau, cynlluniau, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi bod yn hanfodol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal plant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn canllawiau, ymarfer, profion ac ati. Mae'r GGiD yn gwneud hyn drwy anfon e-fwletinâu rheolaidd a thrwy ddiweddarau ei wefan, lle mae adran benodol bellach ar gyfer darparwyr gofal plant. Mae'r GGiD hefyd yn hwyluso grŵp Facebook caeedig ar gyfer darparwyr gofal plant y Fro. Mae'r GGiD hefyd yn gweithredu fel y *man cyswllt cyntaf* i bobl sydd â diddordeb mewn dod yn warchodwr plant. Ers 2018, mae'r GGiD wedi derbyn 137 o ymholiadau o'r fath ac mae'r Tabl isod yn dangos sut mae nifer yr ymholiadau wedi amrywio dros y blynedd hynny. Fodd bynnag, mae'r Fro yn bendant wedi gweld gostyngiad yn nifer yr ymholiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant sy'n gweithredu.

GGiD Ffig B. - Nifer yr ymholiadau am ddod yn warchodwr plant a dderbyniwyd ers 2018





## Cynnig Gofal Plant

O ran y Cynnig Gofal Plant 30 Awr mae hwn wedi bod ar gael yn y Fro ers mis Mawrth 2018 ac mae Swyddog Ymgysylltu'r Cynnig Gofal Plant yn rhan o'r Tîm GGiD. Y GGiD yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau ac mae'n gyfrifol am ymgysylltu â rhieni a darparwyr gofal plant i hyrwyddo'r cynnig a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arno.

Yn ddiweddar, mae GGiD wedi comisiynu animeiddiad sy'n helpu i esbonio'r Cynnig Gofal Plant a dechrau addysg feithrin. Gellir ei weld o'r dudalen we: [www.valeofglamorgan.gov.uk/childcareoffer](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/childcareoffer).

Ym mis Chwefror 2022, cofrestrodd 93% o leoliadau gofal plant cymwys yn y Fro i'r Cynnig Gofal Plant (h.y. 159 o leoliadau) Mae 48 o leoliadau hefyd wedi'u lleoli *tu allan* i Fro Morgannwg sydd hefyd wedi ymrwymo i Gynnig Gofal Plant y Fro. Ers i'r Cynnig Gofal Plant gael ei weithredu gyntaf yn y Fro yn 2018, mae 2,393 o blant wedi cyrchu'r rhaglen<sup>7</sup>.


Yn 2019, llwyddodd Bro Morgannwg yn eu cais i Lywodraeth Cymru am Gyllid Cyfalaf i ddatblygu tri adeilad gofal plant newydd i gefnogi plant ar y Cynnig Gofal Plant. Dyfarnwyd cyfanswm o £1.8m i ddatblygu gofal plant ar safle Ysgol Gynradd Gladstone yn y Barri, safle ysgol gynradd Llanfair yn y Bont-faen a safle ysgol Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn Llanilltud Fawr. Yn anffodus, oherwydd y pandemig bu oedi hir wrth sefydlu'r adeiladau. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2022, mae dwy o'r tair uned ar agor ac yn weithredol ac mae'r uned sy'n weddill i fod i agor yn haf 2022.

---

<sup>7</sup> Y rheswm dros y nifer is ar gyfer 2021-2022 yw nad yw nifer y plant sy'n dechrau yn nhymor yr haf wedi'u cynnwys gan fod ceisiadau'n dal i gael eu prosesu.


## Diagram 2 - Niferoedd o blant 3 a 4 oed (yn dechrau) cyrchu lle Cynnig Gofal Plant yn y Fro ers 2018

Ffynhonnell: GGiD y Fro 2022



Wrth gymharu nifer y plant sy'n defnyddio eu lle Meithrin Cyfnod Sylfaen (MCS) â'r nifer sy'n defnyddio'r cyllid Cynnig Plant, dim ond am y ddwy flynedd ddiwethaf y mae'r data ar gael. Mae'r Tabl isod yn dangos, ar gyfer y cyfnod 2020-2021, fod 47% o'r plant a gafodd fynediad i le MCS (hefyd) wedi cyrchu cyllid yCynnig Gofal Plant. Ar gyfer y flwyddyn 2021-22, manteisiodd 34% ar y Cynnig Gofal Plant.

**Diagram 3 - Nifer y plant sy'n cyrchu eu lle Meithrin Cyfnod Sylfaen (MCS) yn y Fro – o'i gymharu â nifer y plant sy'n dechrau eu cyllid Cynnig Gofal Plant**



Yn olaf, ariennir y GGiD hefyd drwy Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru i weinyddu Y Mynegai, sy'n gyfeiriadur gwirfoddol o blant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol yn y Fro. Cynhyrchir cylchlythyr chwarterol ac e-fwletinau ar hap i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae Y Mynegai hefyd yn helpu i greu darlun o anghenion plant ag anableddau yn y Fro ac yn nodi bylchau mewn gwyrdd, cymorth a gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae 887 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru ar y Mynegai.

#### 5.4 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dangosodd data DHG Gorffennaf 2021 ar draws holl ddarparwyr gofal plant Bro Morgannwg - a ymatebodd i'r arolwg hwnnw - bod cyfanswm o 285 o blant ag **anghenion dysgu ychwanegol** yn mynychu darpariaeth gofal plant.

- Dwedodd 74 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad a oedd ag anabledd gwybyddol a dysgu
- Dwedodd 75 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad a oedd ag anhawster ymddygiad, emosiynol a datblygiad cymdeithasol
- Dwedodd 85 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad a oedd ag anhawster cyfathrebu a rhyngweithio
- Dwedodd 66 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad a oedd ag anabledd synhwyrdd a/neu gorfforol.
  
- Roedd 38% o ddarparwyr a oedd yn cefnogi/darparu gofal plant i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddarparwyr gofal dydd llawn
- Roedd 14% o ddarparwyr a oedd yn cefnogi/darparu gofal plant i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddarparwyr gofal sesiynol
- Roedd 14% o ddarparwyr a oedd yn cefnogi/darparu gofal plant i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddarparwyr gofal plant allysgol
- Roedd 34% o'r ddarparwyr a oedd yn cefnogi/darparu gofal plant i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn warchodwyr plant cofrestredig.

#### 5.5 Darpariaeth Gymraeg

Nododd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (DHG) Gorffennaf 2021 hefyd fod chwech o ddarparwyr gofal plant (o'r 173 a ymatebodd) yn darparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, fel *prif* iaith. Roedd y chwe ddarparwr hyn wedi'u lleoli yn y wardiau a'r ardaloedd canlynol (dau ym mhob ardal):

- Ward Dyfan yn ardal gymunedol y Barri
- Ward y Bont-faen yn ardal Gorllewin y Fro
- Ward Llanilltud Fawr yn ardal Gorllewin y Fro
- Ward Awstin Sant yn ardal Dwyrain y Fro
- Ward Dinas Powys yn ardal Dwyrain y fro
- Ward Gibbonsdown yn ardal gymunedol y Barri.

Yn wir, yr unig ddwy iaith amlwg yr oedd gofal plant yn cael eu darparu drwyddynt oedd Cymraeg a/neu Saesneg, gyda thri lleoliad/darparwr hefyd ag aelodau o'r tîm a oedd yn siarad iaith(ieithoedd) ychwanegol - neu'n warchodwr plant a oedd yn siarad iaith(ieithoedd) ychwanegol. Yr ieithoedd ychwanegol hyn oedd: (a) Pwyleg a; (b) Almaeneg.

Fodd bynnag, ar thema berthnasol a phwysig gofal plant cyfrwng Cymraeg, amlygodd yr arolwg a gynhaliwyd gyda darparwyr gofal plant ym Mro Morgannwg yn hydref 2021 dros y 18 mis nesaf mai (dim ond) 4% o ymatebwyr o leoliadau/gofal plant mewn grwpiau oedd â chynlluniau ar waith i ehangu nifer y lleoedd Cymraeg yr oeddent yn eu cynnig. Dwedodd canran ychydig yn uwch o warchodwyr plant cofrestredig, sef 7%, fod ganddynt fwriad o'r fath.

- 5.6 Dim ond o fewn ardal y Barri y mae'r **Rhaglen gofal plant Dechrau'n Deg**. Fodd bynnag, maent yn cynnig cymorth allgymorth mewn rhannau eraill o Fro Morgannwg. Yn y bôn, darperir Dechrau'n Deg drwy dîm aml-asiantaeth yn Dechrau'n Deg sydd wedi ei leoli yn y Barri.

Mae Dechrau'n Deg yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys , GGiD, tîm y Blynyddoedd Cynnar, partneriaid CWLWM gan gynnwys Mudiad Meithrin ymhlith llawer o rai eraill.

Mae Dechrau'n Deg ar hyn o bryd yn ystyried datblygu grŵp Ti a Fi ynghlwm â'u lleoliad Cymraeg, Pili-Pala, fel rhan o bontio i ddarpariaeth Gymraeg, ond wrth i'r pandemig daro, cafodd pob grŵp ei gau, ac ni ddatblygwyd unrhyw wasanaethau newydd.

Tabl 6 - ACEHlau sy'n gymwys fel rhan o raglen Dechrau'n Deg Bro Morgannwg (2022)

Ffynhonnell: BM 2022

Ardal	Rhif AGEHI	Enw'r AGEHI	Cwmpasu	Ehangu Gwreiddiol 2012, 2014, 2015?	Ffigurau gofal plant Ebrill 2021 – Mawrth 22
Buttrills	W01001064	Buttrills 2	Rhannol	Ardal Ehangu Newydd 2015	22 o Blant yn gymwys
	W01001065	Buttrills 3	Rhannol	Gwreiddiol	
Catwg	W01001067	Catwg 1	<b>Llawn</b>	Gwreiddiol	78 o Blant yn gymwys
	W01001068	Catwg 2	Rhannol	Gwreiddiol	
	W01001069	Catwg 3	<b>Llawn</b>	Gwreiddiol	
	W01001070	Catwg 4	Rhannol	Gwreiddiol	
	W01001071	Catwg 5	Rhannol	Gwreiddiol	
	W01001072	Catwg 6	Rhannol	Gwreiddiol	
Castleland	W01001073	Castleland 1	Rhannol	Ardal Ehangu Newydd 2012	69 o Blant yn gymwys
	W01001910	Castleland 2G	Rhannol	Ardal Ehangu Newydd 2012	
	W01001911	Castleland 2H	Llawn	Ardal Ehangu Newydd 2012	
Y Llys	W01001079	Y Llys 1	Rhannol	Gwreiddiol	39 o blant yn gymwys
	W01001080	Y Llys 2	<b>Llawn</b>	Gwreiddiol	
	W01001081	Y Llys 3	<b>Llawn</b>	Gwreiddiol	
Gibbonsdown	W01001094	Gibbonsdown 1	<b>Llawn</b>	Gwreiddiol	59 o Blant yn gymwys
	W01001095	Gibbonsdown 2	<b>Llawn</b>	Gwreiddiol	
	W01001096	Gibbonsdown 3	<b>Llawn</b>	Gwreiddiol	
	W01001097	Gibbonsdown 4	Rhannol	Ardal Ehangu Newydd 2014	
Illtud	W01001099	Illtud 2	Rhannol	Ardal Ehangu Newydd 2015	11 o Blant yn gymwys

Dim ond o fewn ardal y Barri y mae Dechrau'n Deg; fodd bynnag, mae'r Fro yn cynnig cymorth allgymorth ar gyfer holl elfennau eraill Dechrau'n Deg.

Yn y bôn, darperir Dechrau'n Deg drwy dîm y Blynyddoedd Cynnar yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn y Barri ac fe'i hyrwyddir drwy'r tîm hwnnw, y GGiD a Mudiad Meithrin.

Mae Glannau'r Barri yn ardal allgymorth ar gyfer Dechrau'n Deg a bydd y Cyngor yn edrych ar gyfleoedd i gydweithio i wneud y defnydd gorau posibl o unrhyw ofod sydd ar gael ar safle'r ysgol newydd. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar unrhyw grantiau penodol i gefnogi twf cyfrwng Cymraeg ar Lannau'r Barri, gan gynnwys a oes cyfle i gefnogi darpariaeth cyn ysgol Gymraeg (addas i blant 2 oed) ar gyfer Dechrau'n Deg a chymorth allgymorth. Bydd cyfleoedd i fuddsoddi yn y maes hwn yn cael eu hystyried yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi mewn Ysgolion. Byddai angen i Reolwr Cyfrifon Llywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw ddatblygiadau o ran Dechrau'n Deg, a gofal plant yn fwy penodol, gan fod Dechrau'n Deg yn brosiect sy'n cael ei ariannu a'i adolygu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae Tabl 7 drosodd yn dangos y metrigau niferoedd ar gyfer lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg ers 2017. Gellir nodi bod y ffigurau ar gyfer 2020-2021 yn amlwg wedi'u heffeithio gan yr heriau a achoswyd gan y feirws COVID-19.

Tabl 7 - Lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg ers 2017 Ffynhonnell: Bro Morgannwg Chwefror 2022

Blwyddyn	Gofal Plant	1 Ebrill – 31 Awst	1 Medi – 31 Rhagfyr	1 Ionawr – 31 Mar	Blwyddyn Lawn
2017 - 2018	Cynnig Gofal Plant Llawn	111	96	50	257
	Cynnig Gofal Plant Llai	22	3	4	29
	<b>Cyfanswm</b>	133	99	54	286
	Cymwys	159	112	64	335
	%	<b>84%</b>	<b>88%</b>	<b>84%</b>	<b>85%</b>
2018 - 2019	Cynnig Gofal Plant Llawn	126	80	67	273
	Cynnig Gofal Plant Llai	3	0	3	6
	<b>Cyfanswm</b>	129	80	70	279
	Cymwys	143	88	83	314
	%	<b>90%</b>	<b>91%</b>	<b>84%</b>	<b>89%</b>
2019 - 2020	Cynnig Gofal Plant Llawn	117	79	54	250
	Cynnig Gofal Plant Llai	4	0	4	8
	<b>Cyfanswm</b>	121	79	58	258
	Cymwys	130	95	72	297
	%	<b>93%</b>	<b>83%</b>	<b>81%</b>	<b>87%</b>
2020 - 2021	Cynnig Gofal Plant Llawn	103	110	96	309
	Cynnig Gofal Plant Llai	0	0	0	0
	<b>Cyfanswm</b>	103	110	96	309
	Cymwys	170	147	118	435
	%	<b>61%</b>	<b>75%</b>	<b>81%</b>	<b>71%</b>
2021 - 2022	Cynnig Gofal Plant Llawn	89	88	aros am ddata	177
	Cynnig Gofal Plant Llai	0	0	aros am ddata	aros am ddata
	<b>Cyfanswm</b>	89	88	0	177
	Cymwys	104	103	aros am ddata	207
	%	<b>86%</b>	<b>85%</b>	aros am ddata	<b>86%</b>



## 5.7 Gofal Plant Di-dreth

O safbwynt ffynhonnell tybiedig arall o gymorth tuag at gyrchu gofal plant o safon, mewn ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr gofal plant yn hydref 2021, dwedodd 79% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr sesiynol eu bod wedi'u cofrestru ar gyfer hwyluso rhieni/gofalwyr i gyrchu Gofal Plant Di-dreth. Nododd y rhai nad oeddent wedi'u cofrestru dro ar ôl tro resymau a oedd yn cynnwys:

*"Does neb wedi rhoi gwybod i mi amdano".*

*"Rwy'n cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig".*

*"[Oherwydd] Nid ydym wedi cofrestru gydag AGC, ond byddwn yn gwneud cais ym mis Medi 2022, pan fyddwn wedi bod ar agor am 2 flynedd".*

O ran *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, dwedodd 68% o ddarparwyr/ lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar (hefyd) eu bod yn gwneud hynny'n weithredol.

Yn ogystal, yn hydref 2021, dwedodd 85% o warchodwyr plant cofrestredig eu bod wedi'u cofrestru ar gyfer hwyluso rhieni/gofalwyr i gyrchu Gofal Plant Di-dreth. Dwedodd y rhai nad oeddent wedi'u cofrestru dro ar ôl tro y rhesymau *a oedd yn cynnwys*:

*"Ar hyn o bryd, nid oes ar ddim un o'm rhieni ei angen".*

*"Oherwydd bod fy rhieni yn 'cael' Credyd Treth Gwaith".*

O ran *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, dwedodd 73% o warchodwyr plant cofrestredig (hefyd) eu bod yn gwneud hynny'n weithredol.

Yn olaf, yn hydref 2021, dwedodd 83% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod wedi'u cofrestru ar gyfer hwyluso rhieni/gofalwyr i gyrchu Gofal Plant Di-dreth. Dwedodd un cynrychiolydd i ddarparwr nad oedd wedi'i gofrestru *"Does gen i ddim syniad beth yw e"*.

O ran *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, dwedodd 83% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol (hefyd) eu bod yn gwneud hynny'n weithredol.

Gan newid i'r adborth o ymatebion DHG Gorffennaf 2021, dwedodd 83% (iach - unwaith eto) o'r darparwyr gofal dydd llawn a ymatebodd a darparwyr sesiynol (hyd eithaf eu gwybodaeth) fod rhieni'r plant y maent yn gofalu amdanynt (ym mis Gorffennaf 2021) yn derbyn gofal plant di-dreth neu'n defnyddio talebau gofal plant.

## 5.8 Addysg Blynyddoedd Cynnar Rhan-amser

Mae canllawiau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2016 yn cyfarwyddo y dylai awdurdodau lleol osod adroddiad ger bron ar nifer y lleoedd addysg blynyddoedd cynnar rhan-amser am ddim sy'n cael eu llenwi ac sydd ar gael.

Tabl 8 - Nifer y lleoedd addysg gynnar am ddim rhan-amser a gynigir ym Mro Morgannwg Ffynhonnell: Bro Morgannwg Chwefror 2022

Ysgol	Nifer Derbyn Cyhoeddedig	Cario Drosodd	Wedi Mynychu Hydref 2021	Yn Mynychu Gwanwyn 2022	I fod i fynychu Haf 2022
Ysgol Gynradd Albert	72	22	19	21	6
Ysgol Gynradd Ynys y Barri	56	13	16	9	12
Meithrinfa Bute Cottage	96	28	30	22	16
Ysgol Gynradd Tregatwg	100	30	44	18	6
Meithrinfa Cogan	100	22	18	13	15
Ysgol Gynradd Colcot	54	11	23	10	1
Ysgol Gynradd Dinas Powys	74	13	39	19	3
Ysgol Gynradd Fairfield	60	6	14	4	1
Ysgol Gynradd Gladstone	90	28	19	12	14
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô	48	16	15	10	6
Ysgol Gynradd High Street	72	11	14	5	7
Ysgol Gynradd Holltwn	64	23	18	6	6
Ysgol Gynradd Parc Jenner	58	8	11	14	5
Ysgol Gynradd Llandochoau	30	9	9	10	2
Ysgol Gynradd Llanfair	20	6	5	6	3
Ysgol Gynradd Llan-gan	24	7	9	5	3
Ysgol Gynradd Oakfield	52	10	20	7	2

Ysgol	Nifer Derbyn Cyhoeddedig	Cario Drosodd	Wedi Mynychu Hyd 2021	Yn Mynychu Gwanwyn 2022	I fod i fynychu Haf 2022
Ysgol Gynradd Palmerston	56	16	19	14	7
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-fro	28	6	10	6	5
Ysgol Gynradd y Rhws	90	26	30	14	9
Ysgol Gynradd Romilly	130	46	37	28	19
Ysgol Trwyn y De (Llancarfan)	48	Amh	7	4	3
Ysgol Gynradd Sain Tathan	52	11	13	6	10
Ysgol Gynradd Illtud Sant	76	15	11	13	14
Ysgol Gynradd Sili	64	25	29	7	4
Ysgol Gynradd Victoria	90	28	30	19	4
Ysgol Gynradd y Bont-faen	60	17	24	13	6
Ysgol y Ddraig	62	12	14	8	1
Ysgol Gwaun y Nant	82	10	12	14	7
Ysgol Gymraeg Dewi Sant	56	14	11	9	8
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	56	19	15	13	7
Ysgol Gymraeg Pen y Garth	76	20	18	16	5
Ysgol Iolo Morgannwg	66	11	14	6	3
Ysgol Sant Baruc	48	16	23	5	4
Ysgol Sant Curig	114	43	21	19	12
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,324</b>	<b>598</b>	<b>661</b>	<b>405</b>	<b>236</b>

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr	Nifer Derbyn Cyhoeddedig	Plant sy'n mynychu ar gyfer 21/22
Santes Helen	48	37
Sant Joseff	48	40
Yr Holl Saint	30	30
Llansanwyr	48	43
Pendeulwyn	30	30
Santt Andrew	30	30
Llansanffraid-ar-Elái	48	46
Dewi Sant	24	24
Y Wig a Marcroes	22	15
<b>Cyfanswm</b>	<b>328</b>	<b>295</b>

- 5.10 Mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 yn cyfarwyddo y dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant grynhai'r ystod oedran o blant sy'n amlwg yn gallu mynychu'r ystod o fathau o ofal plant – ac mae'r metrigau hyn wedi'u nodi yn Nhabl 9 isod.

Tabl 9 - Nifer y darparwyr gofal plant **sy'n ymateb** sydd wedi'u lleoli yn ardal Bro Morgannwg a oedd yn cael eu defnyddio gan grwpiau oedran penodol o blant ym mis Gorffennaf 2021

Ffynhonnell: DHG Bro Morgannwg Gorffennaf 2021

Math yn <b>Ymateb</b> darparwr gofal plant	Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i 0-12 mis ac 1 Oed	Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i 2 oed	Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i 3-4 oed	Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i 5-11 oed	Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i 12-14 oed
Darparwyr Gofal Dydd Llawn	40	40	40	0	0
Darparwyr Gofal Sesiynol	0	16	16	0	0
Gwarchodwyr plant cofrestredig	103	103	103	103	103
Gofal Plant Cofrestredig y Tu Allan i'r Ysgol	0	0	15	18	18

## 5.11 Defnydd

Ar gyfer yr arolwg a gynhaliwyd yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Bro Morgannwg ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar i nodi a oedd ganddynt restr aros. Dwedodd 36% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr sesiynol, fod ganddynt restr aros (gyda'r ardal/ardal leol fwyaf cyffredin lle ceid darparwr perthnasol wedi'i leoli ynddi oedd yn y Barri) a dwedodd 32% o warchodwyr plant cofrestredig fod ganddynt restr aros (gyda'r ardal/ardal leol fwyaf cyffredin lle ceid darparwr perthnasol wedi'i lleoli ynddi hefyd oedd yn y Barri).

(Byddwch yn ymwybodol bod y data hwn yn amrywio'n rheolaidd).

Yn haf 2021, fel ymateb i'r broses DHG, dwedodd 10.5% o'r darparwyr clybiau ar ôl ysgol a ymatebodd fod ganddynt restr aros.

Yn ogystal, fel rhan o arolwg hydref 2021, gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant perthnasol nodi a oedd maint eu rhestrau aros wedi newid mewn unrhyw ffordd o gymharu â gwanwyn 2021?

Tabl 10 - I ba raddau yr oedd rhestrau aros wedi newid yn ystod y cyfnod Mawrth 2021 – Hydref 2021

Ffynhonnell: ADGP Bro Morgannwg 2021-2022 – cyfweiliadau strwythuredig gyda darparwyr gofal plant

Dosbarthiad	Canran y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar sy'n datgan	Canran y gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n datgan
Ydy – mae wedi gostwng o ran maint	14%	10%
Ydy – mae wedi cynyddu o ran maint	57%	31%
Nac ydy – mae wedi aros fwy neu lai yr un maint	29%	59%

## 5.12 Yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Bro Morgannwg bob darparwr gofal plant i nodi a oedd ganddynt leoedd gwag.

- Dwedodd 74% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar fod ganddynt leoedd gwag – yn fwyaf aml yn ardal y Barri, gyda ward Buttrills yn cyfrif am dri darparwr o'r fath
- Dwedodd (canran gymharol is o) 46% o warchodwyr plant cofrestredig fod ganddynt leoedd gwag – yn fwyaf aml yn ward Illtud a'r un mor aml yn ward Llanilltud Fawr
- Dwedodd 66% o glybiau ar ôl ysgol fod ganddynt (nifer heb eu pennu'n fetrig) leoedd gwag – yn fwyaf aml yn ardal leol y Barri

- Dwedodd 83% o glybiau brechwast nad ydynt yn glybiau ysgol fod ganddynt (nifer heb eu pennu'n fetrig) leoedd gwag Ar gyfer y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar hynny oedd â lleoedd gwag, y nifer cyfartalog oedd 9.5 lle. Ar gyfer y gwarchodwyr plant cofrestredig hynny oedd â lleoedd gwag, y nifer cyfartalog oedd 1.5 lle.<sup>8</sup>

Yn y pen draw Mae Tabl 11 yn nodi'r adborth a roddwyd gan y tri math o ddarparwyr gofal plant yn cyd-fynd â'u defnydd:

Math o ddarparwr gofal plant	Ddwedodd: Mae ein lefel defnydd wedi cynyddu ar gyfer tymor yr hydref 2021	Ddwedodd: Mae ein lefel defnydd wedi gostwng ar gyfer tymor yr hydref 2021	Ddwedodd: Mae ein lefel defnydd yn ôl i'r arfer i lefelau cyn COVID-19	Ddwedodd: Anodd dosbarthu ein sefyllfa o ran defnydd	Heb ddweud
Darparwyr Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar	26%	39.5%	18.5%	10.5%	5.5%
Gwarchodwyr plant cofrestredig	15%	35%	33%	10%	7%
Ddarparwr Gofal Plant Allysgol:	16%	51%	33%	0	0

### 5.13 Ffioedd am ofal plant a delir

Roedd ymatebion DHG Cyngor Bro Morgannwg ym mis Gorffennaf 2021 gyda darparwyr gofal plant yn egluro'r cyfraddau diwrnod safonol.

Ar gyfer y 50 o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd – o ran llefydd *tal* ffi:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 0-1 oed oedd £51.40 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £47.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 2 oed oedd £44.50 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £47.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 3 a 4 oed oedd £44.41 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £56.00.

Ar gyfer y 102 o warchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd – am lefydd talu ffi:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 0-1 oed oedd £40.00 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £40.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 2 oed oedd £38.81 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin unwaith eto oedd £40.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 3 a 4 oed oedd £40.30 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £40.00

<sup>8</sup> Nid oedd Darparwyr Gofal Plant Allysgol yn tueddu i roi adborth ar niferoedd eu llefydd gwag.

- y ffi gyfartalog fesul awr ar gyfer plant 5-7 oed oedd £4.74 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £4.50

Ar gyfer yr 20 o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant allysgol a ymatebodd – ar gyfer lleoedd talu ffi:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 3 a 4 oed oedd £9.85 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £11.00.
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 5-7 oed oedd £9.72 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £11.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 8-11 oed oedd £9.72 hefyd a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin hefyd oedd £11.00

#### 5.14 Amseroedd Agor a Hygyrchedd

Canfu ymatebion DHG Cyngor Bro Morgannwg ym mis Gorffennaf 2021 gyda darparwyr gofal plant hefyd gadarnhad ar amseroedd agor.

Ar gyfer y darparwyr gofal dydd llawn a ymatebodd, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 7.30am.  
Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00pm.

I'r darparwyr gofal sesiynol a ymatebodd, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 9.15am.  
Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 15:30pm.

Ar gyfer y 102 o warchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd – yr amser cychwyn cyfartalog oedd 7:45am a'r amser dechrau mwyaf cyffredin oedd 7:30am. Eu hamser gorffen cyfartalog oedd 17:24pm a'r amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00pm. (Ni ddwedodd dim un gwarchodwr plant eu bod yn dod i ben y tu hwnt i 18:00pm).

Ar gyfer y 12 clwb ar ôl ysgol, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 3.30pm. Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00pm. (Gellir nodi bod un clwb ar ôl ysgol, sydd wedi'i leoli yn ward Llanbedr-y-fro, wedi dynodi mai eu horiau agor oedd 16:30pm – 19:00pm).  
Ar gyfer y 4 cynllun chwarae yn ystod y gwyliau a ymatebodd, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 7.45am. Yr amser gorffen mwyaf cyffredin, unwaith eto, oedd 18:00pm.

5.15 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i nodi a oeddent wedi gweld neu brofi unrhyw dueddiadau nodedig (newydd) o ran y galw am: (a) mathau o leoedd yr oeddent yn eu cynnig neu'r; (b) mathau o oriau yn eu lleoliad.  
Dwedodd 24% o'r tri math o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar eu bod wedi profi hynny, ac yn nhrefn amllder, y rhai a ailadroddwyd oedd:

- Mae rhieni'n gofyn am oriau "*hirach*" neu estynedig
- Cynnydd yn y galw am leoedd rhan-amser
- Rhieni yn gofyn am fwy o hyblygrwydd

Yn gyfatebol, prin oedd y dystiolaeth bod darparwyr gofal plant wedi ymateb i'r duedd hon, o ran eu modelau busnes a'u hamseroedd argaeledd. Mae hwn yn ffactor a amlygir yn Adran 13 y ddogfen hon.



## 6 Anghenion Rhieni/Gofalwyr – y galw am ofal plant

Mae'r naratif isod yn amlinellu canlyniadau'r dadansoddiad o arolwg rhieni Llywodraeth Cymru a gafodd gyfnod ymateb o 5 wythnos ym mis Hydref 2021 a dechrau mis Tachwedd 2021. Cynlluniwyd yr arolwg hwn gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gallu i sicrhau sylw i rai o'r ffactorau sy'n seiliedig ar alw y dylid mynd i'r afael â hwy yn ôl cyfarwyddyd Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 mewn unrhyw Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

### 6.1 500 o ymatebion Arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â 23 ward Bro Morgannwg fel a ganlyn.

Tabl 12 - Ardal breswyl rhieni/gofalwyr sy'n ymateb

Enw'r Ward	Nifer y rhieni/gofalwyr a ymatebodd	Canran o'r Cyfanswm
Baruc	41	8%
Buttrills	23	4.5%
Catwg	28	5.5%
Castleland	14	3%
Cornerswell	17	3.5%
Y Llys	11	2%
Y Bont-faen	27	5.5%
Dinas Powys	27	5.5%
Dyfan	20	4%
Gibbonsdown	9	2%
Illtud	45	9%
Llandochau	14	3%
Llandŵ/Ewenni	17	3.5%
Llanilltud Fawr	27	5.5%
Llanbedr-y-fro	5	1%
Plymouth	8	1.5%

Enw'r Ward	Nifer y rhieni/gofalwyr a ymatebodd	Canran o'r Cyfanswm
Y Rhws	22	4.5%
Sain Tathan	6	1%
Awstin Sant	16	3%
Saint-y-brid	12	2.5%
Stanwell	12	2.5%
Sili	7	1%
Gwenfô	22	4.5%
Nid oedd cod post wedi'i gynnwys	69	14%

- 6.2 O ran y math o aelwyd(ydd), yr ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan rieni/gofalwyr a ymatebodd oedd eu bod: yn rhannu'r cyfrifoldeb am fy mhlentyn/mhlant gyda rhywun yr wyf yn byw gydag ef (81% o'r ymatebwyr), yna fesul amllder gan riant/gofalwyr yn dweud mai fi oedd yn llwyr gyfrifol am fy mhlentyn/mhlant - roedd 14% mewn gwirionedd yn rhieni sengl.
- 6.3 Roedd yn amlwg mai 1.8 oedd nifer cyfartalog y plant a oedd yn cael eu magu gan yr holl ymatebwyr (0.1 uwchlaw cyfartaledd y Deyrnas Gyfunol sy'n 1.7) - gyda Ward Awstin Sant yn gyfrifol am y nifer uchaf o blant ym mhob aelwyd, ac yna ward Baruc â'r ail nifer uchaf o blant ym mhob aelwyd.
- 6.4 Roedd yn amlwg mai'r garfan oedran a oedd yn cael eu magu fynychaf o'r rhieni a ymatebodd oedd 5-8 oed (47% o rieni), ac yna plant 2 oed (28%).
- 6.5 Dwedodd 8% o'r gofalwyr a ymatebodd eu bod yn gofalu am/magu o leiaf un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu salwch hirdymor. Yn ogystal, dwedodd 10% o ymatebwyr o'r fath (rhai ohonynt yr un rhieni a ddywedodd fod ganddynt o leiaf un plentyn ag ADY) fod ganddynt blentyn a oedd angen (hyd yn oed mwy) o gymorth ychwanegol gyda'u dysgu.

6.6 Dwedodd yr holl rhieni/gofalwyr a ymatebodd i Lywodraeth Cymru beth oedd eu statws cyflogaeth ar hyn o bryd.

Tabl 13 - Cyflogaeth statws rhieni/gofalwyr a ymatebodd

Statws	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Chwilio am swydd - ond ddim yn gweithio eto	5.5%
Cyflogedig	83%
Hunan-gyflogedig	7.5%
Ddim mewn addysg na hyfforddiant	7%
Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd	2%
Methu â gweithio	5%

Noder: roedd y rhieni'n gallu darparu nifer o ymatebion.

Roedd yn amlwg bod gan 86% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd bartner a disgrifiwyd eu statws cyflogaeth gan yr ymatebydd fel a ganlyn:

Tabl 14 - Cyflogaeth statws partneriaid

Statws	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Chwilio am swydd - ond ddim yn gweithio eto	1%
Cyflogedig	68%
Hunan-gyflogedig	13%
Ddim mewn addysg na hyfforddiant	1.5%
Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd	1.5%
Methu â gweithio	1%
Ddim yn berthnasol (gan nad oes partner ganddynt)	14%

6.7 Mae Tabl 15 yn nodi nifer yr achosion o rieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi eu hincwm cartref gros yr wythnos (cyn didyniadau/treth).

Tabl 15 - Incwm gros aelwydydd yr wythnos (cyn didyniadau/treth)

Incwm wythnosol aelwydydd	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd	Y math o ofal plant ffurfiol a nodir amlaf a ddefnyddir yn ystod y tymor
hyd at £100	1%	Clwb Cyn Ysgol
£100 i £149	1%	Clwb Ar Ôl Ysgol (gydag amllder cyfartal) Clwb Cyn Ysgol
£150 i £249	2%	Clwb Cyn Ysgol
£250 i £349	3.5%	Clwb Cyn Ysgol
£350 i £500	7.5%	Meithrinfa Ddydd
£500 i £580	6%	Meithrinfa Ddydd
£581 i £750	14%	Meithrinfa Ddydd
£750 i £999	17%	Meithrinfa Ddydd
Mwy na £1,000	27.5%	Clwb Cyn Ysgol
Mae'n well gennyf beidio â dweud	20.5%	Clwb ar ôl Ysgol

6.8 Mae Tabl 16 yn nodi nifer yr achosion o rieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi cefndiroedd ethnig penodol.

Ethnigrwydd Datganedig	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Gwyn	95%
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig	3%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	1%
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	<0.5%
Grŵp ethnig arall	<0.5%
Heb ddweud	1%

Roedd nifer o rieni wrth nodi 'Gwyn' hefyd yn dynodi gwlad wreiddiol, a oedd yn cynnwys – yn fwyaf aml, Gwyddelig neu Bwylaidd. Roedd yn amlwg mai'r math mwyaf cyffredin o ymatebydd 'Cymysg' oedd: Cymysg Gwyn a Du Affricanaidd (saith rhiant/gofalwr a ymatebodd).

- 6.9 Dwedodd 28% o'r holl rieni/gofalwyr a ymatebodd (a fyddai wedi cael o leiaf un plentyn 3 a/neu 4 oed) eu bod yn defnyddio lle addysg gynnar wedi'i ariannu mewn ysgol neu feithrinfa neu mewn cylch chwarae sesiynol.

Dwedodd 17.5% o'r holl rieni/gofalwyr a ymatebodd (a oedd ag o leiaf un plentyn 3 a/neu 4 oed) eu bod yn defnyddio lle Cynnig Gofal Plant a dywedodd 4% o'r rhieni a ymatebodd eu bod yn bwriadu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn y blynyddoedd i ddod – gyda'r rhieni/gofalwyr hyn yn preswyllo amlaf yn ward Llandŵ/Ewenni.

- 6.10 Gwelwyd bod rhieni a oedd â phlentyn 2 a/neu 3 oed nad oeddent yn gymwys i gael mynediad i Dechrau'n Deg yn rhoi adborth cyson am y ffactor hwn, a oedd yn cynnwys:

*"Byddai'n dda pe na byddai y tu allan i'm dalgylch i".*

*"Dyw e ddim ar gael i mi yn fy stryd, er ei fod ar gael ychydig o strydoedd i ffwrdd. Yn fy marn i, mae hyn yn wahaniaethol iawn".*

*"Dwi ddim yn yr ardal cod post cywir... yn ariannol byddem yn gymwys ar ei gyfer serch hynny".*

- 6.11 Mae Tabl 17 isod yn dangos pa mor aml y dwedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod y tymor**.

Tabl 17 - Amllder y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant yn ystod y tymor

Math o ofal plant gofal plant wedi'i gofrestru neu heb ei gofrestru	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Gwarchodwr Plant	13%
Clwb Cyn Ysgol neu Glwb Brechwast	29%
Clwb ar ôl Ysgol	20%
Meithrinfa Ddydd Breifat	37.5%
Meithrinfa mewn Ysgol	9%
Cylch Chwarae Sesiynol	7.5%
Cylch Meithrin	3.5%
Creche Gollwng	0.5%
Nani	1%
Au Pair	0
Teulu / ffrindiau (â thâl)	3.5%
Teulu / ffrindiau (di-dâl)	52%
Rhai a ddwedodd <i>dim yn ystod y tymor</i>	10%

- 6.12 Yn gyfatebol, mae Tabl 18 isod yn nodi pa mor aml y dwedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant yn ystod amseroedd gwyliau.

Tabl 18 - Pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant yn ystod y gwyliau

Math o ofal plant gofal plant wedi'i gofrestru neu heb ei gofrestru	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd	% y gwahaniaeth gydag amser tymor ysgol
Gwarchodwr Plant	13%	Dim newid
Clwb Gwyliau neu Gynllun Chwarae	17.5%	Amh
Meithrinfa Ddydd Breifat	33%	-4.5%
Ysgol Breifat paratoi cyn ysgol	Amh	Amh
Cylch Chwarae Sesiynol	4%	+3.5%
Cylch Meithrin	0.5%	-3%
Creche Gollwng	0	Dim newid
Nanny/Au-Pair	1%	Dim newid
Cynllun Chwarae	5%	Amh
Teulu / ffrindiau (â thâl)	2%	-1.5%
Teulu / ffrindiau (di-dâl)	54%	+2%
Rhai a ddwedodd <i>dim yn ystod gwyliau'r ysgol</i>	8.5%	1.5%

- 6.13 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ymatebodd i nodi faint yr oeddent yn ei wario mewn wythnos gyfartalog ar ofal plant (â thâl, di-dâl). Mae Tabl 19 yn dangos mai'r swm a nodwyd amlaf (o ychydig) oedd £0.00 yr wythnos, a nodwyd gan 21% o'r holl rieni a ymatebodd.

Tabl 19 - Amllder gwariant wythnosol ar ofal plant

Swm a wariwyd ar gyfartaledd/wythnos[diwrnodau]	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
£0	21%
Hyd at £10	1.5%
£10-£49	12%
£50-£99	19%
£100-£199	20%
£200-£299	8.5%
£300 neu fwy	6.5%
Heb ddweud	11.5%

Y wardiau a oedd yn cyfrif am yr amllder uchaf o rieni yn dweud: £300.00 neu fwy/wythnos oedd ward Dinas Powys, ac yna o ran amllder ward Baruc.

Gellir nodi y gofynnwyd i bob rhiant/gofalwr nodi a oeddent yn derbyn unrhyw gymorth tuag at dalu cost eu gofal plant a...

- Dwedodd 9% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent, elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol
- Dwedodd 33% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent) Talebau Gofal Plant<sup>9</sup>/Gofal Plant Di-dreth
- Dwedodd 1% o rieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent, y) Grant Gofal Plant i Fyfyrrwyr
- Dim ond pedwar rhiant/gofalwr a ymatebodd a ddywedodd: (oeddent) cyfraniad Cyflogwr

<sup>9</sup> Yn wahanol i'r Cynnig Gofal Plant – h.y. NID yr un rhaglen yw'r rhain.



6.14 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ymatebodd i nodi nifer yr oriau o ofal plant yr oeddent yn eu defnyddio, ar gyfartaledd, mewn wythnos arferol.

O'r rhieni hynny a ymatebodd i'r cwestiwn:

Ar gyfer y tymor ysgol:

Cyfartaledd yr oriau a nodwyd gan rieni/gofalwyr preswyl Bro Morgannwg oedd 19 awr a 30 munud/wythnos.

Y swm a nodwyd amlaf o ran oriau oedd 30 awr/wythnos, ac yna o ran amllder oedd 10 awr/wythnos.

Ar gyfer cyfnod gwyliau:

Cyfartaledd yr oriau a nodwyd gan rieni/gofalwyr preswyl Bro Morgannwg oedd 21 awr a 45 munud/wythnos.

Y swm a nodwyd amlaf o ran oriau oedd 40 awr/wythnos, ac yna o ran amllder oedd 30 awr/wythnos.

6.15 Gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i nodi pa mor fodlon yr oeddent ar hyn o bryd gyda'u sefyllfa gofal plant bresennol.


Tabl 20 - Lefelau Boddhad

Pa mor fodlon oedd rhiant/gofalwr:	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Bodlon iawn	46%
Eithaf Bodlon	27%
Eithaf Anfodlon	4.5%
Anfodlon iawn	1.5%
(Ddwedodd) Amh	9%
Heb ddweud	12%

Rhieni/gofalwyr a ddwedodd: Roedd Eithaf Anfodlon neu'n Anfodlon iawn (o ran cyfran) yn preswyllo amlaf yn ward Awstin Sant a chydag amllder cydradd roedd ward Baruc.

6.16 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ymatebodd i ddweud a allent siarad, darllen a/neu ysgrifennu'r Gymraeg.

Diagram 4 - Mynychder hyfedredd yn y Gymraeg



Yn y pen draw, dwedodd 8% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Dwedodd 5% fod hyn yn rhywbeth yr hoffent ei wneud yn ddefnyddiol, ond roedd yn amlwg bod rhai ffactorau'n cael eu profi gan gyfran o'r ymatebwyr, gyda:

- 3.5% yn nodi bod pellter i leoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi bod yn rhwystr rhag manteisio arno
- 9% yn nodi bod diffyg lle(oedd) cyfrwng Cymraeg wedi gweithredu fel rhwystr i allu manteisio
- 2% yn datgan bod gallu Cymraeg y staff wedi gweithredu fel rhwystr rhag manteisio
- 2.5% yn datgan bod cost gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi bod yn rhwystr i fanteisio arno;
- Dwedodd yr un ganran nad oeddent wedi gallu dod o hyd i ddigon o oriau gan ddarparu'r gofal plant Cymraeg.

- 6.17 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ddwedodd nad oeddent – yn hydref 2021 – yn defnyddio unrhyw ofal plant i nodi pam, gan gynnwys yr achosion o rwystrau. Gellir darllen rhagor o fanylion - gan gynnwys adborth ansoddol - ar y ddeinameg a'r ffactor allweddol hwn yn Adran 15 o'r ADGP hwn.

Tabl 21 - Y rhesymau a nodwyd ynghylch pam nad oedd rhiant/gofalwr yn cyrchu/derbyn cymorth gyda gofal plant

Rhesymau/Rhwystrau	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Mae fy mhlentyn ar restr aros ar gyfer darparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael	0
Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol fel aelod o'r teulu neu ffrind	14%
Rwy'n dewis peidio â defnyddio unrhyw ofal plant	2%
Rwy'n rhiant sy'n aros gartref ac felly nid oes angen gofal plant arnom	4%
Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain	3.5%
Nid oes gofal plant o ansawdd digonol	3.5%
Nid oes darpariaeth Gymraeg addas	2%
Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg	0
Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion	7%
Mae cost gofal plant yn rhy ddrud	14.5%
Mae amseroedd gofal plant yn anaddas	5%
Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn	5%
Mae problem gyda thrafnidiaeth	1.5%
Nid oes gofal plant lle mae ei angen arnaf i fod	4%
Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn	3%
Dim ond ar sail ad hoc rydw i'n defnyddio gofal plant ac mae'n amhosibl cynllunio	4%
Arall	2%

Yr ymateb Arall oedd yr ymateb amlaf (geiriau i'r perwyl hwnnw): *"Nid yw fy ngofal plant wedi mynd yn ôl i'r arfer ers COVID-19"*.  
Roedd Adborth penodol ar y thema hon yn cynnwys:

*"Rwy'n weithiwr shifft hanfodol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ers COVID-19 nid oes un darparwr gofal plant a wnaiff ddarparu ar gyfer fy mhatrwm shifftiau".*

*"Cyn COVID roedd fy ardal leol yn arfer cynnig darpariaeth clwb gwyliau ar gyfer y gwyliau - Nid yw hyn yn wir bellach ac nid ydynt ond yn darparu ychydig ddyddiau yma ac acw nad ydynt yn ddigon ar gyfer fy anghenion gan fy mod yn gweithio'n llawn amser".*

*"Nid yw'r clwb brecwast yr oeddwn yn ei ddefnyddio wedi ailagor eto".*

**6.18 Ar thema debyg, gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i nodi a oedd materion yn ymwneud â gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio arnynt hwy eu hunain neu unrhyw bartner[iaid]:**

**Dwedodd 56% fod gofal plant wedi: achosi problemau yn y gwaith**

**Dwedodd 21.5% fod mater gofal plant wedi: atal parhad gwaith**

**20.5% wedi nodi bod mater gofal plant wedi: eu hatal rhag gweithio/cael swydd**

**18.5% wedi nodi bod mater gofal plant wedi: eu hatal rhag cyrchu hyfforddiant**

- 6.19 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ymatebodd i nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â neu (yn lle hynny) yn anghytuno â detholiad o ddatganiadau am ddarpariaeth gofal plant.

Tabl 22 - Meddyliau cyffredinol rhiwni ar agweddau ar ofal plant yn ardal leol Bro Morgannwg

Datganiad	Cytuno'n Gryf	Tueddu i Gytuno	Tueddu i Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn berthnasol i fi
Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod y tymor ysgol	37%	35%	9%	5.5%	13.5%
Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol	26%	28%	15%	10%	21%
Mae ansawdd gofal plant yn uchel	38%	35%	15%	2%	10%
Mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i	24%	27%	26%	21%	2%
Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda	21.5%	32%	21%	10%	15.5%
Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant i	7%	35%	10%	31%	17%
Hoffwn i'm plentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig	6%	28%	15%	20%	31%
Mae gofal plant yn rhy ddrud	<0.5%	22%	6%	61%	10%
Byddai'n well gennyf ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant	12%	24%	29%	12.5%	22.5%
Mae gennyf broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy	6%	8%	15%	28%	43%
Mae gofal plant yn rhwystr i mi gael gwaith neu hyfforddiant	22%	22%	15%	15%	26%
Rwy'n gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant	21.5%	40%	19%	9%	10.5%
Rwy'n gwybod lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant	11%	26%	32%	17%	14%


Nodwyd yr ymateb cytuno'n gryf: mae gofal plant yn rhy ddrud, amlaf gan rieni/gofalwyr a oedd yn byw yn ward Illtud.

Nodwyd yr ymateb - cytuno: mae gofal plant yn rhwystr i mi gael gwaith neu hyfforddiant, amlaf gan rieni/gofalwyr a oedd yn byw yng nghyffiniau ward Baruc/Ynys y Barri.

Nodwyd yr ymateb yn anghytuno'n gryf a thueddu i anghytuno o ran: mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i, amlaf unwaith eto gan rieni sy'n byw yn ward Baruc, yna'n nesaf o ran amllder gan ward Gwenfô (yng ngogledd-ddwyrain y Fro).

6.20 Ymateb allweddol yn y pen draw gan rieni/gofalwyr oedd i'r cwestiwn: Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Diagram 5 - Ystyriaeth i a ddefnyddir mwy neu lai ar ofal plant yn ystod y 2 flynedd nesaf



Roedd y rhieni/gofalwyr hynny a ddywedodd: Mwy, yn preswyllo amlaf yn ward Illtud, ac yna tair ward a oedd yn dangos amllder tebyg o ran yr ymateb 'Mwy' sef: 1. Baruc; 2. Llanilltud Fawr a 3. Y Rhws.

Gofynnwyd hefyd i'r rhieni hynny a ddwedodd 'Mwy' ddatgan y mathau o ofal plant y bydden nhw'n ceisio ei gyrchu o ddilyn y bwriad hwnnw, a'r tri math mwyaf cyffredin oedd:

- Cyn Ysgol/Clwb Brecwast – 64% o rieni perthnasol
- Clwb ar ôl Ysgol – 58% o rieni perthnasol
- Meithrinfa Ddydd – 47% o rieni perthnasol

6.21 Ym mis Ionawr 2022, cynhaliodd y Fro ymgynghoriad targed gyda theuluoedd sy'n byw yn maestref Gibbonsdown, gydag arolwg ar-lein yn cael ei ddosbarthu drwy dîm rhaglen Dechrau'n Deg. Gwnaed hyn oherwydd ymateb isel i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn yr ardal hon (9 ymateb). Roedd y Tîm GGiD wedi derbyn rhai ymholiadau gan rieni a oedd yn chwilio am ofal plant yn y maes hwn ac roeddent wedi cael trafferth dod o hyd i ofal plant addas. Felly, cynhaliwyd arolwg atodol yn benodol ar gyfer rhieni yn y maes hwn i roi hwb i'r ymatebion. Rhoddodd cyfanswm o dri deg o rieni a oedd yn preswyllo yn y ward eu hadborth a oedd yn cynnwys:

- Roedd tua 60% o rieni yn dibynnu ar ffrindiau a theulu i ddarparu gofal plant yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau a oedd yn uwch na'r ganran a welwyd ar gyfer y Fro gyfan
- Nodwyd mai rhestrau aros lleol a chost gofal plant oedd y rhwystr(au) mwyaf rheolaidd i rieni yn cyrchu gofal plant ffurfiol
- Gofynnwyd i'r holl rieni/gofalwyr hefyd a oeddent wedi dod o hyd i unrhyw anawsterau penodol yn *dod o hyd i ofal plant* gyfer unrhyw un o'u plant. Dywedodd pum rhiant fod hyn wedi digwydd ac roedd adborth penodol yn cynnwys:


*"Mae yna ddiffyg 'back-up' fforddiadwy pan yn sâl i warchodwyr plant".*

*"[Yn fy marn i] does dim digon o le yn (fy) meithrinfa ddydd leol... a dydw i ddim yn byw'n ddigon agos at y teulu am gymorth rheolaidd".*

*"I fy mhlant hân, rwy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i rywbeth addas ac mae'n lwcus bod ganddynt fam-gu"*

- Gofynnwyd i rieni/gofalwyr: Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Diagram 6 - Ystyriaeth i a fydd mwy neu lai o ofal plant ar gael yn ystod y 2 flynedd nesaf



Gofynnwyd hefyd i'r rhieni hynny a ddywedodd 'mwy' nodi'r mathau o ofal plant y byddent yn ceisio eu cyrchu drwy'r bwriad hwnnw, a'r tri mwyaf cyffredin oedd:

- Cyn Ysgol/Clwb Brecwast – 67% o rieni perthnasol
- Meithrinfa Ysgol – 67% o rieni perthnasol
- Clwb ar ôl Ysgol; Cylch Chwarae; Teulu/Ffrindiau (di-dâl) – 44% o rieni perthnasol



## A Canlyniadau Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Mae Canllawiau Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2016 yn cyfarwyddo y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a sefydliadau partner i sefydlu eu safbwynt ar flaenoriaethau sy'n cyd-fynd â sicrhau bod digon o ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. Dylai'r rhanddeiliaid hyn gynnwys sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gynorthwyo'r awdurdod lleol, h.y.: Cyngor Bro Morgannwg.

Felly mae Adran A Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Bro Morgannwg 2022 yn amlinellu'r adborth a gafwyd drwy gyfres o e-gyflwyniadau rhithwir gyda rhanddeiliaid allweddol, partneriaid a gweithwyr proffesiynol yn ystod diwedd 2021 a dechrau 2022 gan gynnwys cynrychiolwyr o:

- CWLWM, a roddodd adborth ar ran: Mudiad Meithrin; Blynnyddoedd Cynnar Cymru; Clybiau Plant Cymru Kid's Clubs; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru
- Byrddau Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg
- Cynrychiolwyr cyflogadwyedd Cyngor Bro Morgannwg
- Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant Cyngor Bro Morgannwg
- Gwasanaethau Cymorth Ieuencid Cyngor Bro Morgannwg
- GWASANAETH LLYFRGELLOEDD A GWYBODAETH BRO MORGANNWG
- Canolfan Byd Gwaith Bro Morgannwg
- Cyflogwyr o Fro Morgannwg

## A.1 **Cryfderau canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Bro Morgannwg**

- A.1.1 Disgrifiodd dau a gyfwelwyd rôl a chylchoedd gwaith y Fforwm Blynyddoedd Cynnar<sup>10</sup> ac roeddent yn credu bod hwn yn grŵp arbennig o "gryf" yn ardal y Fro. Credid bod y fforwm wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar Bro Morgannwg wedi bod yn barod i dderbyn y broses ADY newydd yng Nghymru a chyflwyno Fforwm y Blynyddoedd Cynnar (prosesau ADY BC y Fro) a bod *"gwahanol asiantaethau wedi gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion pob plentyn"*.
- A.1.2 Yn wir, credai'r rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd fod gweithio mewn partneriaeth a'i ddarpariaeth systematig yn gryfder amlwg yn y Fro o ran y blynyddoedd cynnar gofal plant...
- A.1.3 Roedd cynrychiolydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg yn credu bod mecanweithiau a systemau cadarn ar waith o ran protocolau diogelu ac amddiffyn plant y Fro a bod y berthynas waith â thîm blynyddoedd cynnar yr awdurdodau lleol wedi'i hen sefydlu. Pan fu cyfathrebu a chydweithio ar y cyd, amlinellwyd bod hyn yn tueddu i ganolbwyntio, i raddau mwy, ar ofal plant y tu allan i'r ysgol.

## A.2 **Meysydd i'w gwella canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Bro Morgannwg**

- A.2.1 Cynigiodd tri o'r rhai a gyfwelwyd fod gwelliannau/addasiadau y gellid eu hystyried o ran sicrhau mynediad i ddarpariaeth gofal plant o safon i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys:
- Ar gyfer pob lleoliad a gwasanaeth blynyddoedd cynnar nas cynhelir *"o fewn Dechrau'n Deg a'r sector nad yw'n rhan o Dechrau'n Deg"* sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol, i fynychu pedwar modiwl o hyfforddiant ar-lein sy'n canolbwyntio ar drawsnewid a chynhwysiant ADY i bawb
  - Gwasanaethau cynghori i symleiddio a gweithio'n agosach i ddiwallu anghenion pob plentyn ag ADY ar draws y Fro
  - Gallai hygyrchedd cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau i blant ag ADY fod ar gael yn ehangach ar draws y sir
  - Er mwyn i ymwybyddiaeth gael ei chadw y gallai gofyniad am fwy o gymorth un-i-un fod yn flaenoriaeth cyn bo hir...

---

<sup>10</sup> Mae Fforwm y Blynyddoedd Cynnar yn gyfarfod amlasiantaethol rheolaidd lle mae gweithwyr proffesiynol o fyd Iechyd, Addysg, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector o bob rhan o Fro Morgannwg yn cydweithio i gynllunio, cefnogi ac adolygu plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anabledau, o'u genedigaeth hyd at bum mlwydd oed.

- A.2.2 Tynnodd tri chyfwelai sylw hefyd at thema cyflogadwyedd a gofal plant fel dylanwad ar benderfyniadau. Roedd un cyfwelai yn credu, yn ôl eu profiad hwy *"bod lleoliadau gofal plant yn ei chael hi'n anodd cyflogi gweithwyr gofal plant i weithio o fewn eu cymarebau... mae hyn wedi golygu nad yw plant wedi gallu cyrchu darpariaeth gofal plant [a] bod hyn wedi cael hyd yn oed mwy o effaith ar blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg a/neu gymhleth"*. Yn ogystal, ar thema cyflogadwyedd, awgrymodd un cyfwelai fod angen i'r awdurdod lleol a chynllunwyr/partneriaid gofal plant fod yn ymwybodol o achosion cynyddol posibl o *"drigolion y Fro yn rhoi cynnig ar fod yn hunangyflogedig ac felly angen rhywfaint o hyblygrwydd"* a gallai hyn olygu mwy o ofyniad ar i'r sector gwarchod plant fod ar flaen y gad o ran cynnig gofal plant ar adegau sy'n cyd-fynd â'r angen am hyblygrwydd o'r fath.
- A.2.3 Tynnodd dau o'r rhai a gyfwelwyd sylw at eu canfyddiad nad oedd teuluoedd â phlant hŷn o reidrwydd yn gallu cael yr un lefel o gymorth – gan gynnwys cymorth ariannol tuag at ofal plant – na theuluoedd â phlant 0-4 oed. Credai un cyfwelai tebyg fod plant Blwyddyn 4 – Blwyddyn 8 hefyd mewn perygl o gael eu *"hanghofio"* wrth ystyried eu hanghenion cymorth hwy a'u teuluoedd, gan gynnwys o ran gofal plant. Yn benodol, dwedodd un cyfwelai *"yn fy mhrofiad i mae bwlch i'r grŵp oedran Blwyddyn 7 – Blwyddyn 8 o ran gofal plant, efallai'n fwy felly yn ystod gwyliau'r ysgol"*.
- A.2.4 Tynnodd pedwar cyfwelai sylw at y ffactor wledig mewn rhai ardaloedd o'r Fro. Roedd cred a glywid yn aml y gallai rhai o rannau gwledig (niferus) y Fro elwa o gael mwy o hygyrchedd i (yr hyn a ddisgrifiwyd ddwywaith fel 'hanfodol') ofal plant *"cofleidiol"*, gydag ardaloedd a enwyd yn cynnwys *"Y Rhws"*, *"Y Wig"* a *"Phendeulwyn"*. Amlinellodd y rhai perthnasol a holwyd hefyd y dylid ystyried ysgolion bach gwledig yn flaenoriaeth pan oedd partneriaid a'r awdurdod lleol yn parhau i lunio strategaethau ar gyfer canlyniadau COVID-19, oherwydd yr effeithiau a gafodd ar weithlu'r sector hwnnw. Crynhowyd barn ysgolion eraill gan un cyfwelai pan ddwedodd bod *"ein darparwr preifat wedi cael trafferth ymdopi gyda COVID-19... oherwydd salwch staff a phroblemau gyda cholli staff oherwydd cyflog gwael yn y sector"*.
- A.2.5 Credai un cyfwelai fod cyllid y blynyddoedd cynnar ar gyfer lleoliadau gofal plant a chymorth ychwanegol i ddarparu ymyriadau cynnar mewn lleoliadau *"yn aml yn fyrdymor ac yn anghyson"*. Roedd y cyfwelai o'r farn nad oedd cysondeb o ran mynediad at arian *"nad sydd yn symlach nac yn cynnig cyfle cyfartal i bob plentyn... gall meini prawf fod yn gymhleth gan arwain at ddarparu cyllid ac yna ei ddileu gan nad yw'r plentyn/teulu [wedi hynny] yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ariannu"*.

### A.3 Camau gweithredu/blaenoriaethau strategol canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Bro Morgannwg

- A.3.1 Helpu i gynnal gweithlu bywiog oedd y flaenoriaeth a nodwyd amlaf gan gyfweleion – yn enwedig o ran gofal plant y tu allan i'r ysgol a'r modd y'i cyflwynir mewn ardaloedd gwledig. Roedd dau o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn y dylai'r awdurdod lleol flaenoriaethu ei amser ar weithio gyda'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ar brentisiaethau a denu mwy o bobl ifanc i mewn i'r sector – er y cydnabuwyd y byddai'r ffactor cyflog bob amser yn broblem o ran gwireddu'r uchelgais hwn.
- A.3.2 Cynigiodd dau gyfwelai mai thema (yn eu barn hwy) y gellid ei chryfhau yn y Fro oedd i'r sector gofal plant PGA (preifat, gwirfoddol, annibynnol) weithio "*yn agosach*" gydag ysgolion i gryfhau'r prosesau pontio o leoliad gofal plant i feithrinfa a/neu ysgol a gynhelir ar gyfer pob plentyn.
- A.3.3 Credai un cyfwelai fod angen i'r Fforwm y Blynyddoedd Cynnar barhau i fod â rôl uchel ei broffil a chyson a pharhau i weithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar er mwyn diwallu anghenion pob plentyn yn y Fro - ac osgoi dyblygu gwaith i symleiddio gwasanaethau'n fwy effeithiol i blant ag anghenion ychwanegol.
- A.3.4 Credai un cyfwelai y gellid rhoi rhagor o le i strategaethau i gynnwys tadau mewn gofal plant a darpariaethau sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar a rhagor o flaenoriaeth i gymorth cysylltiedig, yn enwedig o ran alinio prosiectau dechrau gorau i fywyd a rôl gofal plant y blynyddoedd cynnar o ran gwella cyfleoedd (symudedd cymdeithasol) a llesiant cynnar.
- A.3.5 O ran adborth gan gyflogwyr – fel cefndir, yn genedlaethol ledled Cymru bu cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n gweithio gartref a *ddim yn gweithio* mewn gofod neu amgylchedd swyddfa, y gallai rhai fod ag angen darparu gofal plant ffurfiol ar ei gyfer. Mae'r cynnydd hwn yn nifer yr achosion o weithio (menter hyblyg) o gartref wedi golygu bod rhai rhieni/gofalwyr (hefyd) wedi bod yn darparu gofal plant yn eu cartref, yn enwedig ar gyfer plant cyn oed ysgol, yn hytrach na'u bod yn defnyddio darparwyr gofal plant ffurfiol, megis meithrinfa gofal dydd lawn neu warchodwr plant. Ym mis Tachwedd 2021, canolbwyntiodd Cyngor Bro Morgannwg ar gael adborth o'i sector cyflogaeth amrywiol a rhoddodd gyhoeddusrwydd eang i arolwg ar-lein a'i hyrwyddo. Amlinellodd y cyflogwyr a ymatebodd, gan gynnwys Cyngor Bro Morgannwg, nifer o ffactorau a phwyntiau gan gynnwys:
- Eu bod o'r farn bod darparu gofal plant ar draws y Fro yn 'Dda' ac yn ôl eu canfyddiad nid oedd diffyg amlwg
  - Roeddent yn gweithredu arferion gwaith yn gyson y tu allan i 8am-6pm – yn fwyaf aml: oriau rhan-amser; gweithio shifftiau ac ; oriau penwythnos
  - Newid a welwyd ers COVID-19 oedd nifer yr achosion o fwy o geisiadau am weithio gartref – dywedodd un ymatebydd: "*Bu'n rhaid i ni fod yn hyblyg o ran staff yn cymryd amser i ffwrdd oherwydd cau dosbarthiadau ysgol a materion hunanynysu*"
  - Roedd yr holl gyflogwyr a ymatebodd yn gyson yn rhoi gwybod i'w gweithwyr am raglenni fel y Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg.

## B Canlyniadau Ymgynghori a Phobl Ifanc

Ar ddechrau 2022, cynhaliodd Cyngor Bro Morgannwg ymgynghoriad meintiol ac ansoddol â phlant a phobl ifanc sy'n preswyllo ledled y sir ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac ar gyfer prosiect cysylltiedig: cynhyrchu Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, yn yr un modd â'r ADGP, yy cyfarwyddir pob awdurdod lleol yng Nghymru i'w cynhyrchu. Roedd yr ymgynghoriad meintiol yn cynnwys cwestiynau penodol yn cyd-fynd â thema gofal plant y tu allan i'r ysgol ac fe'i galwyd yn Arolwg Chwarae Mawr ar gyfer disgyblion Ysgolion Cynradd.

Ymatebodd 410 o ddisgyblion o blith carfanau cynradd ac uwchradd i arolwg ar-lein a rhoddodd adborth gwerthfawr ar thema gofal plant y tu allan i'r ysgol.

Ceir crynodeb o'u hadborth isod:

Ymatebodd disgyblion o'r ysgolion canlynol:

Tabl 23 - Ysgolion amlwg a fynychwyd gan y disgyblion a ymatebodd

Ysgol	Nifer ei disgyblion a ymatebodd
Ysgol Gynradd Albert	3
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau	1
Ysgol Gynradd Ynys y Barri	1
Ysgol Esgob Llandaf	1
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	8
Ysgol Gynradd Tregatwg	4
Ysgol Uwchradd Caerdydd	1
Ysgol Gynradd Cogan	2
Ysgol Gyfun y Bont-faen	4
Ysgol Gymraeg Dewi Sant	2
Ysgol Gynradd Dinas Powys	4
Ysgol Gynradd Evenlode	1

Ysgol	Nifer ei disgyblion a ymatebodd
Ysgol Gynradd Fairfield	24
Addysg Ddewisol yn y Cartref	1
Ysgol Gynradd Parc Jenner	2
Ysgol Gynradd Llandochau	5
Ysgol Gynradd Llanganna	1
Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr	248
Ysgol Gynradd Oak Field	1
Ysgol Gynradd Palmerston	1
Ysgol Uwchradd Pencoedtre	1
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn	1
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-fro	1
Ysgol Gynradd y Rhws	18
Ysgol Gynradd Romilly	4
Ysgol Sant Baruc	1
Ysgol Sant Curig	3
Ysgol Gynradd Trwyn y De	5
Ysgol Gynradd Sain Tathan	1
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid	3
Ysgol Gyfun Sant Cyres	3
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	1
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen	2
Ysgol Gynradd Illtud Sant	1
Ysgol Gynradd Gatholig Joseff Sant	6
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn	1
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen	1
Ysgol Stanwell	5
Ysgol Gynradd Sili	8
Ysgol Gynradd Fictoria	1

Ysgol	Nifer ei disgyblion a ymatebodd
Ysgol Cadeirlan Wells	1
Ysgol Uwchradd Whitmore	1
Ysgol Gynradd y Bont-faen	1
Ysgol Gynradd a Meithrin y Ddraig	1
Ysgol Gymraeg Dewi Sant	2
Ysgol Pen-y-garth	3
Ysgol Sant Baruc	1
Ysgol y Deri	7

### B.1 Gweithgareddau y mae plant a phobl ifanc yn hoffi ymgymryd â hwy pan nad ydynt yn yr ysgol

Rhoddodd 408 o bobl ifanc, rhwng 5 ac 16 oed, adborth ar y thema hon. 'chwarae gemau' (roedd hyn yn cynnwys gemau fideo, Xbox a gemau penodol fel Minecraft a Fortnite ac ati) oedd y gweithgaredd a nododd y plant a'r bobl ifanc amlaf (17%) fel y gweithgaredd y maent yn hoffi ei wneud pan nad ydynt yn yr ysgol. Dengys Tabl 24 y gweithgareddau a nodwyd amlaf gan blant a phobl ifanc:

Tabl 24 - Y gweithgareddau mwyaf cyffredin y mae plant a phobl ifanc sy'n byw yn y Fro yn hoffi eu gwneud pan nad ydynt yn yr ysgol

Math y gweithgaredd	Canran a ddwedodd
Gemau	17%
Chwarae gyda/cymdeithasu gyda fy ffrindiau	15%
Chwarae pêl-droed	10%
Chwaraeon	5%
mynd i'r parc	5%

Dau ymateb arall a *ailadroddwyd* oedd:

- Chwarae/bod yn yr awyr agored
- Nofio

## B.2 Defnydd o ofal plant ffurfiol y tu allan i'r ysgol

Mae Tabl 25 isod yn amlinellu pa mor aml y dwedodd y garfan hon o blant a phobl ifanc eu bod yn defnyddio math penodol o ofal plant y tu allan i'r ysgol.

Tabl 25 - Amllder y defnydd o fathau gofal plant y tu allan i'r ysgol

Math o ofal plant y tu allan i'r ysgol	Canran yn defnyddio
Clwb ar ôl Ysgol	15%
Clwb Brecwast	7%
Clwb Gwyliau	2%
Gwarchodwr Plant	2%
Dim un o'r uchod	77% (317)

## B.3 Mathau o weithgareddau yr hoffai pobl ifanc eu mynychu - *nad sydd ar gael ar hyn o bryd*

Rhoddodd 408 o blant/pobl ifanc adborth ar y thema hon. Dwedodd 26 o blant a phobl ifanc yr hoffent gael mwy o glybiau pêl-droed (lleol). Dwedodd 31% (146) nad oeddent am gael unrhyw beth/ unrhyw fath o glwb. Nododd 60% (245) o leiaf un math o weithgaredd a dangosir y gweithgareddau a nodir amlaf yn Nhabl 26 isod:

Tabl 26 - Gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yr hoffai plant a phobl ifanc a ymatebodd allu eu defnyddio

Math o weithgaredd y tu allan i'r ysgol	Canran sy'n dymuno cyrchu
Pêl-droed	6%
Tennis	5%
Clwb Ieuenctid	4%
Celf	3%
Ddim yn gwybod	4%



Ymatebion eraill a *ailadroddwyd* oedd:

- Saethyddiaeth (7 ymatebydd)
- Pêl-fasged (6 ymatebydd)
- Gweithgareddau awyr agored (6 ymatebydd)
- Bocsio (6 ymatebydd)

Gan ganolbwyntio ar wyliau'r haf, y gweithgaredd ddwedodd plant a phobl ifanc y byddent yn hoffi ei fynychu amlaf, nad oedd ar gael ar hyn o bryd, oedd nofio 6%. Dilynwyd hyn o ran amllder gan bêl-droed (4%).

## **C Canlyniadau Ymgynghori ag Ysgolion**

Mae Canllaw Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2016 yn cyfarwyddo y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â'u rhanddeiliaid lleol ac y dylai hyn gynnwys ysgolion lleol.

Yn ardal Bro Morgannwg, mae yna:

- 2 ysgol feithrin
- 38 o ysgolion cynradd Saesneg
- 6 o ysgolion cynradd Cymraeg
- 7 o ysgolion uwchradd Saesneg
- 1 ysgol uwchradd Gymraeg (3-19)

Ym mis Ionawr 2021 gwahoddwyd pob un o'r ysgolion a leolir yn y Fro i gwblhau arolwg ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar thema gofal plant a barn ar themâu penodol yn gysylltiedig â'r pwnc. Cyflwynodd cyfanswm o 33 o ysgolion (58%) ymateb i'r arolwg ar-lein a cheir crynodeb o'u hadborth cyfunol isod.

Tabl 27 - yr ysgolion a ymatebodd oedd:

Ysgol	Ward
Ysgol Gynradd Albert	Awstin Sant
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau	Illtud
Ysgol Gynradd Ynys y Barri	Castleland
Meithrinfa Bute Cottage	Awstin Sant
Ysgol Gynradd Tregatwg	Catwg
Ysgol Gynradd Cogan	Cornerswell
Ysgol Gynradd Evenlode	Plymouth
Ysgol Gynradd Fairfield	Penarth
Ysgol Gynradd Parc Jenner	Y Llys
Ysgol Gynradd Llanfair	Y Bont-faen
Ysgol Gynradd Llanganna	Llandŵ/Ewenni
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari	Y Bont-faen
Ysgol Llanilltud Fawr	Llanilltud Fawr
Ysgol Gynradd Oak Field	Gibbonsdown
Ysgol Gynradd Palmerston	Catwg
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn	Llanbedr-y-fro
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-Fro	Llanbedr-y-fro
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras	Dinas Powys
Ysgol Saint-y-brid	Saint-y-brid
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol Dewi Sant	Llandŵ/Ewenni
Ysgol Gynradd Gatholig Joseff Sant	Dinas Powys
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Gwenfô
Sant Richard Gwyn	Catwg
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen	Dyfan

Ysgol	Ward
Ysgol Stanwell	Stanwell
Ysgol Gynradd Fictoria	Stanwell
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes	Saint-y-brid
Ysgol Gynradd y Bont-faen	Y Bont-faen
Ysgol Gwaun y Nant	Gibbonsdown
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg - Cynradd	Illtud
Ysgol Iolo Morganwg	Y Bont-faen
Ysgol Gynradd y Ddraig	Llanilltud Fawr
Ysgol y Deri	Cornerswell
Ysgol Gynradd Albert	Awstin Sant

C.1 Gwahoddwyd (cynrychiolwyr) pob ysgol i ddatgan a oedd ganddynt ofal plant ar eu safle. Dwedodd 94% bod ganddynt ac mae Tabl 28 yn cyflwyno pa mor aml y nodwyd mathau penodol o ofal plant.

Tabl 28 - Pa mor aml y lleolwyd mathau penodol o ofal plant ffurfiol mewn ysgolion

Math gofal plant	Canran yr ysgolion sydd â'r gofal plant hwn ar y safle
Clwb ar ôl Ysgol (cynnal gan yr ysgol)	27%
Ar ôl Ysgol (preifat)	42%
Gofal Cofleidiol Meithrinfa	15%
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin	3%
Gofal Plant Gwyliau	6%
Clwb Brecwast Am Ddim	73% <sup>11</sup>
Clwb Brecwast â Ffioedd Taladwy	27%
Lleoedd Gofal Plant Dechrau'n Deg	0
Arall	21%

<sup>11</sup> Dylid nodi bod 40 o'r 46 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg yn cynnig y brecwast am ddim (87%). Mae'r ysgolion sy'n weddill yn gweithredu clwb brecwast sy'n talu ffioedd preifat. Mae'r ymatebion hyn i arolwg ADGP 2022 yn cynnwys ysgolion uwchradd – nad ydynt yn cynnig brecwast.

Mae Tabl 28 yn amlinellu mai clwb brecwast am ddim (di-dâl) yw'r math mwyaf cyffredin o ofal plant ffurfiol sydd wedi'i leoli mewn ysgol yn ardal y Fro. Dilynir hwn o ran amllder gan glwb ar ôl ysgol sy'n cael ei redeg/contractio'n breifat.

- C.2 Gwahoddwyd pob cynrychiolydd ysgolion (perthnasol) i ddatgan a oeddent yn credu ei bod yn fuddiol (i'r ysgol) gael gofal plant ar y safle: dwedodd 84% o ysgolion ei fod o fudd, gyda dim ond tri yn dweud *nad oedd* yn fuddiol yn eu tyb hwy. Roedd adborth penodol arall ar bwnc gofal plant ar y safle yn cynnwys:

*"Mae'n darparu dilyniant gofal i'r plant ac i'r teuluoedd".*

*"Mae'n gwneud bywyd yn haws i rieni. Mae'r plant wedi arfer ag amgylchedd yr ysgol o oedran cynnar sy'n helpu gyda: datblygu'r Gymraeg; trosglwyddo disgyblion yn effeithiol a rhannu gwybodaeth rhwng lleoliad gofal plant a'r ysgol".*

*"Mae'n cefnogi rhieni sy'n gweithio ond mae hefyd yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau cyfoethogi i bobl ifanc".*

*"Mae plant yn elwa o aros ar y safle ar gyfer gofal plant gan ei fod yn golygu llai o darfu iddynt... Mae'n haws i rieni o ran rheoli gofal plant gan nad oes angen trosglwyddo o un lleoliad i'r llall. Gall y gofal plant sydd ar gael ddylanwadu ar gais ysgol gan rieni".*

- C.3 Dwedodd hanner y cynrychiolwyr ysgol bod COVID-19 wedi effeithio ar allu eu gofal plant i weithredu, yn enwedig yn ystod yr amser pan oedd 'swigod' yn rhan o'r asesiad risg COVID-19. Roedd hyn yn digwydd amlaf oherwydd pryderon am: gymysgu grwpiau a staff. Roedd adborth penodol arall yn cynnwys:

*"Rydym wedi cael darpariaethau yn gweithredu ond gyda niferoedd ychydig yn llai oherwydd pryderon yn ymwneud â chyswllt".*

*"Rydym wedi rhedeg clwb ar ôl ysgol preifat o'r blaen. Nid yw hyn wedi gallu ailagor oherwydd problemau staffio yn eu sefydliad... oherwydd COVID-19".*

*"Mae'n amlwg bod blaenoriaethau gwahanol i'n teuluoedd a hefyd cyfyngiadau ariannol".*

*"Cyn COVID roedd 'na 'ddefnydd' da ar y clwb ar ôl ysgol. Ers COVID, mae llai o rieni'n defnyddio'r cyfleuster. Mae hyn weithiau'n effeithio ar fantoli'r costau rhedeg, a cholli incwm i'r ysgol gan fod angen lefelau staffio digonol ar ein clwb o hyd".*

C.4 Mae Tabl 29 yn nodi pa mor aml y bu darparwyr gofal plant penodol yn gweithio gydag ysgol i weithredu gollwng a chasglu mewn ysgolion.

Tabl 29 - Pa mor aml y gweithredodd mathau penodol o ddarparwyr gofal plant ffurfiol ollwng a/neu gasglu o'r ysgol

Math gofal plant	Canran yr ysgolion a ymatebodd a oedd yn dynodi eu bod yn gweithio gyda darparwr o'r fath i weithredu gollwng a chasglu o'r ysgol
Gwarchodwr(wyr) Plant	70%
Meithrinfa(eydd) Ddydd	55%
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin	18%
Cylchoedd Meithrin	3%
Arall <sup>12</sup>	6%

C.5 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgolion i nodi - yn eu barn/profiad nhw - a oedd angen mwy o fathau penodol o leoedd gofal plant yn eu hardal leol/agos. Mae Tabl 30 yn cyflwyno eu hymatebion cyfunol.

Tabl 30 - Amllder cred bersonol cynrychiolwyr bod 'angen' am fwy o fathau o ofal plant yn ardal leol eu hysgol

Math gofal plant	Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddwedodd: Oes	Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddwedodd: Nac oes	Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddwedodd: Ddim yn gwybod
Clwb ar ôl Ysgol	31%	46%	23%
Gofal Cofleidiol Meithrinfa	36%	40%	24%
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin	25%	33%	42%
Gofal Plant yn ystod y Gwyliau (Dim Cynllun Chwarae)	57%	25%	18%
Clwb Brecwast Am Ddim	21%	75%	4%
Clwb Brecwast sydd â ffioedd taladwy	5%	71%	24%
Lleoedd Gofal Plant Dechrau'n Deg	9%	36%	55%

Mae Tabl 30 yn dangos mai rhagor o leoedd darpariaethau y tu allan i'r ysgol yw'r hyn y credai cynrychiolwyr ysgol (yn eu barn bersonol) oedd eu hangen.

<sup>12</sup> Roedd y ddau arall yn glybiau ar ôl ysgol yn y sector preifat.

- C.6 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgol i ddatgan - hyd eithaf eu gwybodaeth - a allai fod (unrhyw) lle ar gael ar eu safle ysgol – lle y gellid o bosib sefydlu darpariaeth gofal plant newydd: Atebodd 32% fod lle (gyda thri o'r ysgolion hyn hefyd wedi eu lleoli yn ward Catwg) ac roedd amodi yr ymateb hwn, yn cynnwys:

*"Rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu datblygu ein caffi fel lleoliad Dechrau'n Deg, gan roi gofal cofleidiol i'n plant ifanc".*

*"Gellid datblygu tir gerllaw'r Feithrinfa".*

*"Mae gennym 'feithrinfa' wag bob prynhawn, a byddem wrth ein bodd yn dechrau darpariaeth gofleidiol. Fodd bynnag, goblygiadau staffio sy'n ein hatal rhag rhoi hyn ar waith".*

Mae'r holl ymatebwyr a atebodd yn gadarnhaol – gan gynnwys cynrychiolwyr y tair ysgol a leolir yn **Ward Catwg** – wedi cadarnhau y byddent yn falch o gael cyngor a chymorth gyda datblygiad posibl o'r fath.


- C.7 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgol i ddatgan a oeddent yn ymwybodol o fodolaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Dwedodd 79% eu bod yn ymwybodol o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Bro Morgannwg - ac mae'n amlwg felly nad oedd 21% yn ymwybodol.

## 7 Dosbarthiad Daeryddol

Mae'r mapiau yn yr adran hon yn amlinellu lle mae darpariaeth gofal plant wedi'i lleoli yn y Fro fel cynrychiolaeth weledol benodol, gan ddechrau gyda:


### Delwedd 1 – Darpariaeth gofal dydd sesiynol a lleoliad Creches yn y Fro

ffynhonell ddata - Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC):



Delwedd 2 – Lleoliadau darpariaeth Gofal Plant Allysgol yn y Fro  
ffynhonell ddata - Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC):


Gofal Allysgol ym Mro Morgannwg (Categoriâu AGC)






Delwedd 3 – Lleoliadau darpariaeth gofal dydd llawn yn y Fro  
ffynhonell ddata - Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC):

Gofal Ddydd Llawn ym Mro Morgannwg (Categoriâu AGC)




Mae'r mapiau canlynol yn dadansoddi'r categorïau gofal plant y mae AGC yn eu defnyddio ymhellach yn wasanaethau e.e. brecwast, clwb ar ôl ysgol, cylch chwarae ac ati


Delwedd 4 – Lleoliadau darpariaeth gofal plant sesiynol yn y Fro ffynhonnell ddata – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd




Meithrinfeydd Dydd ym Mro Morgannwg







Gwasanaethau Gofal Plant ym Mro Morgannwg



## 8 Cynaliadwyedd

Mae'r naratif a'r dadansoddiad isod yn cyflwyno canlyniadau arolwg strwythuredig hydref 2021 gyda 109 o ddarparwyr gofal plant ar draws ardal leol Bro Morgannwg sy'n canolbwyntio ar thema cynaliadwyedd, gan gynnwys adolygiad o sut mae cyllid cynaliadwyedd yn amlwg yn cefnogi'r sector.

8.1 Fel rhan o arolwg Cyngor Bro Morgannwg gyda darparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar yn hydref 2021, gwahoddwyd pob lleoliad i ddatgan os gwnaeth eu busnes brofi (neu os yw'n parhau i brofi) unrhyw un o'r problemau canlynol o ganlyniad i COVID-19?

Diagram 7 - Amllder y problemau a brofwyd gan ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar o ganlyniad i COVID-19





Diagram 7 yn dangos adborth cyfunol darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar o ran amllder problemau neu heriau a brofwyd o ganlyniad i COVID-19.

Y lleoliad a oedd â'r achosion uchaf o ddarparwr yn nodi 'gostyngiad/colli refeniw' oedd ardal y Barri.  
 Y lleoliad a oedd â'r achosion uchaf o ddarparwr yn nodi 'effeithio ar niferoedd y plant' oedd ardal y Barri hefyd.

Diagram 8 - Amllder y problemau a brofwyd gan warchodwyr plant cofrestredig o ganlyniad i COVID-19



Mae Diagram 8 yn dangos mai gwarchodwyr plant cofrestredig a amlinellwyd amlaf sut yr oeddent wedi 'gweld gostyngiad/colli refeniw' o ganlyniad i bandemig COVID-19.

8.2 Dim ond 13% o'r ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a nododd yn hydref 2021 fod yn rhaid iddynt newid eu model busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19. Yn y rhan fwyaf o achosion eu haddasiad oedd i "fod yn fwy hyblyg". Nododd un lleoliad: "mae darparu clwb gwyliau wedi cynyddu ein hystod oedran o 3-4 oed i 3-7 oed".

Dim ond un darparwr gofal plant allysgol a nododd yn hydref 2021 fod yn rhaid iddynt newid eu model busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19, ac roedd hyn yn benodol am fod "angen i brisiau godi yn ystod y 6 mis nesaf i' wneud iawn".



Yn olaf, nododd 28% o warchodwyr plant cofrestredig yn hydref 2021 fod yn rhaid iddynt newid eu model busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19, gydag addasiadau mynych fel a ganlyn:

- Dechreuodd gwarchodwyr plant gymryd llai o blant
- Cyflwynodd gwarchodwyr plant fwy o hyblygrwydd yn unol â'u horiau
- Ymatebodd gwarchodwyr plant i'r ffaith bod llai o 'blant ar ôl ysgol'.

Gwahoddwyd holl ddarparwyr gofal plant Bro Morgannwg wedyn i ddatgan a fyddent hwy/eu lleoliad yn elwa o gyngor, cymorth a/neu hyfforddiant gyda model busnes tymor byr a/neu ganolig. Nododd 20% y byddent a:

- Dwedodd 20% (o'r holl ddarparwyr gofal plant a ymatebodd) y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda strategaethau modelu busnes a chynaliadwyedd
- Dwedodd 10% y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda marchnata traddodiadol
- Dwedodd 15% y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda marchnata rhithwir.

8.3 Dwedodd 29% (h.y. bron i draean) o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar Bro Morgannwg fod ganddynt ryw fath o gynllun(iau) i barhau i ysgogi cynhyrchu incwm - ac eithrio drwy ddychwelyd i lefelau defnydd cyn COVID-19. Cynlluniau a *ailadroddwyd* oedd:

- Ymgymryd â mwy o farchnata wedi'i dargedu ar gyfryngau cymdeithasol
- Cynnal ymgyrchoedd codi arian
- Hwyluso cynllun chwarae gwyliau (newydd)
- Adeiladu gwefan newydd
- Ymestyn hyd amser sesiynau.

Dylid nodi, mewn ymateb **i'r cwestiwn hwn**, dwedodd tri gwarchodwr plant (eiriau i'r perwyl) "*Rwyf wedi penderfynu chwilio am swydd newydd*".


8.4 Gofynnwyd i bob un o ddarparwyr gofal plant ffurfiol ardal leol Bro Morgannwg hefyd yn ystod hydref 2021 a oedd ganddynt unrhyw gynlluniau/bwriadau i gynyddu eu capasiti/datblygu darpariaeth newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Dwedodd 22% fod ganddynt - a cheir crynodeb o rai o'r bwriadau hyn isod:

- Dwedodd meithrinfa ddydd yn ward Llanbedr-y-fro fod ganddynt gynlluniau i ehangu tua 20 o leoedd yn ychwanegol

- Dwedodd meithrinfa ddydd yn ward Buttrills fod ganddynt gynlluniau i ymestyn capasiti ffisegol eu lleoliadau
- Dwedodd darparwr gofal sesiynol a leolir yn ward y Llys fod ganddynt gynlluniau i *"symud i adeilad newydd"*
- Dwedodd darparwr gofal sesiynol yn ward Catwg fod ganddynt ddi-ddordeb mewn cynyddu eu capasiti i 25 o leoedd
- Dwedodd darparwr gofal sesiynol yn ward Sain Tathan eu bod yn ystyried sefydlu clwb brecwast
- Dywedodd meithrinfa ddydd a leolir yn ward Plymouth fod ganddynt gynlluniau i ymestyn eu capasiti o 12 lle (cyfwerth ag amser llawn)
- Dwedodd darparwr gofal sesiynol yn ward Illtud fod ganddynt gynlluniau i ymestyn eu darpariaeth – fodd bynnag drwy ymestyn eu horiau
- Dwedodd clwb gwyliau yn ardal Penarth fod ganddynt gynlluniau i ehangu eu busnes i Orllewin y Fro
- Dwedodd darparwr gofal sesiynol yn ward Llandochoau eu bod yn ystyried sefydlu cylch chwarae newydd.


- 8.5 Yn hydref 2021, Dwedodd 14% o ddarparwyr gofal plant ffurfiol Bro Morgannwg: (a) darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant allysgol eu bod wedi manteisio ar Gynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (COVID-19). Dwedodd 24% o ddarparwyr gofal plant ffurfiol (a) blynyddoedd cynnar Bro Morgannwg a (b) darparwyr gofal plant allysgol hefyd eu bod wedi defnyddio Cynllun Benthyciadau Adfer yn sgil y Coronafeirws.
- 8.6 Fodd bynnag dwedodd (llawer mwy), 62% o (a) ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar ffurfiol Bro Morgannwg a (b) darparwyr gofal plant allysgol eu bod wedi manteisio ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws...
- 8.7 ... Gofynnwyd i bob: a) darparwr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwr gofal plant allysgol perthnasol (gweler 8.6 uchod) nodi pa mor hyderus oeddent yn hydref 2021 y byddent yn gallu cadw eu tîm staff presennol yn sgil terfynu'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

Diagram 9 - Lefelau hyder cadw staff



8.8 Yn dilyn hynny, mae Diagram 10 isod yn nodi ymatebion a gafwyd gan: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant allysgol ynghylch (eu dealltwriaeth o) gymhwysedd ar gyfer y Rhyddhad/Gwyliau Ardrethi Busnes oherwydd COVID-19.


Diagram 10 - Ymatebion o leoliadau a grwpiau Bro Morgannwg ynghylch cymhwysedd ar gyfer y Rhyddhad Ardrethi Busnes



Gellir nodi hefyd (mai dim ond) 28% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant allysgol a dwedodd eu bod yn ymwybodol bod y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes wedi'i ymestyn am 3 blynedd tan fis Mawrth 2025. Dwedodd y 72% arall nad oeddent yn ymwybodol o'r ffaith hon.

8.9 Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant mewn lleoliad a oeddent wedi derbyn grant cynaliadwyedd.

Diagram 11 - Adborth ar grantiau cynaliadwyedd



Yn nhrefn amllder, tarddiad y grantiau a gyrchwyd oedd:

- Cyngor Bro Morgannwg – Grant Cynaliadwyedd Gofal Plant
- Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant
- Grant PPE

Roedd yr adborth am grantiau gan leoliadau/grwpiau yn gadarnhaol ac yn cynnwys:

*"Cawsom y Grant Cynaliadwyedd a oedd o gymorth mawr".*


*"Mae'r grantiau wedi bod o gymorth mawr tuag at wella'r amgylchedd ac adfer hen deganau ac offer" – ac yn yr un modd:*

*"Roedd cael gafael ar y grantiau yn syml iawn, mae'r arian wedi bod o gymorth mawr i'm lleoliad, yn enwedig yn adnewyddu teganau wedi torri a threulio"*


*"Roedd yn broses syml, a chawsom lawer o adnoddau newydd i'n helpu drwy COVID-19 a rhoddodd y grant hwb y roedd mawr ei angen i ni am gost gwaith hirddisgwyliedig nad oeddem mewn sefyllfa i'w ariannu. Roedd yn rhyddhad mawr o ran y pwysau ariannol".*

8.10 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i gadarnhau cyfnod o amser yn cyfateb â pha mor hir yr oeddent yn disgwyl parhau i ddarparu gofal plant:

Diagram 12 - Ymatebion gan : (a) darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant allysgol o ran y cyfnod o amser yr oeddent yn disgwyl parhau mewn busnes



**Diagram 13 - Ymatebion gan warchodwyr plant cofrestredig ar y cyfnod o amser yr oeddent yn disgwyl parhau mewn busnes**



8.11 Gwahoddwyd darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant allysgol i grynhoi manylion ar gynlluniau sy'n cyd-fynd â **chynaliadwyedd** dros y 18 mis nesaf (hyd at wanwyn 2023).

Tabl 31 - Nifer yr achosion o gynlluniau sy'n cyd-fynd â thema cynaliadwyedd a chymorth parhaus i deuluoedd, hyd at wanwyn 2023 (darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant allysgol)

<b>Cynyddu eich ffioedd am leoedd / darpariaeth lle codir tâl?</b>		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 48%	Dim cynlluniau, ond efallai = 36%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 16%
<b>Gwella darpariaeth ymhellach ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol?</b>		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 34%	Dim cynlluniau, ond efallai = 50%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 16%
<b>Ymestyn eich oriau agor?</b>		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 6%	Dim cynlluniau, ond efallai = 26%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 68%
<b>Ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig?</b>		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 4%	Dim cynlluniau, ond efallai = 42%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 54%
<b>Helpu i ddiwallu anghenion gweithwyr shiftt / y rhai sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol, yn well?</b>		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 6%	Dim cynlluniau, ond efallai = 32%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 62%



Tabl 32 - Nifer yr achosion o gynlluniau sy'n cyd-fynd â thema cynaliadwyedd a chymorth parhaus i deuluoedd, hyd at wanwyn 2023 (gwarchodwyr plant)

Cynyddu eich ffioedd am leoedd / darpariaeth lle codir tâl?		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 15%	Dim cynlluniau, ond efallai = 48%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 37%
Gwella darpariaeth ymhellach ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol?		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 5%	Dim cynlluniau, ond efallai = 62%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 33%
Ymestyn eich oriau agor?		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 3.5%	Dim cynlluniau, ond efallai = 17%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 79.5%
Ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig?		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 7%	Dim cynlluniau, ond efallai = 27%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 66%
Helpu i ddiwallu anghenion gweithwyr shift / y rhai sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol, yn well?		
Oes, mae cynlluniau ar waith = 10%	Dim cynlluniau, ond efallai = 27%	Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 63%

8.12 Yn y bôn, gwahoddwyd holl (gynrychiolwyr) darparwyr gofal plant Bro Morgannwg i nodi'r hyn y byddai eu lleoliad yn ei groesawu'n fawr fel cymorth **parhaus**, cyngor ac arweiniad gan Gyngor Bro Morgannwg yn ystod y flwyddyn sydd i ddod 2022. Y tri math o adborth a nodwyd sawl gwaith oedd (yn nhrefn amllder):

1. Cadw darparwyr yn ymwybodol o *gymorth ariannol a grantiau cynaliadwyedd*
2. Cyngor a chymorth sy'n cyd-fynd â phlant ADY a hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys ar gyfer "*rheoli ymddygiad*" a "*rhoi llais i ADY*"
3. Help gyda recriwtio staff – yn unol ag adborth *gan gynnwys: "Help gyda recriwtio staff gan ei fod yn profi i fod yn ymdrech gwirioneddol"* a:

*"Rydym yn **cael trafferth** i recriwtio staff, gan gynnwys am nad yw'r cyflog yn ddigon; rydym yn bersonol yn ceisio annog mwy o ddynion i fynd i ofal plant a gwneud gofal plant yn opsiwn mwy deniadol fel gyrfa".*

8.13 Yn olaf, o ran thema cynaliadwyedd, gellir nodi yn ystod y cyfnod Mawrth 2020 – Mawrth 2022:

- O ran darpariaethau gofal plant y blynyddoedd cynnar, roedd pum cofrestriad AGC newydd a thri dadgofrestriad AGC yn ardal leol Bro Morgannwg
- O ran gwarchodwyr plant cofrestredig, roedd pedwar cofrestriad AGC newydd a dau ar hugain o ddadgofrestriadau AGC yn ardal leol Bro Morgannwg;
- O ran darpariaethau gofal plant allysgol, roedd tri chofrestriad AGC newydd a dau ddadgofrestriad AGC yn ardal leol Bro Morgannwg.

## 9 Dadansoddiad trawsffiniol

9.1 Mae nifer o blant sy'n preswyllo ym Mro Morgannwg yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant mewn lleoliad sydd y tu allan i'r ardal leol:

Tabl 33 - Nifer y plant sy'n preswyllo ym Mro Morgannwg sy'n cyrchu'r cynnig gofal plant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol

Ffynhonnell: BM 2022

Awdurdod Lleol	Nifer y darparwyr	Nifer y plant
Pen-y-bont ar Ogwr	9	6
Caerdydd	37	68
Sir Gâr	1	0
Casnewydd	1	2
Rhondda Cynon Taf	7	3
Abertawe	1	0
<b>Cyfansymiau</b>	<b>56</b>	<b>79</b>

Yn y bôn, o'r 959 o blant sy'n preswyllo yn y Fro a oedd yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yng Ngwanwyn 2022, manteisiodd 880 ar y Cynnig gan ddarparwr gofal plant yn y Fro (gyda chyfanswm o 155 o ddarparwyr yn y Fro wedi'u cofrestru) a 79 yn manteisio ar y Cynnig mewn lleoliad y tu allan i'r Fro, yn bennaf yng Nghaerdydd.

Mae Tabl 34 yn amlinellu nifer y plant sy'n byw y tu allan i'r Fro ond sy'n defnyddio darparwr gofal plant yn ardal ein hawdurdod lleol.

Tabl 34 - Nifer y plant sy'n byw y tu allan i'r Fro ond sy'n defnyddio darparwr gofal plant yn y Fro ei hun

Local Authority	Nifer y darparwyr	Nifer y plant
Pen-y-bont ar Ogwr	4	5
Caerdydd	24	19
Rhondda Cynon Taf	5	16
<b>Cyfanswm</b>	<b>33</b>	<b>40</b>

## 10 Effeithiau COVID-19

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod bod COVID-19 yn cyflwyno heriau enfawr i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn yr ardal. Roedd yr heriau hynny'n amlweddog, weithiau'n gymhleth, ac yn amlach na pheidio yn cyd-fynd â themâu rhyng-gysylltiedig meddiannaeth a chynaliadwyedd. Mae'n amlwg bod y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn y Fro wedi dangos gwydnwch ac ni welwyd colled sylweddol o ran darparwyr – fodd bynnag, fe welwyd effeithiau'r pandemig...

- 10.1 Mae ymchwil genedlaethol a wnaed yn ystod y cyfnod 2020 – dechrau 2022 yn dangos bod iechyd meddwl a llesiant: (a) perchnogion a (b) staff ar bob lefel o fewn busnesau gofal plant yn cael eu heffeithio gan yr heriau a grëwyd gan COVID-19.

Fel rhan o arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant lleol Bro Morgannwg, gofynnodd yr awdurdod lleol a welodd ymatebwyr unrhyw enghreifftiau o broblemau iechyd meddwl yn gysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys rhai yn ymwneud â straen a gorbryder ynghylch cynaliadwyedd (ar thema COVID)?

Dwedodd 23% o'r ymatebwyr gwirioneddol a oedd yn cynrychioli darparwyr gofal plant (gwarchodwyr plant, perchnogion a rheolwyr fel rheol) eu bod wedi profi heriau a/neu orbryder iechyd meddwl yn bersonol.

Dwedodd 30% o'r ymatebwyr perthnasol y gwelwyd enghreifftiau o aelodau'r tîm yn profi heriau a/neu orbryder iechyd meddwl.

Roedd adborth gan gynrychiolwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant allysgol *yn cynnwys*:

*"Achosodd yr ansicrwydd o weithio gyda phlant ifanc iawn na allai staff gadw pellter cymdeithasol oddi wrthynt lawer o bryder, yn enwedig ar ddechrau'r pandemig... Mae gennym ni [swyddogion/staff awdurdod lleol] ein cefnogaeth Gofal yn Gyntaf y Cyngor ein hunain".*

*"Byddai llinell gymorth am ddim i'w rhannu gyda staff yn helpu. Byddai cymorth i recriwtio mwy o staff hefyd yn helpu gyda fy mhryder am fy musnes".*

*"Byddai dyrannu cyllid ar gyfer llesiant y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cwnsela yn syniad i'w groesawu".*

Roedd adborth gan warchodwyr plant yn cynnwys:

*"Yn ystod COVID-19, nid oeddwn yn gymwys i gael unrhyw beth oherwydd swydd fy ngŵr, ond os oedd mwy o wybodaeth am grantiau yr ydym yn gymwys i'w cael fel gwarchodwyr plant, fe fyddai hynny'n helpu gyda'm gorbryder parhaus a'm pryder ariannol".*

*"Gallai cylchoedd chwarae **penodol** neu gynlluniau chwarae i warchodwyr plant fynychu gyda'i gilydd, weithredu fel haen ychwanegol o gymorth".*

*"Ar hyn o bryd rwy'n [ym mis Rhagfyr 2021] hunanynysu nawr gan fod COVID-19 gan fy ngŵr . Rwyf wedi gwneud cais unwaith am 'grant ynysu' ac mae hynny wedi helpu, ond a fyddaf yn ei gael eto?"*

- 10.2 Gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i nodi sut y byddent yn dosbarthu'n fras sut yr oedd eu rhieni/teuluoedd yn teimlo o ran eu plentyn/plant yn (ail)mynychu eu lleoliad, ynghlwm â COVID-19.

Dwedodd 75% o'r ymatebwyr: Mae'n ymddangos bod y mwyafrif yn hapus nawr, gyda dim ond 6.5% yn datgan: mae'n rhaniad eithaf cyfartal rhwng y rhai sydd o blaid, a'r rhai sydd â phryderon parhaus.

- 10.3 Yn ogystal, amlygodd ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth DHG Gorffennaf 2021:


Fod 59% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd wedi datgan eu bod wedi gorfod cau ar ryw adeg – hyd at y dyddiad hwnnw – o ganlyniad i COVID-19.

Dwedodd 24% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd eu bod wedi gweld achos(ion) positif o COVID-19 cyn mis Gorffennaf 2021, gyda 41% o ddarparwyr o'r fath yn dweud bod ganddynt o leiaf un aelod o staff a oedd wedi dal COVID-19 (hefyd, yn ogystal â'r (eu) plant.

- 10.4 Dwedodd 40% o'r holl ddarparwyr gofal plant nad oeddent, ym mis Gorffennaf 2021, yn gweithredu'n llawn o ganlyniad i COVID-19.

- 10.5 Gofynnwyd i bob darparwr gofal plant a ymatebodd i arolwg hydref 2021 nodi a wnaethant unrhyw newidiadau contract gydag unrhyw rieni / gofalwyr o ganlyniad i COVID-19?

**Diagram 14 - Nifer yr achosion o newidiadau contractaidd a wnaed gan ddarparwyr gofal plant Bro Morgannwg sy'n ymwneud â COVID-19**



10.6 Gofynnwyd i bob darparwr gofal plant a ymatebodd i arolwg hydref 2021 nodi a fyddent yn croesawu unrhyw gyngor neu gymorth pellach y teimlwch a fyddai'n ddefnyddiol i chi o ran polisi / asesiad risg 'diogelu eich lleoliad' COVID-19, neu bolisi / protocol staff a rhieni?

Dwedodd (dim ond) 13% y byddent - ac roedd y ceisiadau gan y darparwyr gofal plant hyn yn cynnwys:

*"Weithiau dim ond templed o arfer da neu asesiad risg i'w ddiwygio fyddai'n berthnasol i mi".*

*Ar lefel y Llywodraeth, dwedwyd un peth wrthym ac roedd rhieni'n credu peth arall. Roedd gen i rieni yn dadlau am bolisi wrth fy nrws ffrynt".*

## 11 Poblogaeth a Demograffeg Allweddol

11.1 Mae Tabl 35 yn amlinellu poblogaeth plant 0-14 oed sy'n cyd-fynd â phob ward yn ardal leol Bro Morgannwg fel y rhagwelwyd gan Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 ar gyfer Wardiau 2020 a 2021 ar gyfer Allau yng Nghymru a Lloegr fesul Blwyddyn Unigol o ran Oed a Rhyw.

**Tabl 35 - Poblogaeth pobl ifanc 0-14 oed yn wardiau Bro Morgannwg a'i thri rhanbarth**

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 ar gyfer Wardiau a 2021 Allau yng Nghymru a Lloegr fesul Blwyddyn Unigol o ran Oed a Rhyw.

Enw'r Ward	Dan 2 oed	2 oed	3-4 oed	5-7 oed	Plant 8-11 oed	12-14 oed	Cyfansymiau
<b>Ardal gymunedol y Barri</b>							
Baruc	158	89	164	233	323	242	1,209
Buttrills	149	92	184	269	333	246	1,273
Catwg	265	136	254	370	535	397	1,957
Castleland	134	85	146	185	267	180	997
Y Llys	141	78	164	263	313	193	1,152
Dyfan	144	79	133	169	257	177	959
Gibbonsdown	158	90	177	279	438	228	1,370
Illtud	171	100	193	312	447	268	1,491
<b>Dwyrain y Fro</b>							
Cornerswell	122	58	120	193	272	195	960
Dinas Powys	132	98	161	241	340	221	1,193
Llandochoau	36	11	33	51	85	98	314
Plymouth	65	59	102	153	315	247	941
Awstin Sant	118	57	153	229	314	211	1,082
Stanwell	97	55	123	215	311	225	1,026
Sili	71	30	99	183	209	167	759
<b>Gorllewin y Fro</b>							
Y Bont-faen	100	57	132	204	260	224	977
Llandŵ/Ewenni	48	26	67	100	117	114	472
Llanilltud Fawr	164	93	206	353	494	351	1,661

Enw'r Ward	Dan 2 oed	2 oed	3-4 oed	5-7 oed	Plant 8-11 oed	12-14 oed	Cyfansymiau
Llanbedr-y-fro	30	18	43	67	137	117	412
Y Rhws	109	58	110	246	358	245	1,126
Sain Tathan	90	69	123	176	251	201	910
Saint-y-brid	67	38	88	110	131	98	532
Gwenfô	78	31	66	107	131	86	499
Cyfanswm Bro Morgannwg	2,647	1,507	3,041	4,708	6,638	4,731	23,272

Mae Tabl 35 yn cadarnhau – yn 2020 – mai'r pump ward oedd i'w cyfrif am y nifer uchaf o breswylwyr 0-14 oed a phreswylwyr ar draws y chwe chategori oedran oedd:

1. Ward Baruc
2. Ward Catwg
3. Ward Llanilltud Fawr
4. Ward Illtud
5. Ward Gibbonsdown



11.2 Yn ogystal, mae Tabl 36 isod yn dangos mai'r *ward* sydd i'w gyfrif am y nifer uchaf o blant preswyl 2-3 oed yw ward Catwg, ac yna ward Illtud.

**Tabl 36 - Poblogaeth (cyfuniad o) blant 2-3 oed yn wardiau Bro Morgannwg**

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 ar gyfer Wardiau 2020 ac AIlau 2021 yng Nghymru a Lloegr fesul Blwyddyn Unigol o ran Oed a Rhyw.

Enw'r Ward	2+3 oed
<b>Ardal gymunedol y Barri</b>	
Baruc	177
Buttrills	180
Catwg	250
Castleland	152
Y Llys	119
Dyfan	150
Gibbonsdown	122
Illtud	175
<b>Dwyrain y Fro</b>	
Cornerswell	147
Dinas Powys	175
Llandochoau	200
Plymouth	22
Awstin Sant	53
Stanwell	191
Sili	35
<b>Gorllewin y Fro</b>	
Y Bont-faen	109
Llandŵ/Ewenni	122
Llanilltud Fawr	123
Llanbedr-y-fro	136
Y Rhws	84

Enw'r Ward	2+3 oed
Sain Tathan	116
Saint-y-brid	82
Gwenfô	60
<b>Cyfanswm Bro Morgannwg</b>	<b>2,647</b>

Mae Tabl 37 isod yn dangos lefelau poblogaeth yn 2020 o fewn yr ACEHI lle y gall teuluoedd preswyl (a pherthnasol) cymwys yno fanteisio ar raglen Dechrau'n Deg.

Tabl 37 - Poblogaeth plant 2-3 oed yn ACEHI Bro Morgannwg

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol 2020

AGEHI	Poblogaeth plant 2 flwydd oed	Poblogaeth plant 3 oed	Cyfanswm
Buttrills 2	17	19	36
Buttrills 3	16	25	41
Catwg 1	15	22	37
Catwg 2	25	20	45
Catwg 3	20	19	39
Catwg 4	24	16	40
Catwg 5	10	19	29
Catwg 6	40	39	79
Castleland 1	25	33	58
Castleland 2G	24	26	50
Castleland 2H	15	16	31
Y Llys 1	26	30	56
Y Llys 2	15	24	39
Y Llys 3	28	25	53
Gibbonsdown 1	14	22	36
Gibbonsdown 2	28	25	53

AGEHI	Poblogaeth plant 2 flwydd oed	Poblogaeth plant 3 oed	Cyfanswm
Gibbonsdown 3	20	13	33
Gibbonsdown 4	29	29	58
Illtud 2	13	16	29

- 11.2 **Adroddodd amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018<sup>13</sup> y rhagwelir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu 6% yn ystod y cyfnod 2018-2028.** Yn cyd-fynd â'r rhagolygon hyn roedd naratif lle *rhagwelir y bydd y cynnydd canrannol mwyaf yn y boblogaeth yng Nghasnewydd (cynnydd o 7.2%), Bro Morgannwg (i fyny 6%) a Phen-y-bont ar Ogwr (i fyny 4.6%).* Mae'r un ffynhonnell yn amcangyfrif o 2019-2039, mae'r prif amcanestyniadau yn amcangyfrif y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn tyfu 3.9% neu 5,501 o bobl. Yn y bôn, mae hyn yn golygu erbyn 2028 y gallai fod tua 365 yn fwy o blant 0-4 oed yn byw yn y Fro a thua 838 yn fwy o blant 5-14 oed yn byw yn y Fro.

Mae Bro Morgannwg yn gyffredinol wedi'i rhannu'n dair Ardal Gymunedol - sef 1. Y Barri, 2. Dwyrain y Fro a 3. Gorllewin y Fro. Mae'r ardaloedd cymunedol hyn yn cynnwys pedair canol tref wahanol Bro Morgannwg: Y Barri, Penarth (Dwyrain y Fro), Llanilltud Fawr (Gorllewin y Fro) a'r Bont-faen (Gorllewin y Fro). Mae 41% o boblogaeth y Fro yn byw yn ardal leol y Barri, mae 31% yn byw yn ardal Gorllewin y Fro ac mae 28% yn byw yn ardal Dwyrain y Fro. O ran y boblogaeth yn gyffredinol, ardal fwyaf poblog y Fro yw'r Barri o hyd gydag amcangyfrif o 55,070 o bobl yn byw yno yn 2020. Yn 2020 amcangyfrifwyd bod y garfan oed 0-15 oed ar gyfer y Fro yn gyffredinol wedi cynyddu o 23,683 yn 2015 i 24,917 yn 2020 – cyfradd dwf o 5.1%.

- 11.3 O ran cyfraddau geni ardal leol Bro Morgannwg, mae Tabl 38 drosodd yn manylu ar fetrigau pob un o'r wardiau ardaloedd ar gyfer y flwyddyn 2019 – h.y. plant a fydd (neu'n agos at fod) ar oedran rhaglen Dechrau'n Deg.

<sup>13</sup><https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-08/subnational-population-projections-2018-based-280.pdf>

Tabl 38 – Cyfraddau genedigaethau Blwyddyn 2019 ar gyfer ardal Bro Morgannwg

Ffynhonnell: SYG 2020

Enw'r Ward	2019 Cyfradd geni/nifer
Baruc	88
Buttrills	63
Catwg	101
Castleland	64
Cornerswell	50
Y Llys	81
Y Bont-faen	28
Dinas Powys	82
Dyfan	57
Gibbonsdown	67
Illtud	71
Llandochau	18
Llandŵ/Ewenni	8
Llanilltud Fawr	78
Llanbedr-y-fro	11
Plymouth	29
Y Rhws	47
Sain Tathan	46
Awstin Sant	52
Saint-y-brid	29
Stanwell	54
Sili	40
Gwenfô	38
<b>Cyfanswm Bro Morgannwg</b>	<b>1,202</b>

Dengys Tabl 38 mai'r ward â'r nifer uchaf o enedigaethau newydd cyn y pandemig oedd Catwg, ac yna'n aik o ran amllder roedd ward Baruc.

- 11.4 Mae Tabl 39 yn dangos mewnfudo ac allfudo ar gyfer ardal Bro Morgannwg ar gyfer y cyfnod 2018-2020. Mae'r Tabl yn dangos bod mewnlif, yn enwedig mewnlif rhyngwladol, yn uwch na'r all-lif o bobl. Roedd blynyddoedd blaenorol wedi dangos union yr un faint o achosion ac mae cyfran y mewnlif o'i gymharu â'r all-lif wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Ffynhonnell: SYG 2019

		Canol 2018 – Canol 2020			
Bro Morgannwg	Amcangyfrif Pob. Canol 2019 = 133,587	Ymfudo Rhyngwladol Hirdymor		Ymfudo Mewnol (o fewn y Deyrnas Gyfunol)	
		Mewnlif	All-lif	Mewnlif	All-lif
		415	205	5,935	4,692
	Amcangyfrif Pob. Canol 2020 = 135,295	Ymfudo Rhyngwladol Hirdymor		Ymfudo Mewnol (o fewn y Deyrnas Gyfunol)	
Mewnlif		All-lif	Mewnlif	All-lif	
	409	148	5,506	3,888	

- 11.5 O ran ethnigrwydd, mae Tabl 40 yn dangos nifer y plant a oedd yn byw yn yr ardal yn 2019 a oedd o gefndiroedd penodol.

Tabl 40 - nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n byw yn ardal leol Bro Morgannwg yn 2019 sydd o gefndiroedd ethnig penodol

Ffynhonnell: SYG 2019

Oedran	Gwyn	Gwyn Prydeinig	Cymysg	Asiaidd	Du	Arall
0	1,173	1,162	35	31	6	4
1	1,314	1,302	40	35	6	4
2	1,416	1,403	42	38	7	5
3	1,384	1,371	41	37	7	4
4	1,473	1,459	44	39	7	5

5	1,428	1,415	42	38	7	5
Oedran	Gwyn	Gwyn Prydeinig	Cymysg	Asiaidd	Du	Arall
6	1,441	1,427	42	39	7	5
7	1,555	1,540	46	41	7	5
8	1,511	1,496	45	40	7	5
9	1,584	1,558	60	29	3	2
10	1,537	1,522	42	45	7	5
11	1,613	1,586	50	38	8	7
12	1,519	1,494	65	53	4	7
13	1,419	1,397	57	43	0	1
14	1,478	1,464	31	43	3	6

Fel y mesurir gan Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y Fro, mae canran y bobl sy'n cofnodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig yn yr ardal leol wedi bod rhwng 2 a 3% ers 2005. Yn y Flwyddyn a ddaeth i ben fis Rhagfyr 2020, amcangyfrifwyd bod 2.1% o boblogaeth Bro Morgannwg yn dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig, sy'n cymharu â 5.5% ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn wahanol i'r darlun ar lefel genedlaethol Cymru lle mae canran y bobl sy'n cofnodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig wedi bod yn cynyddu'n raddol.

11.6 Mae gan Fro Morgannwg nifer gymharol isel o siaradwyr Cymraeg, gyda thua 20% o drigolion yn gallu siarad Cymraeg - y pumed ganran isaf yng Nghymru.

O ran nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal Bro Morgannwg, mae cofnodion StatsCymru yn dangos yn 2019, bod bron i 1:5 felly o boblogaeth Bro Morgannwg yn gallu siarad Cymraeg – Tabl 41:

Ffynhonnell: Stats Cymru: <https://statswales.gov.wales/Catalogue>

Ardal	Pawb sy'n 3 oed a throsodd	Ydw, gallu siarad Cymraeg.	Nac ydw, ddim yn gallu siarad Cymraeg	Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg
Cymru	3,025,400	892,500	2,131,600	29.5%
Bro Morgannwg	124,600	24,300	100,300	19.5%

Yn wir, rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011 roedd gostyngiad wedi ei gofnodi yng nghanran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg ym Mro Morgannwg. Gostyngodd canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg o 11.2% yn 2001 i 10.8% yn 2011. Gellir rhoi cyfrif am y gostyngiad hwn yn sgil y gostyngiad yng nghyfran y bobl 75 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yn y Fro. O'u dadansoddi i lefel ACEHI, nid oes unrhyw dueddiadau amlwg yn nosbarthiad pobl sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws Bro Morgannwg. Llandŵ ac Eweny a gofnododd y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg, sef 14.8%, ac yna ACEHI Baruc 2, ar 14.5% a ACEHI Gwenfô 1 ar 14.4%.

- 11.7 Yn 2011, Bro Morgannwg oedd â'r boblogaeth fwyaf o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru gyda 1,143 o bobl 16 oed a throsodd yn y Lluoedd Arfog ac yn byw ym Mro Morgannwg. Mae nifer poblogaeth y lluoedd arfog sy'n byw ym Mro Morgannwg yn gysylltiedig â chanolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan yn y ward o'r un enw.
- 11.8 Mae Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg yn amlinellu sut mae'r ardal leol yn cael ei hystyried yn ardal gefnog a deniadol i fyw a gweithio ynddi. Gan elwa o'i hagosrwydd at Gaerdydd a'r rhanbarth ehangach, mae gan yr ardal amrywiaeth o fusnesau a diwydiant ac mae ganddi gysylltiadau ffordd a rheilffordd da â gweddill Cymru a'r Deyrnas Gyfunol. Fodd bynnag, mae pocedi o dlodi ac amddifadedd ac mae'r Fro yn gartref i dair o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae adroddiad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 yn nodi bod Bro Morgannwg yn un o 12 Awdurdod Lleol yng Nghymru heb unrhyw ardaloedd bach o amddifadedd sydd wedi ei wreiddio yn ddwfn.
- Yn syml, y penderfynyddion MALIC a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yw Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Mynediad at Wasanaethau, Diogelwch Cymunedol, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai. Mae tair o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) y Fro yn y 10% o ACEHlau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent i gyd wedi'u lleoli yn ardal y Barri, a dyma fu'r achos ers 2008.
- 11.9 O ran cyfraddau cyflogaeth a diweithdra ar draws ardal Morgannwg, ym mis Medi 2021 dosbarthwyd 79.5% o'r boblogaeth oedolion fel rhai economaidd weithgar ac mewn cyflogaeth. Roedd hyn 3.5% yn uwch na'r cyfartaledd ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. Dangosodd data a gyhoeddwyd gan NOMIS yn hydref 2021 hefyd mai'r pum math o alwedigaeth yr oedd oedolion yn cael eu cyflogi amlaf ynddynt oedd (yn nhrefn amllder):
1. Galwedigaethau Proffesiynol (14,800)
  2. Galwedigaethau technegol (9,800)
  3. Rheolwyr a chyfarwyddwyr (7,100)
  4. Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill (6,100)

## 5. Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol (6,100)

Ledled Cymru, bu tuedd gynyddol o ran nifer yr achosion o weithio shifftiau. Er enghraifft, cyhoeddodd TUC Cymru adroddiad ddiwedd 2019 a oedd yn tynnu sylw at y canlynol:<sup>14</sup>

- Roedd 17,000 yn fwy o weithwyr nos yng Nghymru nag oedd yn 2014
- Roedd 165,000 o bobl yn gweithio nosweithiau'n rheolaidd yng Nghymru - 13% o'r gweithlu
- Yn y Deyrnas Gyfunol, roedd gweithwyr gofal (432,000) yn cyfrif am y rhan fwyaf o weithwyr nos, yna nyrsys a bydwagedd (232,000)
- Y proffesiwn mwyaf cyffredin nesaf ar gyfer gweithwyr nos oedd gyrwyr cludiant ffyrdd (208,000)
- Cymru sydd â'r drydedd gyfran uchaf o weithwyr sy'n gwneud gwaith nos, o'i gymharu ag un ar ddeg rhanbarth arall y Deyrnas Gyfunol.

11.10 Mae data a gyhoeddwyd gan NOMIS yn hydref 2021 yn dangos mai'r cyflog wythnosol cyfartalog ar gyfer gweithiwr llawn amser sy'n byw yn ardal leol y Fro yw £593.30, sydd (yn uwch na ac) yn gallu cael ei gyferbynnu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef £570.60 yr wythnos.

11.11 Yn ogystal, nododd Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru 2018 mai ardal y Fro oedd i'w chyfrif am y ganran isaf ond un (o gymharu ag awdurdodau lleol eraill) o blant a oedd yn byw ar aelwydydd heb waith – sef 11.2% o'r holl aelwydydd.

11.12 Nododd Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru 2018 fod 7.3% o aelwydydd yn ardal leol y Fro (tua 3,000) yn deuluoedd un rhiant. Roedd hyn ond 0.6% yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

---

<sup>14</sup> <https://www.tuc.org.uk/news/17000-more-night-workers-wales-over-last-five-years-tuc-analysis-shows>



11.13 Mae Tabl 42 yn amlinellu nifer yr achosion o blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a oedd yn preswyllo ar draws ardal y Fro yn y cyfnod 2020-2021 – gyda'r Tabl 43 dilynol yn amlinellu nifer yr achosion o fathau penodol o anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y cyfnod hwnnw. Cafodd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru yn unig) 2018 gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2018 a throdd yn Ddeddf. Mae'r ddeddf ADYTA yn rhan o'r rhaglen trawsnewid ADY sy'n bwriadu canolbwyntio ar gynhwysiant, rhoi plant a phobl ifanc yn y canol, a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial yn llawn. Cymeradwywyd y Cod ADY ym mis Mawrth 2021 gan y Senedd, sy'n golygu bod y Cod wedi dod i rym ym mis Medi 2021, felly bydd unrhyw blant newydd y nodwyd bod ganddynt ADY yn rhan o'r system newydd hon. Bydd y cod yn sicrhau bod gan y system ADY newydd gyfres o bamedrau clir y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol y mae'n rhaid i'r ALI ac ysgolion weithredu o'u mewn.

Tabl 42 - Nifer yr achosion o blant ag ADY ym Mro Morgannwg yn 2020-2021 (cyn i'r Cod ADY ddod i rym ym mis Medi 2021)

Ffynhonnell: StatsWales

Lleoliad	Pob Anghenion Addysgol Arbennig				Pob Anghenion Addysgol Arbennig/ADY
	Â datganiad	Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond heb Ddatganiad AAA		Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond heb Ddatganiad AAA	
		Gweithredu gan yr Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy		
Cymru	14,082	46,790	31,816	78,606	92,688
Bro Morgannwg	439	1,616	1,158	2,744	3,213

Tabl 43 - Nifer yr achosion o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ag ADY yn y Fro yn 2020-2021

Ffynhonnell: BM One System Mawrth 2022

Allwedd

P - Ysgol Gynradd

C – Cyfun (Uwchradd)

SS - Ysgol Arbennig

Cyfrwng	Math AAA	Bro Morgannwg Cyfanswm nifer disgyblion	Dadansoddiad o Cynradd, Uwchradd ac Ysgol Arbennig (Ysgol arbennig ond yn gyfrwng Saesneg)
Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Schools	Anawsterau dysgu cymedrol	11	8 P, 3 C
	Anawsterau dysgu cyffredinol	241	150 P, 91 C
	Anawsterau dysgu difrifol	0	0
	Anawsterau dysgu lluosog a difrifol	0	0
	Dyslecsia	107	5 P, 102 C
	Dyscalcwlia	15	15 C
	Dyspracsia	21	17 P, 4 C
	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	14	3 P, 11 C
	Anhwylder ar y sbectrw m awtistig	28	13 P, 15 C,
	Anawsterau corfforol a meddygol	17	7 P, 10 C
	Nam ar y clyw	13	0 P, 13 C
	Nam ar y golwg	2	0 P, 2 C
	Nam Amlsynnwyr	1	1 P, 0 C
	Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu	54	29 P, 25 C
	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol	66	29 P, 37 C

Cyfrwng Saesneg	Math AAA	Bro Morgannwg Cyfanswm nifer yr achosion disgyblion	Dadansoddiad o'r Cynradd, Uwchradd ac Ysgol Arbennig (Ysgol arbennig cyfrwng Saesneg yn unig)
	Anawsterau dysgu cymedrol	236	94 P, 118 S, 24 SS
Anawsterau dysgu cyffredinol	885	257 P, 627 S, 1 SS	
Anawsterau dysgu difrifol	30	13 P, 2 C, 15 SS	
Anawsterau dysgu lluosog a difrifol	18	2 P, 2 C, 14 SS	
Dyslecsia	249	65 P, 184, 0 SS	
Dyscalcwlia	8	2 P, 6 C, 0 SS	
Dyspracsia	8	7 P, 1 C, 0 SS	
Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	107	35 P, 67 C, 5 SS	
Anhwylder ar y Sbectrw m Awtistig (3)	377	99 P, 100 C, 178 SS	
Anawsterau corfforol a meddygol (3)	168	86 P, 59 C, 23 SS	
Nam ar y clyw	61	31 P, 30 C	
Nam ar y golwg	31	13 P, 18 C	
Nam Amlsynnwyr	4	1 P, 2 C, 1 SS	
Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu	796	549 P, 214 C, 33 SS	
Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol	750	319 P, 389 C, 42 SS	

1.14 Seiliwyd Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bro Morgannwg Tachwedd 2021 ar yr amcanestyniad ar sail amrywiolion ymfudo 10 mlynedd yn seiliedig ar 2011 a oedd yn rhagweld y byddai poblogaeth Bro Morgannwg yn 136,281 o bobl erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn 2026.

Dylid nodi, er mai amcanestyniadau 2018 yw'r data diweddaraf, y bydd data Cyfrifiad 2021 yn cael ei ryddhau wrth baratoi'r CDLI Newydd. Fodd bynnag, mae'r Tabl isod yn nodi'r sefyllfa bresennol yn y Fro o ran lleoliad datblygiadau tai sydd wedi'u cwblhau'n ddiweddar a'r rhai y mae'r camau (adeiladu) i fod i ddigwydd yn ystod y cyfnod 2022-2026.

Dylid nodi hefyd bod y Cyngor ar hyn o bryd yn adolygu ei CDLI ac yn paratoi CDLI newydd, i'w alw'n Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Bydd y CDLIN yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2021 a 2036 a bydd yn cymryd 3 1/2 mlynedd i'w fabwysiadu. Bydd ei ddata ar gynnyrch tai wedi'i ddiweddarau yn cael ei gynnwys yn niweddariadau ADGP blynyddol Cyngor Bro Morgannwg.

Am y tro, mae Tabl 44 yn dangos nifer yr anheddau newydd arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2022-2026, yn ogystal â chwblhau diweddar. Y golofn fwyaf perthnasol ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn yw colofn 3: Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd erbyn 1 Ebrill 2021. Bydd datblygiadau a amlygir mewn print trwm yn gofyn am sylw a ffocws arbennig gan gynllunwyr digonolrwydd yn ystod oes yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn.

**Tabl 44 - Datblygiadau tai newydd arfaethedig i'w codi yn ardal leol Bro Morgannwg erbyn 2026**

Ffynhonnell: BM Tachwedd 2021

Enw Dyranriad Safle	Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir	Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2021  *yn amodol ar A106	Statws
<b>Cam 2, Glannau'r Barri</b>	<b>1,700</b>	<b>1,527</b>	<b>Wrthi'n adeiladu - rhagwelir cwblhau'r cam olaf yn 2024.</b>
<b>Tir yn Higher End, Sain Tathan</b>	<b>220</b>	<b>108</b>	<b>Cam 1 - Cwblhau 100 o anheddau</b>
Tir yn Church Farm, Sain Tathan	250	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio cyfredol.
Hen safle'r Stadiwm / Tir gerllaw Burley Place, Sain Tathan	65	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio cyfredol. Mae'r safle'n cael ei farchnata ar ran y perchennog ar hyn o bryd.

Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewys	255	253	Rhagwelir y bydd gwaith yn dechrau ar y safle yn 2022
Enw Dyranriad Safle	Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir	Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2021  *yn amodol ar A106	Statws
Tir gerllaw Froglands Farm, Llanilltud Fawr	90	100	Rhagwelir dechrau ar y safle yn 2022/23.
Tir rhwng Ffordd Fynediad newydd y Gogledd a Heol Eglwys Brewys	375	140	Rhagwelir dechrau ar y safle yn 2022/23.
Parc Pleser Ynys y Barri	25	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio cyfredol.
White Farm	177	177	Cwblhawyd.
Tir i'r dwyrain o Pencoedtre Lane	67	67	Cwblhawyd
Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane (diwygiwyd)	137	0	Mae'r safle yn eiddo i'r Cyngor ac mae o fewn Blaengynllun Datblygu Tai'r Cyngor.
Ysgol Maes Dyfan	81	81	Cwblhawyd.

Enw Dyranriad Safle	Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir	Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2021  *yn amodol ar A106	Statws
Llys Ynadon y Barri	52	52	Cwblhawyd.
Depo Court Road, y Barri	50	0	Mae'r safle yn eiddo i'r Cyngor a chaiff ei ddatblygu at ddefnydd addysgol.
Holm View	50	11	Cam 1 wedi'i gwblhau - rhagwelir cwblhau cam 2 yn 2024.
Hayes Wood, The Bendricks	55	0	Mae'r safle yn eiddo i'r Cyngor ac mae wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Tai'r Cyngor ac mae cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
Ysgol Gyfun Is y Bont-faen	21	21	Cwblhawyd.

Enw Dyraniad Safle	Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir	Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2021  *yn amodol ar A106	Statws
Bloc 6ed Dosbarth Ysgol Gyfun y Barri, Aberthin Road	20	0	Mae cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
Tir sy'n ffinio â St Athan Road, y Bont-faen	130	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cyfredol. Mae'r datblygwr/tirfeddiannwr wedi cymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r Cyngor.
<b>Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bont-faen</b>	<b>475</b>	<b>475</b>	<b>Wrthi'n adeiladu - rhagwelir cwblhau yn 2025/26.</b>
Fferm Plasnewydd, Llanilltud Fawr	149	149	Cwblhawyd.
Tir ger Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr	70	89	Cwblhawyd.

Cyn-Ysgol Gynradd Eagleswell	72	0	Mae'r safle yn eiddo i'r Cyngor ac mae o fewn Blaengynllun Datblygu Tai'r Cyngor.
<b>Enw Dyranriad Safle</b>	<b>Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir</b>	<b>Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2021</b>	<b>Statws</b>
		<b>*yn amodol ar A106</b>	
Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog	<b>576</b>	<b>0</b>	<b>Mae cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.</b>
Tir sy'n ffinio ag Ysgol St. Joseff, Sully Road, Penarth	74	74	Cwblhawyd
Ysgol Headlands, St Augustine's Road	65	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio cyfredol.
Tir ger Oak Court, Penarth	145	0	Mae'r safle wedi'i gynnwys ym Mlaengynllun Datblygu Tai'r Cyngor
Tir yn ac yn ffinio ag Ysgol St. Cyres, Murch Road	300	215	Cwblhawyd.
Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys	70	70	Cwblhawyd.



Enw Dyraniad Safle	Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir	Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2021  *yn amodol ar A106	Statws
Tir sy'n ffinio ag Ardwyn, Pen-y-Turnpike	18	18	Cwblhawyd.
Tir yn Cross Common Road	50	50	Cwblhawyd.
Tir i'r de o Fryn Llandochau / Heol Penarth	130	0	Mae cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
Tir i'r gogledd o Heol Lecwydd	8	40	Wrthi'n adeiladu - rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn 2022.
Llandough Landings	120	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cyfredol.
Tir i'r gogledd o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	700	347	Cam 1 y Gorllewin yn cael ei adeiladu. Cam 2 y Dwyrain - dim caniatâd cynllunio cyfredol.

Tir i'r de o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	87	87	Cwblhawyd.
<b>Enw Dyranïad Safle</b>	<b>Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir</b>	<b>Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2021</b>	<b>Statws</b>
		<b>*yn amodol ar A106</b>	
<b>Tir i'r Gorllewin o Swanbridge Road, Sili</b>	<b>500</b>	<b>325</b>	<b>Wrthi'n adeiladu.</b>
Tir i'r Gorllewin o Port Road, Gwenfô	132	132	Cwblhawyd.
Tir ger Court Close, Aberthin	20	20	Cwblhawyd.
<b>Tir i'r Dwyrain o Dresimwn</b>	<b>120</b>	<b>120</b>	<b>Wrthi'n adeiladu.</b>
Tir i'r cefn o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn	64	64	Cwblhawyd.
ITV Wales, Croes Cwrlwys	224	224	Cwblhawyd.

Enw Dyraniad Safle	Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir	Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2021  *yn amodol ar A106	Statws
The Garden Emporium, Fferm Goch	40	40	Cwblhawyd.
Canolfan Breswyl Ogwr	70	70	Cwblhawyd.
Maes Carafanau Ogwr	100	100	Cwblhawyd.
Tir i'r Dwyrain o Sain Nicolas	117	117	Cwblhawyd.
Tir oddi ar St. Brides Road, y Wig	124	124	Cwblhawyd.
Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen	85	40	Cam 1 - cwblhawyd 40 o anheddau.  Cam 2 - dim caniatâd cyfredol. Mae'r datblygwr/tirfeddiannwr wedi

			cymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r Cyngor.
--	--	--	---

Gan ddefnyddio fformiwla fewnol yr awdurdod lleol ar gyfer lleoedd blynyddoedd cynnar/Derbyn newydd fesul 100 o anheddau newydd, sef 0.04 o leoedd/100 o anheddau,

Mae Tabl 44 yn dangos mai'r lleoliadau a fydd yn cyfrif am y cynnyrch tai newydd uchaf a ragwelir yw (yn nhrefn amllder):

Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo anghenion addysgol sy'n deillio o ddatblygiadau tai wedi'i chynnwys yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor. Mae'r fformiwla'n golygu cynnyrch o 0.1 fesul annedd ar gyfer plant cyn oed ysgol.

Er nghraifft, rhagwelid y byddai datblygiad 500 o dai yn cynhyrchu tua 50 o blant oed meithrin.

Felly, gellir ystyried yn rhesymol:

Mae **datblygiad Glannau'r Barri** yn cyfrif am 1,527 o anheddau newydd a **gymeradwywyd**. Felly, gellir tybio, pan fydd yr anheddau hyn wedi eu cwblhau a'u meddiannu, wedi'i alinio â fformiwla cynnyrch meithrin Bro Morgannwg, y byddai hyn yn datblygu gofyniad am 153 o leoedd meithrin newydd.

Mae **datblygiad Higher End Sain Tathan** yn cyfrif am 108 o anheddau newydd a **gymeradwywyd**. Felly, gellir tybio, pan fydd yr anheddau hyn wedi eu cwblhau a'u meddiannu, wedi'i alinio â fformiwla cynnyrch meithrin Bro Morgannwg, y byddai hyn yn datblygu gofyniad am 11 o leoedd meithrin newydd.

Mae **datblygiad Fferm Froglands (yn Llanilltud Fawr)** yn cyfrif am 100 o anheddau newydd a **gymeradwywyd**. Felly, gellir tybio, pan fydd yr anheddau hyn wedi eu cwblhau a'u meddiannu, wedi'i alinio â fformiwla cynnyrch meithrin Bro Morgannwg, y byddai hyn yn datblygu gofyniad am 10 lle meithrin newydd.

Mae'r **tir i'r gogledd-ddwyrain o ddatblygiad Darren Close, yn y Bont-faen** yn cyfrif am 475 o anheddau newydd a **gymeradwywyd**. Felly, gellir tybio, pan fydd yr anheddau hyn wedi eu cwblhau a'u meddiannu, wedi'i alinio â fformiwla cynnyrch meithrin Bro Morgannwg, y byddai hyn yn datblygu gofyniad am 48 o leoedd meithrin newydd.

Mae **Ffordd Fynediad y Gogledd a datblygiad Heol Eglwys Brewis (eto yn Sain Tathan)** yn cyfrif am 140 o anheddau newydd a **gymeradwywyd** Felly, gellir tybio, pan fydd yr anheddau hyn wedi eu cwblhau a'u meddiannu, wedi'i alinio â fformiwla cynnyrch meithrin Bro Morgannwg, y byddai hyn yn datblygu gofyniad am 14 o leoedd meithrin newydd.

Mae **Datblygiad Fferm Cosmeston Uchaf ger Penarth** yn cyfrif am 576 o anheddau newydd a **gymeradwywyd** Felly, gellir tybio, pan fydd yr anheddau hyn wedi eu cwblhau a'u meddiannu, wedi'i alinio â fformiwla cynnyrch meithrin Bro Morgannwg, y byddai hyn yn datblygu gofyniad am 58 o leoedd meithrin newydd.

Mae'r **Tir i'r Gorllewin o ddatblygiad Swanbridge Road yn natblygiad Sili** yn cyfrif am 325 o anheddau newydd a **gymeradwywyd** Felly, gellir tybio, pan fydd yr anheddau hyn wedi eu cwblhau a'u meddiannu, wedi'i alinio â fformiwla cynnyrch meithrin Bro Morgannwg, y byddai hyn yn datblygu gofyniad am 32 o leoedd meithrin newydd.

Yn olaf, mae'r **Tir i'r dwyrain o ddatblygiad Tresimwn** yn cyfrif am 120 Co anheddau newydd a **gymeradwywyd** Felly, gellir tybio, pan fydd yr anheddau hyn wedi eu cwblhau a'u meddiannu, wedi'i alinio â fformiwla cynnyrch meithrin Bro Morgannwg, y byddai hyn yn datblygu gofyniad am 12 lle meithrin newydd.

## 12 Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a Chynlluniau Llesiant Lleol

12.1 Gellir gweld Cynllun Llesiant Lleol byw y Fro yn:

<https://www.valepsb.wales/Documents/Welsh-Well-being-Plan/Full-Online-Version-WELSH.pdf>

Mae'r ddogfen yn amlwg yn berthnasol i ofal plant a'r blynyddoedd cynnar, ac un o'i hamcanion allweddol yw i: roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Felly, bydd cynllunwyr strategaeth gofal plant yn y Fro yn parhau i gysoni eu rôl a'u cyfrifoldebau â'r ffordd orau o gefnogi amcanion parhaus y Cynllun Llesiant.

Mae'r Cynllun Llesiant ei hun yn glir bod y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn rhan hanfodol o uchelgeisiau'r cynllun. Mae'r ddogfen yn nodi: *"Mae profiadau ar gyfnod cynnar nid yn unig yn effeithio ar gyfleoedd bywyd ein cenedlaethau'r dyfodol presennol ond y cenedlaethau y byddant hwythau yn eu cenhedlu. Dengys ein tystiolaeth mai buddsoddi er mwyn sicrhau fod y dechrau gorau gan bob plentyn yn eu bywydau yw'r ffordd orau i atal oblygiadau tymor hir cael profiad gwael yn y blynyddoedd cynnar a sicrhau ein bod yn adeiladu unigolion, teuluoedd a chymunedau gwydn.*

*Dangosodd ein Asesiad Llesiant yn gyffredinol fod plant ifanc yn y Fro â lefel dda o lesiant ar draws ystod o ganlyniadau ac y mae'n gryfder y gallwn adeiladu arno yn y Fro."*

Fodd bynnag, mae'r ddogfen hefyd yn amlinellu fod: *"Bro Morgannwg yn cuddio anghydraddoldebau o fewn y sir, ac mae hyn yn wir am ystod o ddangosyddion parthed iechyd a datblygaid plant ifanc. Mae ein hail amcan llesiant – i leihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ynghlwm ac amddifadedd – yn ceisio ateb y problemau hyn yn y Fro ac mae'n amlwg drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau y byddwn yn cyfrannu at sicrhau fod pob plentyn, waeth lle byddont yn byw, yn cael y dechrau gorau posib ar fywyd a chyfleoedd i ffynnu. Yn yr un modd drwy weithio i sicrhau fod pob plentyn yn cael y dechrau gorau ar fywyd byddwn yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn yr ardal."*

O ganlyniad, mae'r Cynllun Llesiant yn disgrifio eto sut y bydd rhai o'i amcanion yn cynnwys strategaeth angenrheidiol ac uchelgeisiol ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant, a gaiff ei llywio gan y Cynllun Gweithredu a ymgorfforir yn yr Asesiad hwn. Er enghraifft, mae'r cynllun yn nodi bwriad i *"datblygu gwell dealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (PNPau) i gymryd camau effeithiol i sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn, bod systemau cymorth ar waith a bod achosion sylfaenol PNPau yn cael eu hatal... ac adolygu gwasanaethau ar draws partneriaid a gweithio gyda'n gilydd i nodi'r cyfraniad y gallwn ei wneud tuag at **roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn**, gan gydnabod y rôl a chwaraeir gan wasanaethau cyffredinol a statudol"*.

I gloi, mae'r rhai sy'n gyfrifol am ofal plant a strategaeth y blynyddoedd cynnar yn y Fro wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid Llesiant i chwarae rhan hanfodol wrth gydweithio i atal canlyniadau gwael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol - drwy (unwaith eto) roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.

## 13 Dadansoddiad Bylchau

Mae'r adran ganolog a ganlyn yn amlinellu'r bylchau mewn darpariaeth gofal plant a nodwyd gan Asesiad Digonoldeb Gofal Plant Bro Morgannwg 2022 ac y cafwyd tystiolaeth amdanynt. Mae pob un o'r bylchau a gynhwyswyd isod yn asio gyda dosbarthiad penodol, h.y., un o'r canlynol:

Bwlch sy'n cyd-fynd â'r canlynol:

- **Amseroedd** pan mae gofal plant ar gael, gan gynnwys yr angen am ofal plant hyblyg sy'n ymdrin â phatrymau afreolaidd o ddefnydd ar draws y dydd, yr wythnos a'r flwyddyn
- y **Mathau** o ofal plant sydd ar gael
- **Oedran** y plant y mae gofal plant ar gael iddynt
- **Fforddiadwyedd** gofal plant
- yr anghenion penodol am blant ag **ADY**
- yr anghenion penodol am ddarpariaeth gofal plant **cyfrwng Cymraeg**
- **Lleoliad daearyddol** gofal plant yng nghyswllt poblogaeth, ward a dalgylch ysgol

---

### Amseroedd pryd y mae gofal plant ar gael

- 1 Soniodd rhyw 1:5 o'r holl rieni a ymatebodd am eu dymuniad i allu parhau i fynd at ofal plant ffurfiol er mwyn *"dychwelyd i normal/sut yr oedd pethau"* yn arbennig yng nghyswllt amseroedd agor (cynharach) clybiau brecwast ac ail-agor eu clybiau wedi'r ysgol, cyn pandemig COVID-19. Yr oedd adborth ansoddol penodol yn cynnwys:

*"Gorffennodd fy nghlwb wedi'r ysgol yn ein hysgol gynradd yn ystod COVID-19 ac nid yw wedi ail-gychwyn".*

*"Nid yw'n clwb wedi'r ysgol wedi ail-agor ers y pandemig ond mae'n rhaid i mi dychwelyd i'r swyddfa i weithio, sy'n golygu bod yn rhaid i mi ddibynnu ar gyfeillion sydd hefyd yn cael anawsterau".*

*"Mae gan i broblemau mawr ar ôl i'r clwb wedi'r ysgol gau. Rwyf yn defnyddio gwarchodwr plant nawr, ond buasai'n well gen i iddo fod yn ôl yn y clwb wedi'r ysgol nawr fod COVID-19 'drosodd'".*

*“Ychydig o ddewisiadau wedi’r ysgol sydd yn ysgol fy mhlentyn... a bu’n rhaid i mi wrthod swyddi am nad oedd modd i mi ddod o hyd i ofal plant addas”.*

*“Mae ein hysgol wedi rhoi’r gorau i ofal plant wedi’r ysgol ...”.*

Dylai’r awdurdod lleol felly barhau â’i bolisi o fonitro’r graddau y mae hyn yn digwydd yn 2022-2023 (yn enwedig yn ardaloedd gwledig y sir) – **ac sy’n cynrychioli bwlch digonoldeb** – nawr fod y cyfyngiadau cysylltiedig â phandemig COVID-19 yn parhau i gael eu llacio.

- 2 Yr oedd 22% o’r rhieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn Hydref 2021 ynghylch a oedd gofal plant yn rhwystr iddynt gymryd gwaith neu hyfforddiant wedi dynodi: *Tueddu i Gytuno*. Hefyd, (unwaith eto) dywedodd 22% o’r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: *Cytuno’n Gryf*.

**Dengys hyn fod 44% o’r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn credu – i raddau – fod gofal plant, rywbyrd yn ddiweddar, wedi bod yn rhwystr iddynt fynd at waith neu hyfforddiant.**

I ategu’r adborth hwn, dywedodd 21% o rieni/gofalwyr a ymatebodd, yn y flwyddyn ddiwethaf, fod materion ynghylch gofal plant wedi effeithio ar eu gallu i ‘gymryd swydd newydd’ – a dywedodd 19% o rieni/gofalwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, fod materion ynghylch gofal plant wedi effeithio ar eu gallu hwy neu bartner allu ‘cyrchu hyfforddiant’.

Felly, gellir dod i’r casgliad, i raddau yn y Fro, fod gofal plant addas yn parhau i fod yn her i rai rhieni pan ddaw’n fater o gefnogi eu cyflogadwyedd.

- 3 Y duedd a welwyd amlaf dros y ddwy flynedd a aeth heibio, yr adroddwyd amdano gan ddarparwyr mewn lleoliadau a gwarchodwyr plant oedd bod rhieni eisiau mwy o hyblygrwydd. Yr ail duedd yr adroddwyd amdano amlaf (ac un oedd yn gysylltiedig) oedd cynnydd yn nifer y rhieni oedd eisiau oriau agor estynedig/hwy. Fodd bynnag, mewn ymateb i’r arolwg yn hydref 2021, dim ond 4% o ddarparwyr gofal plant a ymatebodd a ddywedodd fod ganddynt gynlluniau i ymestyn eu horiau agor. Mae’n amlwg fod bwlch yn bodoli gan fod rhai rhieni yn ddelfrydol eisiau oriau agor cynharach ac oriau cau hwyrach, a methu lleoli a chyrchu darpariaeth o’r fath.



## Mathau o ofal plant sydd ar gael

- 4 Ynghylch pwynt 3., dim ond 6% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a ymatebodd a 10% o warchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd a ddywedodd fod ganddynt gynlluniau ar gael dros y 18 mis nesaf i 'ateb anghenion gweithwyr shifft/y sawl sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol' yn well.  
Fodd bynnag, cafwyd swm nodedig o ymateb ansoddol o ganlyniad i'r arolwg rhieni gan Lywodraeth Cymru a ddywedodd (o bosib o ganlyniad i COVID-19) mai cynyddu yr oedd y gofyniad am weithio shifftiau a gweithio y tu allan i oriau traddodiadol 8am-6pm.  
Mae'n bwysig nodi y bydd y sector gwarchod plant (yn ogystal â'r sector gofal plant cofrestredig ehangach) o bosib yn hanfodol i ymdrin â'r angen hwn, o gofio ei allu traddodiadol i gynnig mwy o hyblygrwydd yng nghyswllt amseroedd agor – ac yn 2022, mae 103 o warchodwyr plant o gymharu â 166 yn 2017.
- 5 Dywedodd 1 : 4 o'r holl leoliadau/grwpiau a ymatebodd eu bod wedi gweld aelodau o'u gweithlu yn gadael oherwydd y pandemig, oedd yn amlygu thema sy'n dod i'r golwg ledled Cymru, sef bod cadw a recriwtio yn broblem sy'n cynyddu. Yn wir, ym mhen arall y 'bibell', gellir gweld, yn yr ymgynghoriad yn hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar, fod y mwyafrif, 40%, yn dweud nad oedd ganddynt gynlluniau ar ddiwedd 2021 i recriwtio unrhyw brentisiaid.

(Dylid nodi hefyd, o ran y problemau sy'n effeithio ar weithlu gofal plant y Fro, fod tua 1:4 o holl gynrychiolwyr y darparwyr gofal plant yr ymgynghorwyd â hwy yn hydref 2021 wedi dweud eu bod naill ai hwy eu hunain (gan gynnwys gwarchodwyr plant) neu aelodau o'u tîm/gweithlu wedi cael anawsterau a phroblemau iechyd meddwl pan oedd pandemig COVID-10 ar ei waethaf neu eu bod yn parhau i brofi hyn).

## Oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt

- 6 Yn gynnar yn 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau o ran gwella gallu rhieni a theuluoedd sydd â phlant dwyflwydd oed i gyrchu darpariaeth gofal plant cyffredinol sy'n cael ei gyllido. Er mwyn cwrdd â'r galw posib am hyn yn y dyfodol, dylai Cyngor Bro Morgannwg gadw mewn cof fod: 1. 36% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar wedi dweud fod ganddynt restr aros yn hydref 2021 - a hynny ran amlaf i lefydd i blant dwyflwydd oed; 2. Tuedd a grybwyllwyd dro ar ôl tro gan ddarparwyr gofal plant perthnasol oedd cynnydd yn y galw am lefydd i blant dwyflwydd.

Felly, fe all bwlch digonoldeb godi i blant dwyflwydd wrth i'r rhaglen o lefydd i bob plentyn o'r oed hwnnw ddechrau cael ei chyflwyno ym Medi 2022.

7 Dywedodd 43% o'r rhieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru eu bod yn bwriadu cyrchu *mwy* o ofal plant yn y blynyddoedd i ddod – ac yn amlach na heb, gofal plant y tu allan i'r ysgol oedd hwn. Yn wir, y ddau fath o ofal plant a grybwyllwyd amlaf gan y rhieni perthnasol oedd:

- Clwb Cyn-Ysgol/Brecwast = 49% - o'r rhieni perthnasol
- Clwb Wedi'r Ysgol = 43% - o'r rhieni perthnasol

Fodd bynnag, dywedodd rhieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn Hydref 2021 yn aml ac yn gyson eu bod yn cael anhawster cyrchu gofal cofleidiol oedd yn ofal plant y tu allan i'r ysgol. Felly, gallai hyn awgrymu bod bwlch digonoldeb neu y gallai un ymddangos, yn enwedig wrth i boblogaeth y Fro barhau i gynyddu.

### **Anghenion penodol plant ag ADY**

8 Dywedodd 9% o rieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg o alw gan rieni yn Hydref 2021 fod ganddynt o leiaf un plentyn gyda neu heb ddiagnosis o anghenion dysgu ychwanegol. Gwelwyd o adborth ansoddol o'r arolwg fod llawer o rieni yn dweud ei bod yn her cael a/neu sicrhau gofal plant ffurfiol oedd yn addas a fforddiadwy. Er enghraifft, yr oedd yr adborth yn cynnwys:

*“Mae dod o hyd i ofal am blentyn anabl bron yn amhosib, neu mae'r hyn sydd yno [yn fy mhrofiad i] yn ddrutach. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddibynnu ar hyblygrwydd cyflogwyr a chefnogaeth teulu i'n galluogi ni'n dau i weithio. Mae'n gallu bod yn straenllyd iawn ...”.*

*“Mae fy merch saith mlwydd oed yn 'Awtistig', ac yr wyf yn pryderu am ddod o hyd i ofal addas wedi'r ysgol”.*

*“Mae gen i blentyn hŷn gydag awtistiaeth ac anawsterau dysgu. [Yn fy mhrofiad i] does yna fawr ddim gofal plant i'w gael sydd ar gyfer plant fel fy merch. Mae angen dybryd am ofal cofleidiol i blant mewn ysgolion arbennig. Dylai rhieni plant anabl allu mynd at waith fel pawb arall”.*

*“Dwyf i erioed wedi gallu dod o hyd i ddarparwr gofal plant i edrych ar ôl fy mhlentyn anabl”.*

Hefyd, yn ychwanegol i ymgynghoriad hydref 2021 gyda ddarparwyr gofal plant, dywedodd 71% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar a bron i 50% o warchodwyr plant cofrestredig fod COVID-19 wedi cael effaith ar ddatblygiad blynyddoedd cynnar plant oedd yn dod i’w darpariaeth, gyda’r ymatebwyr yn aml yn dweud y cafwyd effaith andwyol ar iaith a lleferydd plant a/neu eu bod wedi gweld nad oedd rhai plant yn cymdeithasu gyda phlant eraill/wedi gweld mwy o bryder am wahanu.

Er i draean o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar ddweud bod ganddynt gynlluniau i wella mwy ar y ddarpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, dim ond 6% o warchodwyr plant a ddywedodd fod ganddynt gynlluniau o’r fath.

Y casgliad felly yw wrth i nifer y plant ADY gynyddu, rhaid cael amllder cyfatebol o ddarparwyr gofal plant sydd â’r gallu i ddarparu llefydd addas a fforddiadwy i’r plant hyn, i liniaru’r bwlch digonoldeb.

## **Anghenion penodol am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg**

- 9 Mae tuedd i nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal y Fro gynyddu’r gyson o flwyddyn i flwyddyn, fel y mae nifer y rhieni a’r teuluoedd sy’n gofyn am ddarpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 2021, (dim ond) chwech o ddarparwyr gofal plant - tri o ddarparwyr gofal dydd llawn a thri o ddarparwyr gofal dydd sesiynol - a ddywedodd mai Cymraeg oedd prif iaith darparu eu gwasanaeth. Mae’n galonogol fod 41% o’r holl ddarparwyr gofal plant wedi dweud yn hydref 2021 fod ganddynt naill ai gynlluniau pendant i greu mwy o lefydd siarad/cyfrwng Cymraeg neu fod hyn yn rhywbeth y buasent yn ei ystyried; fodd bynnag rhaid i’r awdurdod lleol barhau i fonitro nifer y gallu i gyrchu llefydd gofal plant cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr ag uchelgais teuluoedd penodol.

## **Fforddiadwyedd gofal plant**

- 10 Y rhwystr amlaf i gyrchu gofal plant ffurfiol a amlygwyd gan rieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru oedd bod cost gofal plant wedi eu hatal rhag cyrchu darpariaeth ffurfiol. Felly, rhaid i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Bro Morgannwg **barhau i gyfleu a dosbarthu gwybodaeth am fentrau gofal plant presennol sy’n cael eu cyllido a mentrau newydd** megis: (a) ymestyn y Cynnig Gofal plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant, a rhieni sydd ar absenoldeb mabwysiadu a: (b) y cynnig o ofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed yn ystod y tair blynedd nesaf, o gofio pa mor rhesymegol yw y bydd y ddwy fenter hon o les i deuluoedd penodol Dylai’r awdurdod lleol hefyd ystyried y ffaith fod 32% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar a ymatebodd i’r arolwg ADGP yn hydref 2021 wedi dweud nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau i farchnata bodolaeth Gofal Plant Di-Dreth.

## Lleoliad gofal plant yng nghyswilt poblogaeth, ward a dalgylch ysgol

11 Yn ei hanfod, rhagwelir y bydd poblogaeth y Fro yn **cynyddu** o 6% rhwng 2018 – 2028.

Petai'r ganran hon yn cael ei chymhwyso i boblogaeth y plant 0-4 oed yn 2020, byddai'n golygu tua 430 yn fwy o blant 0-4 oed yn byw yma erbyn 2027-2028, ac o gymhwyso'r ganran hon i boblogaeth y plant 5-14 oed yn 2020, byddai'n golygu tua 965 yn fwy o blant 5-14 oed yn byw yma erbyn 2027-2028. Bydd y cynnydd hwn yn y boblogaeth yn digwydd trwy bod mwy o bobl yn dod i mewn i'r Fro nag sy'n gadael, a datblygiadau tai newydd ar safleoedd mewn Cyfnod 2 datblygiad Glan Môr y Barri, datblygiad Eglwys Brewis yn ward Sain Tathan a'r datblygiad yn y Bont-faen.

Gellir nodi hefyd pan wahoddwyd rhieni/gofalwyr (fel rhan o arolwg rhieni gan Lywodraeth Cymru) i ddweud pa fath(au) o ofal plant yr oeddent yn rhagweld y byddai angen 'mwy ohono' dros y ddwy flynedd ddiwethaf, **yr oedd hyn yn aml am glwb brecwast (64% o rieni perthnasol) neu glwb wedi'r ysgol (58%)** ac efallai y byddai angen i gynllunwyr gofal plant strategiddio er mwyn sicrhau na fydd y cynnydd yn y boblogaeth yn creu bwlch mewn mynediad at y math hwn o ddarpariaeth, mewn ysgolion a chyda darparwyr y sector preifat.

12 Mae ardaloedd daearyddol penodol lle mae poblogaeth gymharol uchel o garfannau o blant. Fodd bynnag mae yma fath cymharol isel o ddarpariaeth gofal plant cofrestredig.

Er enghraifft:

- Mae ward Cadoc yn cyfrif am 655 (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) o blant 0-4 oed – fodd bynnag yn 2022, nid oes dim darparwr gofal dydd llawn na darparwr gofal sesiynol yn y ward
- Mae gan ward Cadoc hefyd 905 (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) o blant 5-11 oed yn byw – fodd bynnag yn 2022, nid oedd unrhyw ofal plant cofrestredig y tu allan i'r ysgol yn y ward<sup>15</sup>
- Mae gan ward Gibbonsdown 717 (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) o blant 5-11 oed yn byw – fodd bynnag yn 2022, nid oedd unrhyw ofal plant cofrestredig y tu allan i'r ysgol yn y ward
- Mae ward Baruc yn cyfrif am 411 (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) o blant 0-4 oed – fodd bynnag yn 2022 (dim ond) 153 lle sydd yn hygyrch gyda darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar cofrestredig yn y ward hon.
- Yn yr un modd, mae ward Butrills yn cyfrif am 425 (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) o blant 0-4 oed – fodd yn 2022 (dim ond) 147 lle sydd yn hygyrch gyda darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar cofrestredig yn y ward hon.

I roi mwy o gyd-destun am y pwyntiau bwled uchod, mae'r Tabl dros y ddalen yn dangos nifer y darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar **a ymatebodd** a ddywedodd fod ganddynt: (a) restr aros (niferoedd) a; (b) lle gwag, fesul ward yn hydref 2021.

---

<sup>15</sup> Dylid nodi, fel un o ddeilliannau'r arolwg gydag ysgolion (gweler t.67), fod 3 ysgol yn yr ardal hon wedi dweud eu bod yn ystyried sut y gallant sefydlu darpariaeth gofal plant (pellach).

Lle nodir d/g mae hyn yn golygu naill ai: (a) nad oes darparwr perthnasol yn y ward hon neu: (b) dim ymateb gan ddarpar- ddarparwr yn y ward.

Ward	<b>Yn ymateb</b> Lleoliadau Gofal Dydd Llawn				Sefyllfa net Rhestrau aros versus Llefydd gwag (hydref 2021)
	Nifer lleoliadau a ddywedodd fod ganddynt restr aros	Nifer plant ar restr aros	Nifer lleoliadau a ddywedodd fod ganddynt le gwag	Nifer llefydd gwag	
Baruc	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Buttrills	2	12	2	12	Dim sefyllfa net
Cadoc	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Castleland	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Cornerswell	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Court	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Y Bontfaen	0	0	2	60	+60 lle gwag
Dinas Powys	0	0	3	86	+86 lle gwag
Dyfan	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Gibbonsdown	1	3	2	11	+8 lle gwag
Illyd	0	0	1	20	+20 lle gwag
Llandochau	2	15	2	15	Dim sefyllfa net
Llandŵ/Ewenni	1	3	1	1	+1 lle ar restr aros
Llanilltud Fawr	0	0	1	d/g	Ni nodwyd nifer y llefydd gwag
Llanbedr y Fro	0	0	0	0	Dim sefyllfa net
Plymouth	0	0	1	15	+15 lle gwag
Y Rhŵs	0	0	1	40	+40 lle gwag
Sain Tathan	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
St. Augustine's	0	0	0	0	Dim sefyllfa net
Saint y Brid	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Stanwell	1	10	0	0	+10 lle ar restr aros
Sili	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Gwenfo	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g

Ward	Yn ymateb Lleoliadau gofal sesiynol				Sefyllfa net Rhestrau aros versus Llefydd gwag (hydref 2021)
	Nifer lleoliadau a ddywedodd fod ganddynt restr aros	Nifer plant ar restr aros	Nifer lleoliadau a ddywedodd fod ganddynt le gwag	Nifer llefydd gwag	
Baruc	1	61	1	10	+51 lle ar restr aros
Buttrills	0	0	1	5	+5 lle gwag
Cadoc	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Castleland	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Cornerswell	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Court	1	10	1	11	+1 lle gwag
Y Bontfaen	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Dinas Powys	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Dyfan	1	10	0	0	+10 lle ar restr aros
Gibbonsdown	0	0	1	12	+12 lle gwag
Illtyd	0	0	1	12	(fel gyda Gibbonsdown) +12 lle gwag
Llandochoau	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Llandŵ/Ewenni	0	0	1	5	+5 lle gwag
Llanilltud Fawr	1	5	1	4	+1 lle ar restr aros
Llanbedr y Fro	0	0	0	0	Dim sefyllfa net
Plymouth	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Y Rhŵs	0	0	1	12	+12 lle gwag
Sain Tathan	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
St. Augustine's	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Saint y Brid	0	0	2	33	+33 lle gwag
Stanwell	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g
Sili	1	6	1	6	Dim sefyllfa net
Gwenfo	1	4	0	0	+4 lle ar restr aros

## 14 Crynodeb o Anghenion Nas Diwallwyd

Ein cred ni yw bod Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Bro Morgannwg 2022 wedi dangos sut mae sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yr ardal wedi dangos gwydnwch clodwiw ei hun yn wyneb yr heriau a grëwyd gan COVID-19. Dangoswyd hyn yn yr adran sydd wedi dadansoddi Cynaliadwyedd (Adran 8).

Fodd bynnag, gellir dod i'r casgliad bod rhywfaint o angen nas diwallwyd, y gallai fod angen i gynllunwyr gofal plant yng Nghyngor Bro Morgannwg a'u partneriaid fynd i'r afael ag ef yn eu Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant.

Yn gyntaf, un o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn yn 2022 fu'r dystiolaeth bod diffyg gofal plant addas wedi effeithio ar tua 45% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru, o ran eu: (a) cyflogadwyedd neu; (b) eu gallu i gael hyfforddiant neu gyfnod astudio. Gellir gwerthuso'r ganran hon a'i hystyried yn unol â'r ffaith, pan lansiwyd yr arolwg hwn ac y daeth yr ymatebion i law, fod y genedl yn dod allan o drydydd cyfnod clo a'r anawsterau a achoswyd i deuluoedd gan effeithiau COVID-19. Gallai'r heriau hyn fod wedi golygu bod darparwyr gofal plant yn llai abl i gefnogi gyda chyflogadwyedd nag a fyddai wedi digwydd fel arall, gan gynnwys o ran eu hygyrchedd a'u hamseroedd/oriau agor. Mae wedi bod yn amlwg, o'r adborth a ddarparwyd gan rai rhieni, fod normaleiddio hygyrchedd darpariaethau gofal plant wedi dychwelyd i wahanol raddau, yn enwedig o ran rhai darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol yn adfer eu horiau agor cyn COVID-19. Mae nifer o rieni wedi amlinellu sut y cawsant broblemau gyda'u harferion gwaith yn 2021 oherwydd bod oriau agor clybiau brechwast yn hwyrach nag yr oeddent cyn COVID-19 ac ar ben arall y diwrnod gwaith bod oriau cau clybiau ar ôl ysgol **yn yr ysgol** ar amseroedd a oedd yn achosi anghyfleustra iddynt. Felly, gellir ystyried bod bwlch digonolrwydd amlwg (tymor byr mae'n debyg) sy'n dal i barhau o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19 pan edrychir ar ffactor(au) amser(oedd) (agor) . Mae'r thema hon yn ffactor allweddol i'r awdurdod lleol ei fonitro o safbwynt bod gofal plant yn hygyrch ar amseroedd digonol.

Yn unol â'r mater amlwg hwn, mae'r ddau riant a ymatebodd i arolwg galw rhieni Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal plant ym mis Hydref 2021 wedi cysoni adborth sy'n cyd-fynd â sylw bod gofyn am fwy o hyblygrwydd wedi/yn cael ei wneud o ran hygyrchedd gofal plant ffurfiol. Mae adborth rhieni wedi dangos bod y 'ffactor hyblygrwydd' hwn wedi deillio'n rhannol o COVID-19 pan oeddent yn gweithio gartref i raddau helaethach ac efallai nad oedd angen gofal plant ffurfiol llawn/5 diwrnod yr wythnos arnynt fel y bu ei angen o'r blaen. Gellir ystyried, os bydd y duedd hon yn parhau, efallai y bydd angen i sector gofal plant Bro Morgannwg fod yn fwy ymatebol ac addasu i'r galw gan rieni, unwaith eto wedi'i alinio i amseroedd. Er y dylid hefyd ystyried y gallai dyfodiad lleoedd cyffredinol i blant 2 flwydd oed wrthweithio dymuniad rhai rhieni a gofalwyr sydd am gael math hyblyg o gymorth.



Gan ganolbwyntio eto ar angen nas diwallwyd, roedd swm nodedig o adborth ansoddol, o ganlyniad i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru, (o bosibl o ganlyniad i COVID-19) bod nifer yr achosion o weithio shifftiau a gweithio y tu allan i oriau traddodiadol 8am-6pm ar gynnydd.

Mae'n bwysig nodi y bydd y sector gwarchod plant yn hanfodol i fynd i'r afael â'r angen hwn a gwelwyd y math hwn o ofal plant gweithiwr proffesiynol (ac mae hyn yn duedd ar draws y wlad) yn gostwng, gan gynnwys o ganlyniad i rai gwarchodwyr plant gael profiadau heriol (gan gynnwys o ran eu hiechyd meddwl a'u lles) yn ystod pandemig COVID-19 ac felly'n penderfynu gadael y sector.

Mae hyn hefyd yn cysylltu â phroblem gysylltiedig: recriwtio a chadw staff o fewn y proffesiwn a'r gweithlu ehangach. Dywedodd nifer gymharol uchel o ddarparwyr gofal plant mewn lleoliadau, o'r sector blynyddoedd cynnar a'r sector y tu allan i'r ysgol, fod staff/aelodau'r tîm wedi gadael eu lleoliad o ganlyniad i COVID-19, am amryw o resymau. Er bod y defnydd ar leoliadau gofal plant wedi dangos arwyddion o ailfywiogi, mae gallu perchnogion gofal dydd i 'lenwi' swyddi gwag, a chadw staff, wedi dangos arwyddion o ddirywiad. Gallai hyn fod yn broblem o ran digonolrwydd gwirioneddol, yn enwedig gan fod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau uchelgeisiol i ymestyn hygyrchedd gofal plant i fwy o deuluoedd, gan gynnwys drwy ei rhaglen arfaethedig i hwyluso gofal plant dyflwydd oed a ariennir i bawb. Yn y pen draw, os bydd sector gofal plant y Fro yn parhau i brofi problem eang o ran recriwtio a chadw staff, yna bydd hyn yn naturiol yn effeithio ar gymarebau lleoliadau a'i allu i weithredu ar ei orau – a *bydd* gallu ar y cyd i'r sector weithredu i'r graddau hyn fod yn ofynnol er mwyn cyflawni'n effeithiol y dyhead lleol sydd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd yn amlwg bod nifer yr achosion o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n byw yn y Fro – fel gydag ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru – wedi bod yn cynyddu, amllder sydd wedi'i gysylltu â chanlyniadau pandemig COVID-19 pan oedd llawer o blant wedi'u hynysu ac effeithiwyd ar eu datblygiad cynnar. Fel nad yw hyn yn cynyddu i angen nas diwallwyd mwy amlwg, dylai'r Awdurdod Lleol barhau i gyfeirio ei sector blynyddoedd cynnar a gofal plant at elfennau allweddol y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r agenda drawsnewid gysylltiedig.

Ceir tystiolaeth hefyd o dwf graddol - ond twf pendant – yn nifer y (a dymuniad i fod yn) siaradwyr Cymraeg yn y Fro a rhaid ystyried y ffaith hon yng nghyd-destun y dirwedd bresennol sef mai dim ond chwe darparwr gofal plant yn y Fro: tri darparwr gofal sesiynol a thri darparwr gofal dydd llawn, sydd yn darparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf a phenodol.

Mae pwynt olaf yn ymwneud ag angen nas diwallwyd *posib*. Mae rhai datblygiadau tai mawr i fod i gael eu cychwyn a'u codi yn y Fro, yn enwedig datblygiad Glannau'r Barri. Wrth i gamau'r datblygiad hwn barhau ac wrth i anheddau newydd gael eu meddiannu, mae'n realistig iawn y bydd teuluoedd newydd yn symud i mewn ac yn eu meddiannu. Gallai'r pwysau ar gyfer lleoedd gofal plant yn y blynyddoedd cynnar a'r tu allan i'r ysgol yn y dref dyfu'n amlwg o ganlyniad.

## 15 Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant

15.1 Gwahoddodd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn 2021 ei chynulleidfa darged i roi adborth am unrhyw rwystrau yr oeddent wedi dod ar eu traws o ran cyrchu y gofal plant *o'u dewis*. Crynhoir adborth cyfunol y rhieni/gofalwyr yn Nhabl 45 isod.

Tabl 45 - amllder y rhesymau a nodwyd ynghylch pam nad oedd rhiant/gofalwr yn cyrchu/derbyn cymorth gyda gofal plant yn hydref 2021

Rhesymau/Rhwysterau	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Plentyn ar restr aros darparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael	0
Nid oes gofal plant o ansawdd digonol	3.5%
Nid oes darpariaeth Gymraeg addas	2%
Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg	0
Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion	7%
Mae cost gofal plant yn rhy ddrud	14.5%
Mae amseroedd gofal plant yn anaddas	5%
Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhientyn	5%
Mae problem gyda thrafnidiaeth	1.5%
Nid oes gofal plant lle mae ei angen arnaf i fod	4%
Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhientyn	3%
Dim ond ar sail ad hoc rydw i'n defnyddio gofal plant ac mae'n amhosibl cynllunio	4%
Arall	2%

Amlinellwyd dadansoddiad bras o Dabl 45 yn Adran 6 o'r ADGP hwn, gweler tudalen 41. Roedd hwn yn nodi, pan amlygwyd rhwystr, mai ar y mwyaf dim ond tua 1:6 o rieni neu ofalwyr a'i nododd. Mae gwaith craffu pellach ar y data meintioliol a gynhyrchwyd gan arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn dangos:

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan rieni sy'n gweithio oedd (yn nhrefn amllder):

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 13.5% o rieni perthnasol)
2. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion (5%)
3. Mae amseroedd gofal plant yn anaddas (5%)

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan rieni a oedd yn amlwg yn chwilio am waith neu hyfforddiant oedd:

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 29% o rieni perthnasol)
2. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion (22%)
3. Mae problem gyda thrafnidiaeth (15%)

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan rieni a oedd yn astudio neu'n hyfforddi oedd:

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 17% o rieni perthnasol)
2. Mae amseroedd gofal plant yn anaddas (12%)
3. Nid oes gofal plant o ansawdd digonol (9%)

Dwedodd 37.5% o'r ymatebwyr a nododd fod eu henillion wythnosol yn is na £150.00 hefyd mai un o'r prif rwystrau oedd: nad oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn

Y ddau rwystr mynych a adroddwyd gan rieni unigol/sengl oedd: mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan bron i 1:5 o rieni perthnasol), a'r un mor aml: nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn.

Yn olaf, y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan ofalwyr plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol oedd:

1. Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn (27% o rieni perthnasol)
2. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 17% o rieni perthnasol)
3. Nid oes gofal plant gydag ansawdd digonol (a nodwyd gan 15% o rieni perthnasol)

- 15.2 Roedd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru hefyd yn gwahodd rhieni a gofalwyr i ddarparu adborth *ansoddol* am eu profiadau gofal plant, lefelau boddhad ac unrhyw rwystrau yr oeddent wedi'u profi, neu yn parhau i'w profi.

O ran y thema rhwystrau i gyrchu gofal plant ffurfiol ym mis Hydref 2021 - y math mwyaf cyffredin o adborth oedd (geiriau i'r perwyl) "*nid yw fy ngofal plant allysgol wedi mynd yn ôl i 'normal' ar ôl y pandemig*".

Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, yn cynnwys:

*"Daeth fy nghlwb ar ôl ysgol i ben yn ein hysgol gynradd yn ystod COVID-19 ac nid yw wedi ail-ddechrau"*.

*"Nid yw ein clwb ar ôl ysgol wedi ailagor ers y pandemig ond mae'n rhaid i mi fynd yn ôl i'r swyddfa ar gyfer fy ngwaith, sy'n golygu bod yn rhaid i mi ddibynnu ar ffrindiau sydd hefyd ag anawsterau"*.

*"Roedd problemau mawr gen i pan gaeodd y clwb ar ôl ysgol. Rwyf bellach yn defnyddio gwarchodwr plant ond byddai'n well gennyf pe bai'n ôl yn y clwb ar ôl ysgol gan fod COVID-19 bellach 'drosodd'"*.

*"Mae yna opsiynau ar ôl ysgol cyfyngedig yn ysgol fy mhlentyn... ac rwy' wedi gorfod gwrthod swyddi gan na allwn ddod o hyd i ofal plant addas"*.

*"Mae ein hysgol wedi rhoi'r gorau i ofal plant ar ôl ysgol..."*.

*"Bellach does 0 darpariaeth gofal plant yn ein hysgol ers COVID-19 ac felly dim ond 'gofal preifat' sydd ar gael"*

Yr ail fath mwyaf cyffredin o adborth oedd (geiriau i'r perwyl) "*Rwy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant addas ar gyfer fy mhlentyn ag anghenion dysgu ychwanegol*".

Mae adborth penodol ar y thema hon, ym mis Hydref 2021, yn cynnwys:

*"Mae gan fy mhlentyn hynaf awtistiaeth, ac mae'n ei gwneud yn anodd iawn dod o hyd i ofal plant oherwydd ei anghenion penodol"*.

*"Mae dod o hyd i ofal ar gyfer plentyn anabl bron yn amhosibl, neu mae'r hyn sydd yno [yn fy mhrofiad i] yn ddrutach. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddiybennu ar hyblygrwydd cyflogwyr a chymorth i deuluoedd i'n galluogi ni i weithio. Gall fod yn straen mawr. Rydym yn derbyn 3 awr o ofal plant yr wythnos drwy'r Cyngor, ond cymerodd hyn fisoedd i'w drefnu ac roedd yn hynod o streslyd".*

*"Mae gen i blentyn anabl sy'n mynychu ysgol arbennig ac wedi cael nifer o ddarparwyr gofal plant. Mae wedi setlo gyda'r darparwr gofal plant presennol ers nifer o flynyddoedd ond mae cludiant i'r ysgol bellach yn gwrthod gollwng fy mhlentyn gyda'r darparwr gofal plant, dim ond ei ollwng adref. Rwy'n gweithio'n llawn amser ac ni allaf ddatrys y mater hwn felly mae'n edrych fel y bydd yn rhaid i mi roi'r gorau i'm swydd!"*

*"Mae fy merch saith oed yn Awtistig, ac rwy'n poeni am ddod o hyd i ofal priodol ar ôl ysgol".*

*"Mae gen i blentyn hŷn sydd ag awtistiaeth ac anawsterau dysgu. [Yn fy mhrofiad i] ychydig iawn o ofal plant sydd o gwmpas sy'n darparu ar gyfer plant fel fy merch. Mae taer angen gofal cofleidiol i blant mewn ysgolion arbennig. Dylid caniatáu i rieni plant anabl allu cyrchu gwaith fel unrhyw un arall".*

*"Dwi erioed wedi gallu dod o hyd i ddarparwr gofal plant i ofalu am fy mhlentyn anabl".*

Y trydydd math mwyaf cyffredin o adborth oedd (geiriau i'r perwyl) *"Rwy'n ei chael hi'n anodd cael gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol"*.

Roedd adborth penodol ar y thema hon, ym mis Hydref 2021, yn cynnwys:

*"Fel y nodwyd yn flaenorol, cyn COVID-19, cynhaliai fy ysgol Gymraeg leol gynllun gofal gwyliau (yr Urdd) a oedd yn rhedeg y rhan fwyaf o ddiwrnodau yn ystod y gwyliau, 4 allan o 6 wythnos o wyliau'r haf. Roedd hyn yn golygu y gallwn barhau i weithio yn ystod y gwyliau heb unrhyw darfu. Fodd bynnag, ers COVID-19 nid yw'r ddarpariaeth hon wedi dychwelyd ac mae'r URDD bellach yn cynnal ychydig o sesiynau 'yma ac acw' yn ystod y gwyliau, sy'n golygu bod yn rhaid i'm plant aros gartref tra fy mod yn gweithio sydd ymhell o fod yn ddelfrydol gan fy mod yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn brysur iawn".*

*"Mae gofal plant yn ystod y gwyliau yn anodd... does 0 darpariaeth diwrnod llawn ar gael yn yr ardal mwyach".*

*"Rwy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant yn ystod y gwyliau yn ystod hanner tymor a gwyliau'r haf. Mae naill ai'n rhy ddrud, neu [yn fy mhrofiad i] ddim cystal â hynny".*

*"Mae'n anodd yn ystod y gwyliau i ddod o hyd i glybiau a fydd yn caniatáu i blentyn pump oed ymuno â'r un clwb â brawd neu chwaer hŷn. Mae hyn wedyn yn golygu eu gwahanu a gwneud dau ollyngiad yn y bore a dau gasgliad yn ystod diwrnodau gwaith" – ac yn yr un modd:*

*"Nid yw fy mhlant yn dda gyda newid felly mae'r ffaith fod y ddau ohonynt yn gorfod mynd i leoliad gwahanol yn ystod y gwyliau, yn enwedig gwyliau'r haf, yn anodd iawn iddyn nhw".*

*Mae gwyliau'r ysgol yn hunllef... mae clybiau gwyliau yn brin iawn... ac angen dechrau'n gynnar ar gyfer ein swyddi".*

*"Yn fy mhrofiad i, prin iawn yw'r dewis ar gyfer gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r hyn a ddefnyddiwn yn ddrud ac nid yw'n ddigon hyblyg...*

*Bydd angen gofal plant yn ystod y gwyliau ar fy mhlant yn fuan ac nid wyf yn siŵr sut y bydd yn bosibl, yn ariannol".*

*Pedwerydd math o adborth a glywyd sawl gwaith oedd (geiriau i'r perwyl) "Rwy'n cael trafferth dod o hyd i ofal plant oherwydd fy oriau shifftiau".*

*Mae adborth penodol ar y thema hon, ym mis Hydref 2021, yn cynnwys:*

*"Rydw i a fy ngŵr yn gweithio sifftiau ac mae'r ddau ohonom yn gweithio ar benwythnosau. Mae'n anodd iawn dod o hyd i 'rywun' a fydd yn darparu ar gyfer hyn".*

*Mae dod o hyd i ofal plant ar gyfer gwaith shifft yn anodd iawn".*

*"Roedd dod o hyd i ofal plant hyblyg i gyd-fynd â newid amseroedd a diwrnodau shifftiau yn rhy heriol".*

*"Fe wnes i alw dros 45 o ddarparwyr gofal plant ar draws y fro a Chaerdydd yn amrywio o feithrinfeydd preifat i warchodwyr plant. Nid oedd un darparwr a allai ddarparu ar gyfer fy mhattrwm gwaith shifftiau o 'bedwar diwrnod gweithio – pedwar diwrnod off' - er fy mod yn gallu dweud wrthynt fisoedd ymlaen llaw pa bryd y byddai eu hangen arnaf. Mae meithrinfeydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn darparu ar gyfer fy nghydweithwyr gyda'u patrymau shifft, ond mae'n rhy bell i mi deithio a chasglu".*

*"Mae wedi bod yn anodd dod o hyd i ofal plant o gwmpas yr amseroedd a'r dyddiau sydd eu hangen arnom. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant yn gofyn i chi gadw at yr un diwrnodau bob wythnos, ond pan nad ydych yn gweithio'r un diwrnodau bob wythnos mae'n anodd... nid oes hyblygrwydd i weithwyr shifft".*

*"Roedd yn anodd dod o hyd i ofal plant a oedd yn hyblyg ac nad oedd yn eithriadol o ddrud ar gyfer fy shifftiau gyda'r GIG" – ac yn yr un modd:*

*"Mae'r ddau ohonom yn gweithio ym maes gofal iechyd sy'n golygu diwrnodau gwaith hir i'r ddau ohonom... fodd bynnag, nid yw'r meithrinfeydd yn darparu ar gyfer ein horiau hir.*

*Mae'r feithrinfa'n cau am 6.00pm sy'n golygu gadael ein shifftiau'n gynnar i gasglu'r plant. Ni allwn ychwaith fforddio rhoi ein plant yn y feithrinfa'n llawn amser oherwydd y gost uchel".*

*"Rydw i a fy mhartner yn gweithio shifftiau ac mae dod o hyd i ofal plant sy'n gweithio o gwmpas hynny yn anodd".*

*"Mae ein hamserlenni yn anrhagweladwy... rydym yn aml yn gweithio yn ystod y dydd a hefyd llawer o benwythnosau a nosweithiau. Gan weithio ar benwythnosau a gyda'r nos, yr unig ddewis a gawn yw gwarchodwyr sy'n codi tâl fesul awr, felly bydd shifft nos yn y gwaith yn costio mwy na £50... a diwrnod cyfan ar benwythnos £80. Nid oes gennym deulu gerllaw ac mae gofyn i ffrindiau fynd â'n plant ifanc ar Ddydd Sadwrn neu Sul cyfan allan o'r cwestiwn. Nid oes dim cymorth o gwbl gan y llywodraeth i bobl fel ni. Rhaid cael opsiynau ar gyfer pobl sy'n gweithio oriau gwahanol!".*

*"Mae fy ngŵr yn gweithio shifftiau sy'n anodd gweithio o'u cwmpas. Mae diffyg cyfleusterau gofal plant ac mae ein teulu'n byw 100 milltir i ffwrdd".*

*Pumed math o adborth a ailadroddwyd oedd (geiriau i'r perwyl) "Rwy'n cael heriau wrth ddod o hyd i ofal plant addas cyn ysgol [h.y. clwb brecwast]".*

Mae adborth penodol ar y thema hon, ym mis Hydref 2021, yn cynnwys:

*"Mae'n rhaid i mi adael ar gyfer gwaith erbyn 7.30am ac ar hyn o bryd y cyfan y mae'r ysgol yn gynnig yw clwb brecwast o 8am".*

*"Roedd fy nghlwb brecwast yn arfer helpu gydag 'amser ehangach' i blant gael eu gollwng... roedd hyn yn caniatáu i'm mam ollwng fy mab i yno ar y ffordd i'w gwaith a'i gasglu. Mae hyn bellach wedi newid ac er, ar hyn o bryd, nad yw ymweliadau swyddfa'n digwydd yn aml oherwydd y pandemig - pan fydd hyn yn newid byddwn yn sownd".*

*"Mae'r slotiau gollwng ar gyfer clwb brecwast yn arbennig yn fach iawn - dim ond ffenestr 5 munud. Nid yw pob cyflogwr yn hyblyg/gallu bod yn hyblyg!"*

*"Rwy' ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd ond bydd angen gofal plant arnaf ar gyfer fy nau blentyn o fis Ebrill ymlaen. Rwy'n addysgu ac mae angen i mi adael am 7am. Fodd bynnag, nid oes dim ar gael sy'n dechrau mor gynnar â hynny – yn lleol".*

*"Dwi angen gofal plant i ddechrau'n gynt. Fel gweithiwr iechyd proffesiynol rwy'n dechrau gweithio am 8am a [yn fy mhrofiad i] mae'n anodd iawn dod o hyd i ofal plant o 7.30am".*

*"Mae ein hysgol wedi rhoi'r gorau i'w chlwb brecwast ers y pandemig ac nid oes ganddi glwb ar ôl ysgol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweithio'r oriau sydd yn ofynnol gan fy nghyflogwr" – ac yn yr un modd:*

*"Fe wnaeth yr ysgol atal y clwb ar ôl ysgol a'r clwb brecwast oherwydd COVID-19 ac nid oedd yn dymuno ail-ddechrau'r clwb ar ôl ysgol. Roedd hyn yn golygu newid patrymau gwaith a dod o hyd i opsiynau eraill a chymorth teuluol".*



## 16 Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu

Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno adborth a dderbyniwyd drwy'r ymatebion i'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (DHG) fis Gorffennaf 2021 gan ddarparwyr gofal plant yn ardal leol Bro Morgannwg a chanlyniadau arolwg hydref 2021 gyda'r un rhanddeiliaid/darparwyr.

Mae'n canolbwyntio ar y canlynol: (a) gofal plant ardal Bro Morgannwg a gweithlu'r blynyddoedd cynnar; (b) eu hanghenion hyfforddi canfyddedig, gan gynnwys y rhai sy'n cyd-fynd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ac sy'n canolbwyntio ar themâu gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae a dysgu, meithrin a llesiant, ymddygiad, cynnal a rheoli'r gwasanaeth, cyfle cyfartal ac amddiffyn plant.

16.1 Fel rhan o'r arolwg Cyngor Bro Morgannwg hydref 2021 gyda gofal plant blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant allysgol, gwahoddwyd cynrychiolwyr i roi adborth ar faint o staff oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd?

- Nifer cyfartalog yr amser llawn a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar oedd 5.
- Nifer cyfartalog yr amser llawn a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant allysgol oedd 1.5.
- Nifer cyfartalog o weithwyr rhan-amser a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar oedd 6.5.
- Nifer cyfartalog y rhai rhan-amser a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant allysgol oedd 11.

16.2 Gofynnodd yr arolwg i ddarparwyr gofal plant mewn lleoliad am adborth ar sut roedd COVID-19 wedi effeithio ar recriwtio a chadw staff/gweithwyr proffesiynol gan gynnwys (fel y disgwylid) o ran eu lleoliad hwy eu hunain.

Nododd 26% o'r holl ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a ddarparwyr gofal plant allysgol eu bod wedi gweld nifer o'u staff yn penderfynu gadael eu lleoliad yn ystod y 12 mis diwethaf, **fel canlyniad uniongyrchol i COVID-19.**

Ar draws yr holl ymatebwyr perthnasol, roedd hyn yn gyfanswm o 30 aelod o staff/gweithwyr gofal plant proffesiynol – gydag 11 lleoliad yn nodi eu bod wedi *colli 20 aelod o staff oherwydd COVID-19.*

Roedd yr adborth a gafwyd gan ymatebwyr ar y sectorau yr oeddent wedi 'colli staff' iddynt yn cynnwys:

(Yn fwyaf aml, geiriau i'r perwyl) *"hyd eithaf fy ngwybodaeth, mae'r person bellach yn ddi-waith".*

*"Roedd un o'm staff yn Arweinydd Tîm, ond oherwydd COVID-19 roedd hyn yn ormod o straen a gadawodd i fynd i leoliad gofal plant arall ond fel cynorthwydd **nysio** yn hytrach nag Arweinydd Tîm".*

*"Ges i aelod o staff yn gadael oherwydd COVID-19 am ei bod hi'n orbryderus iawn. Dydy hi ddim yn gweithio nawr".*

*"Aeth y sawl a adawodd i [weithio i] Tracio ac Orlhain... gwnaethom secondio 2 aelod o staff yno pan oedd llai o alw gennym, ac roedd yn gweddu'n well i'w bywyd cartref a'u hanghenion gofal plant eu hunain".*

*"Aeth dau 'ymadawr' i weithio mewn archfarchnadoedd ac un i weithio mewn ysgol ADY".*

*Cafodd "'rhai' eu 'potsio' gan feithrinfeydd cyfagos, manwerthu a chan ysgolion cynradd lleol".*

- 16.3 Roedd arolwg hydref 2021 gyda gofal plant blynyddoedd cynnar a lleoliadau/darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol yn gwahodd ymatebwyr i nodi pa mor ymwybodol a datblygedig oedd eu lleoliad yn eu barn nhw o ran y rhaglen drawsnewid ADY a (ei fod yn helpu gyda) creu system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol?

Dwedodd 5% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: eu bod wedi gwneud 0 cynnydd yn y maes hwn

Dwedodd 8% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol yn y maes hwn

Dwedodd 60% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: rydym yn gwneud cynnydd, ond mae gennym waith i'w wneud o hyd

Dwedodd 11% o ddarparwr gofal plant y blynyddoedd cynnar: Dwi ddim yn gwybod beth yw'r rhaglen trawsnewid ADY

Ni roddodd 16% unrhyw ymateb

Dwedodd 25% o ddarparwyr gofal plant allysgol: eu bod wedi gwneud 0 cynnydd yn y maes hwn

Dywedodd 0 o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol: rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol yn y maes hwn

Dywedodd 42% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol: rydym yn gwneud cynnydd, ond mae gennym waith i'w wneud o hyd

Dwedodd 17% o ddarparwr gofal plant allysgol: Dwi ddim yn gwybod beth yw'r rhaglen trawsnewid ADY

Ni roddodd 16% unrhyw ymateb

16.4 Ceisiodd arolwg gofal plant y blynyddoedd cynnar, lleoliadau/darparwyr gofal plant allysgol a gwarchodwyr plant hydref 2021 ganfod o ble/pa ddarparwyr/sefydliadau yr oeddent wedi cyrchu a derbyn hyfforddiant ganddynt yn ystod y 3 blynedd diwethaf?

Y saith ffynhonnell fwyaf rheolaidd a nodwyd oedd – yn nhrefn amllder:

1. Cyngor Bro Morgannwg
2. PACEY Cymru
3. Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
4. Act training: <https://www.acttraining.org.uk/>
5. Cyrsiau hyfforddi ar-lein FAST
6. Dechrau'n Deg
7. High Speed Training: <https://www.highspeedtraining.co.uk/>

16.5 Hefyd ar thema hyfforddiant, amlygodd ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth DHG Gorffennaf 2021 fod:

- 47% o ddarparwyr gofal plant (pob math) wedi dweud eu bod wedi cynnig/trefnu llai o hyfforddiant i'w staff o ganlyniad i COVID-19 (o'r ymatebwyr hyn, dywedodd tri fod diffyg staff cyflenwi hefyd wedi effeithio ar hyn)
- Dywedodd 0 darparwr gofal plant eu bod wedi cynnig/trefnu *rhagor* o hyfforddiant i'w staff o ganlyniad i COVID-19.

Yn ogystal, gwahoddodd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth DHG ddarparwyr gofal plant i ymateb i'r cwestiwn canlynol: *A oes gennych fynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnoch ar hyn o bryd?* Dwedodd 94% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd: Oes.

Yn olaf, fel rhan o broses Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth DHG, gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant: *Ydych chi wedi gallu cael mynediad at hyfforddiant Rheoli Atal Heintiau (RhAH/IPC) penodol?* Yn yr ymatebion, nododd 57% o ddarparwyr gofal plant 'do' a 43% yn nodi 'naddo'.

16.6 Sefydlodd arolwg Cyngor Bro Morgannwg hydref 2021 gyda gofal plant y blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant allysgol nifer y prentisiaid gyrfa gofal plant a oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ledled yr ardal.

Dwedodd 32% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar a ymatebodd a darparwyr/lleoliadau gofal plant allysgol eu bod yn cyflogi o leiaf un prentis yn eu lleoliad - a'r nifer cyfartalog o brentisiaid a gyflogwyd ar draws yr holl ddarpariaethau perthnasol oedd 1.375.

Dwedodd 16% a ymatebodd o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant allysgol nad oeddent yn cyflogi unrhyw brentisiaid gofal plant ar hyn o bryd *ond eu bod* bwriadu recriwtio i rôl(au) o'r fath yn y dyfodol agos; Dywedodd 52% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a ymatebodd a darparwyr gofal plant allysgol **nad oedd unrhyw gynlluniau i recriwtio prentisiaid ganddynt ar hyn o bryd.**

- 16.7 Yn olaf, nodwyd yn arolwg hydref 2021 gyda darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a gwarchodwyr plant cofrestredig bod 66% o'r cynrychiolwyr wedi dweud eu bod yn ymwybodol bod y Cynnig Gofal Plant yn symud i system wahanol – o ran prosesu ceisiadau rhieni a thaliadau i ddarparwyr lleoedd Cynnig Gofal Plant.

## 17 Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu

**Argymhelliad 1: Rhoi cyngor, canllawiau a gwybodaeth ariannol i rieni/gofalwyr sy'n dychwelyd i waith neu'n aros mewn gwaith a'r sawl sy'n chwilio am gyfleoedd i hyfforddi:**

Dylai swyddogion Cyngor Bro Morgannwg, ynghyd â phartneriaid proffesiynol cyflogadwyedd, barhau i weithio mewn partneriaeth i ymdrin â chefnogaeth ariannol i rieni a gofalwyr lleol, a'i fonitro.

Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen Allweddol	Deilliannau Targed	Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL)
<p>Dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau i roi blaenoriaeth i weithio'n fewnol a chyda gweithwyr proffesiynol HWB cyflogadwyedd megis yr AGPh, Canolfan Byd Gwaith a PaCE.</p> <p>Byddai agwedd strategol gyfun, sy'n parhau i sicrhau bod rhieni/gofalwyr sydd eisiau mynd neu ddychwelyd i'r gweithle yn ymwybodol o sut a lle y gallant fynd at gefnogaeth a chyngor, a'u bod yn ymwybodol o fathau ariannol o gefnogaeth, gan gynnwys Gofal Plant Di-Dreth, y Cynnig Gofal plant (a gaiff ei ymestyn) a chyflwyno gofal plant cyffredinol i blant dwyflwydd oed yn hydref 2022. Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i hyrwyddo gwasanaethau a chefnogaeth berthnasol (gan gynnwys math ariannol) sydd ar gael i blant a'u teuluoedd.</p>	<p>Debbie Maule</p> <p>Becky Wickett (GGD)</p> <p>Partneriaid PaCE</p> <p>AGPh a Chanolfan Byd Gwaith</p>	<p>Ebrill 2022- Mawrth 2023</p>	<p>Mae partneriaid fel yr AGPh a gweithwyr proffesiynol cyflogadwyedd yn rhoi adborth strwythuredig os bydd lleihad mewn gofal plant yn effeithio ar gyflogadwyedd.</p> <p>Mae agwedd bartneriaeth amlwg hefyd at <b>gyflogadwyedd a gofal plant</b> sy'n dwyn i mewn holl swyddogion perthnasol awdurdod lleol Bro Morgannwg a phartneriaid allanol i hyrwyddo'r mentrau hyn trwy lwyfannau/sianeli cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Gall rhieni sydd mewn addysg a hyfforddiant yn awr gyrchu llefydd gofal plant taledig a bydd hyn yn gwella'r thema cyflogadwyedd.</p> <p>Bydd nifer yr ymholiadau i GGD am ofal plant taledig a ffurfiau ariannol o ofal plant wedi cynyddu</p>	<p><b>UCHEL</b></p>

## Argymhelliad 2: Dull gofal plant hyblyg

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i fonitro amseroedd agor a chau darparwyr gofal plant ynghyd â chyfleoedd am 'hyblygrwydd' sy'n darparu ar gyfer patrymau gwaith teuluoedd Bro Morgannwg, gan ganolbwyntio ar amseroedd agor yn gynnar yn y bore ym mhob lleoliad gofal plant

Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen Allweddol	Deilliannau Targed	Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL)
<p>Dylai swyddogion perthnasol Cyngor Bro Morgannwg a'r GGD barhau i fonitro i ba raddau y mae amseroedd agor clybiau brecwast/cyn-ysgol – gan gynnwys rhai mewn ysgolion – yn dychwelyd i'r amseroedd normal wrth i'r ardal barhau i ddod allan o gyfnod COVID-19.</p> <p>Swyddogion i barhau i fonitro'r graddau y mae amseroedd cau clybiau wedi'r ysgol yn dychwelyd i'r amseroedd cyn-COVID times.</p> <p>Swyddogion i gysylltu â'r sector gofal plant i drafod dewisiadau i ddatblygu agwedd gofal plant fwy hyblyg i gyd-fynd ag oriau gwaith ad hoc/annodweddiadol</p> <p>Cynyddu'r llefydd gofal plant mewn lleoliadau presennol/newydd i gefnogi'r ddarpariaeth tu allan i'r ysgol.</p>	<p>Becky Wickett (GGD)</p> <p>Becka Satherley-Thomas</p> <p>Swyddog Datblygu Gweithlu – rôl newydd</p>	2022-2023	<p>Ceir llai o rieni sy'n gweithio yn adrodd am anawsterau gyda'u trefn gwaith (h.y., cyrraedd y gwaith mewn pryd neu allu gadael gwaith ar adeg addas o'u dewis) pan gynhelir ymchwil ac ymgynghoriad ADGP 2023.</p> <p>Cynyddu'r graddau y gall rhieni lleol – gan gynnwys rhieni yn y Fro sy'n cael eu cyflogi y tu allan i amserlen 8.00am-6.00pm draddodiadol a/neu rieni sy'n gweithio o gartref yn barhaol - gyrchu gofal plant ar adegau sy'n cyd-fynd â'u hanghenion newydd.</p>	UCHEL

### Argymhelliad 3: Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i arwain y gwaith o gadw a recriwtio gweithwyr (gan gynnwys prentisiaid) ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant lleol. Byddant yn dangos i bartneriaid allweddol megis arweinwyr mewn darparwyr gofal plant, Coleg Caerdydd a'r Fro a phartneriaid CWLWM eu hymrwymiad i ymgyrch recriwtio a chadw.

Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen Allweddol	Deilliannau Targed	Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL)
<p>Gan weithio gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys y sector AB, ysgolion uwchradd a phartneriaid CWLWM, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn blaenoriaethu sicrhau a bwrw ymlaen â strategaeth recriwtio a chadw i gefnogi'r sector gofal plant.</p> <p>Dylai ymgyrch recriwtio ymgorffori uchelgais i gynyddu'r isod:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) niferoedd gofalwyr plant i'r sector;</li> <li>2) niferoedd y staff gyda chymwysterau addas</li> <li>3) niferoedd y staff sy'n dysgu yn y gwaith</li> <li>4) niferoedd y staff gofal plant Cymraeg eu hiaith i'r sector (cysylltiadau ag argymhelliad 6)</li> </ol>	<p>Swyddog Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant a swyddogion eraill yr Awdurdod Lleol sydd â diddordeb mewn gweithlu a hyfforddi</p> <p>Cwmnïau hyfforddi lleol</p> <p>Colegau Addysg Bellach Ysgolion uwchradd lleol</p> <p>Partneriaid CWLWM</p>	2022-2026	<p>Cefnogir y strategaeth gyda chynllun gweithredu fydd yn rhoi i ddarparwyr gofal plant y dulliau i recriwtio a chadw staff yn llwyddiannus yn eu lleoliad. Rhagwelir y bydd llai o aelodau o'r gweithlu, gyda a heb gymwysterau, yn gadael y sector ac y bydd y nifer sy'n dod i mewn yn cynyddu.</p> <p>Daw carfan newydd o weithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar a gofal yn dod i'r sector yn y Fro am y cyfnod strategol cychwynnol 2022-2024.</p> <p>Nifer y sawl sy'n dod yn ofalwyr plant cofrestredig yn yr ardal yn cynyddu o <b>10%</b> erbyn Mawrth 2024 – gan gynnwys mewn ardaloedd haen isaf blaenoriaeth angen (megis Cadoc) ac yn enwedig yn y Barri lle bydd cynnydd sylweddol mewn datblygiadau tai lleol gan gynnwys datblygiad Glan Dŵr y Barri.</p>	UCHEL

			Bydd nifer y staff gofal plant sy'n siaradwyr Cymraeg i gefnogi'r ddarpariaeth CC wedi cynyddu o 5% erbyn Mawrth 2025	
--	--	--	---	--



#### Argymhelliad 4: Ehangu'r Cynnig Gofal Plant a chyflwyno gofal plant cyffredinol i blant 2 flwydd oed

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o sefydlu lleoedd ychwanegol ar gyfer plant 3 - 4 oed drwy ehangu cyllid y Cynnig Gofal Plant ynghyd â lleoedd ar gyfer y garfan 2 flwydd oed yn y sector cyn-ysgol - er mwyn helpu i fodloni cynnydd tebygol yn y galw am leoedd o'r fath a fydd yn ganlyniad cenedlaethol i raglen gofal plant cyffredinol llywodraeth Cymru ar gyfer plant 2 flwydd oed, y bwriedir ei chychwyn yn hydref 2022

Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen Allweddol	Deilliannau Targed	Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL)
<p>Bydd pob cyfle i ddatblygu darpariaethau/llefydd newydd neu estyniad i'r hyn sy'n bodoli eisoes yn cael eu hannog yn strategol i ystyried neilltuo carfan o lefydd i blant 3 a 4yr oed dan y Cynnig Gofal Plant</p> <p>Bydd swyddogion Bro Morgannwg yn sicrhau bod eu carfan sector blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi paratoi'n llawn ac yn gwybod am gyflwyniad graddol y cynnig cyffredinol i blant 2 flwydd oed o Fedi 2022 – a byddant yn parhau i fonitro'r gallu i gael mynediad at lefydd o'r fath.</p>	<p>Debbie Maule</p> <p>Kath King</p> <p>Becka Satherley-Thomas</p> <p>Kath Clarke</p>	<p>Ebrill 2022- Mawrth 2023</p>	<p>Cyllid cyfalaf ar gael i gynyddu niferoedd y llefydd gofal plant newydd am gam cyntaf ehangu arfaethedig y Cynnig i blant 3 a 4 oed.</p> <p>Cyflwynir cynnig cyffredinol Llywodraeth Cymru i blant 2 flwydd oed yn raddol mewn ardaloedd wedi eu targedu yn y Fro er mwyn sicrhau y gall y teuluoedd hynny a nodwyd gyrchu lle mewn lleoliad ac ar amser o'u dewis. Bydd hyn yn cael ei fonitro trwy gyfoesiadau ADGP sydd ar y gweill.</p> <p>Bydd y sector gofal plant blynyddoedd cynnar yn y Fro yn parhau i fod yn barod ac yn gwybod am y fenter.</p>	<p><b>UCHEL</b></p>

### Argymhelliad 5: Anghenion Dysgu Ychwanegol

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gefnogi ei sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i roi uchelgeisiau'r Rhaglen Trawsnewid ADY ar waith, a gychwynwyd yn y wlad yn hydref 2021

Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen Allweddol	Deilliannau Targed	Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL)
<p>Dylai Cyngor Bro Morgannwg Weithio mewn partneriaeth strategol gyda'r sector gofal plant a chwarae, i flaenoriaethu mentrau hyfforddi wedi'u canoli ar thema ADY, a gwelliannau (ffisegol) ar thema hygyrchedd).</p> <p>Fel rhan o'r Fforwm Blynyddoedd Cynnar, bydd cydweithwyr y blynyddoedd cynnar yn cefnogi'r awdurdod lleol a phartneriaid allanol wrth drafod, adolygu a gweithredu ar gyfeiriadau a dderbyniwyd gan y fforwm.</p> <p>Bydd arferion da presennol yn cael eu hybu a bydd cefnogaeth o ansawdd i fusnesau yn parhau i ganolbwyntio ar y modd y gall darparwyr gefnogi plant a'u teuluoedd hyd yn oed yn well.</p>	<p>Debbie Maule</p> <p>Becka Satherley-Thomas</p> <p>Kirsty Gamlin</p> <p>Katie Barratt</p> <p>Joanne Jones/Julia Sky</p>	<p>Ebrill 2022- Mawrth 2023</p>	<p>Bydd gan ofalwyr plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol eisoes neu sy'n ymddangos (gan gynnwys gofalwyr sy'n gweithio) fwy o hyder yn eu gallu i gyrchu gofal plant o safon a all gefnogi eu plentyn yn effeithiol.</p> <p>Bydd y ffaith fod COVID-19 wedi creu mwy o heriau o ran datblygiad cynnar (oedi) rhai plant yn cael ei liniaru ymhellach a rhoddir cefnogaeth ychwanegol i'r garfan a ddioddefodd yr effeithiau hyn – gan gynnwys trwy weithlu sydd wedi ei hyfforddi a'i baratoi yn well, sydd wedi <i>ymrwymo</i> i'r Rhaglen Trawsnewid ADY ac yn gwybod amdani</p>	<p><b>UCHEL</b></p>

### Argymhelliad 6: Cefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn parhau yn ymwybodol y gallai nifer y rhieni a phlant sydd â diddordeb mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg barhau i gynyddu wrth i broffil a chanlyniadau Strategaeth Cymraeg 2050 barhau i symud ymlaen, ac er nad yw ehangu darpariaeth o'r fath yn flaenoriaeth ar hyn o bryd, dylai barhau i gael ei chynnwys wrth feddwl a chynllunio ar gyfer darpariaethau/lleoedd newydd.

Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen Allweddol	Deilliannau Targed	Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL)
<p>Dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau â'i waith gyda phartneriaid CSAG a phartneriaid allweddol lleol eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn sicrhau y gall unrhyw deulu sydd am gyrchu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny.</p> <p>Caiff sefydlu darpariaethau newydd/presennol ei fonitro er mwyn bwrw golwg ar y cyfraniad cyson i hygyrchedd llefydd gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Debbie Maule</p> <p>Becky Wickett</p> <p>Mudiad Meithrin</p> <p>Menter Bro Morgannwg</p> <p>Partneriaid CSAG</p>	<p>2022-2026</p>	<p>Bydd nifer y llefydd cyfrwng-Cymraeg fydd ar gael yn cynyddu yn y Fro o <b>20%</b> erbyn 2026.</p> <p>Gall teuluoedd Cymraeg eu hiaith a/neu deuluoedd sydd ag uchelgais i ddod yn rhugl yn y Gymraeg gyrchu gofal plant o'u dewis.</p> <p>Parheir i integreiddio'r Strategaeth CSAG yn llawn i ddatblygiadau strategol a darpariaethau newydd sy'n gysylltiedig â digonoldeb a chynllunio gofal plant.</p>	<p><b>CANOLIG</b></p>

**Argymhelliad 7: Parhau i gefnogi'r gwaith o gynnig cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol), cyngor ac arweiniad parhaus i'r sector Gofal Plant i gynorthwyo adferiad COVID a hyrwyddo cynaliadwyedd**

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith o gefnogi'r sector gofal plant i gynorthwyo gyda'r adferiad yn dilyn COVID drwy grantiau i gefnogi cynaliadwyedd a/neu gynyddu lleoedd gofal plant; rhannu gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar newidiadau o ran cyngor ac arweiniad COVID-19. Parhau i fod yn ymwybodol o'r heriau parhaus sy'n wynebu'r sector a chynnig cyfle i fynegi pryderon drwy fforymau tymhorol

Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen Allweddol	Deilliannau Targed	Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL)
<p>Dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau â'i waith gyda chydweithwyr mewnol ac allanol i roi cefnogaeth werthfawr ac adeiladol i aelodau ei sector.</p> <p>Sefydlu fforymau bob tymor lle gall yr awdurdod lleol a phartneriaid dynnu sylw at gyfoesiadau perthnasol a hefyd lle caiff darparwyr gofal plant gyfle i fynegi eu prydeorn a/neu rannu deilliannau cadarnhaol Sicrhau bod gan ddarparwyr gofal plant wybodaeth am grantiau i'w cefnogi gyda chyanliadwyedd a/neu ehangu llefydd gofal plant.</p> <p>Rhoddir cyfoesiadau i'r sector gofal plant am gyngor a chanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch COVID-19 – gan gynnwys y Canllawiau am ofal plant a gwaith chwarae: Coronafirws</p>	<p>Debbie Maule</p> <p>Becky Wickett - GGD</p> <p>Becka Satherley-Thomas</p> <p>CWLWM partneriaid</p>	<p>2022-2026</p>	<p>Mae agwedd bartneriaeth ar gael i gefnogi'r sector gofal plant i adfer o COVID-19</p> <p>Caiff y sector gofal plant y wybodaeth ddiweddaraf am gyfoesiadau perthnasol trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac mewn digwyddiadau yn y fforwm bob tymor.</p> <p>Gall y sector gofal plant wneud cais trwy amrywiaeth o geisiadau grant i gefnogi cynaliadwyedd eu lleoliad yn y tymor byr/hir.</p>	<p><b>UCHEL</b></p>

<p>Darperir cefnogaeth, cyngor a chanllawiau i helpu lles y staff</p>			<p>Cefnogi lleoliadau gofal plant i barhau i weithredu'n ddiogel gan sicrhau bod staff a phlant yn dilyn arferion hylendid dwylo ac anadlu da.</p> <p>Mae'r staff yn teimlo bod gwerth arnynt a'u bod yn cael eu parchu ac y gallant drafod unrhyw bryderon gyda'u rheolwr llinell.</p>	
---	--	--	---	--